CRONFA BENSIWN RHONDDA CYNON TAF PENSION FUND

RHONDDA CYNON TAF



# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# PENSIYNAU

RHONDDA CYNON TAF

## O FESEN DERWEN A DYF

2025

cplll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

# Cynnwys


**Tudalen: 3**
Rhagair y **Cadeirydd**

**Tudalen: 4**
**Cyflwyniad**

**Tudalen: 5**
**Crynodeb**
- Cyflogwyr sy'n Cymryd Rhan
- Cyfranwyr
- Aelodau o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn
- Aelodau o Banel Cynghori'r Gronfa Bensiwn
- Aelodau o Fwrdd y Gronfa Bensiwn

**Tudalen: 12**
Adroddiad **Materion Gweinyddu**
- Cyflwyniad
- Prisiad Actiwaraidd
- Ansawdd Data
- Llywodraethu
- Rheoleiddio
- Newidiadau i Drethi Pensiwn Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi
- Treth Etifeddiant
- Rhyddid o ran Dewis / Sgamiau
- Atal a Chanfod Twyll
- Edrych Tuag at y Dyfodol
- Cyhoeddi cyfraddau'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr – Medi 2025
- Cynnydd yn yr Oedran Pensiwn Ieuengaf
- Oedran Pensiwn y Wladwriaeth
- Gwybodaeth am Gyflawniad
  - Nifer yr Aelodau
  - Dadansoddiad o'r Aelodaeth

**Tudalen: 23**
Adroddiad ar **Faterion Buddsoddi**
- Cyflwyniad
- Rheoli Buddsoddi
- Cyflawniad Buddsoddi
- Dyrannu Asedau a Chyflawniad
- Manylion Rheolwyr y Gronfa
- Elw a Cholled y Buddsoddiadau
- Trefnau Gwarchod
- Ffioedd Rheolwyr a Chynghorwyr y Gronfa
- Y Daliadau Mwyaf
- Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi
- Egwyddorion Buddsoddi Myners

**Tudalen: 43**
Adroddiad ar y **Cyfrifon**
- Cyfrif y Gronfa
- Datganiad o'r Asedau Net
- Nodiadau ar Gyfrifon y Gronfa Bensiwn
- Cyfraniadau
- Barn yr Archwilydd

**Tudalen: 52**
Adroddiad **Yr Actiwari**
- Cyflwyniad
- Sefyllfa Actiwaraidd

**Tudalen: 55**
Adroddiad ar **Faterion Cyfathrebu**
- Cyfarfodydd Blynyddol
- Desg Gymorth
- Gwefan
- Cyflwyniadau
- Datganiadau Buddion Blynyddol
- Ymweliadau â Chartrefi
- Trefnau Cyfathrebu Electronig
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014
- Cynnydd Costau Byw

**Tudalen: 57**
Llywodraethu'r **Gronfa Bensiwn**
- Bwrdd Pensiwn Lleol
- Newyddion gan y Cadeirydd
- Strwythur Llywodraethu
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd Llywodraethu Pensiynau
- Manylion Presenoldeb Pwyllgor a Bwrdd y Gronfa Bensiwn
- Gwybodaeth a Sgiliau

**Tudalen: 66**
**Partneriaid**

**Tudalen: 68**
Manylion Cyswllt y **Cyfranwyr**
- Desg Gymorth yr Adran Bensiynau
- Polisi Gweinyddu Pensiynau
- Buddsoddiadau'r Gronfa
- Cyfrifon Cronfa Bensiwn
- Cyflwyniadau neu Sesiynau Hyfforddi ar faterion Pensiynau

**Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn**
Y Cynghorydd Mark Norris



# Rhagair **y Cadeirydd**

**Mae'n bleser gennyf, a minnau'n Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn RhCT, i gyflwyno Adroddiad y Gronfa Bensiwn eleni. Yn gyntaf hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor, y Bwrdd Pensiwn a'r Swyddogion sydd wedi bod yn rhan o drefniadau llywodraethu cymhleth a threfniadau stiwardiaeth ariannol y gronfa, gan gynnwys y staff sydd wedi parhau i sicrhau bod Aelodau'r Gronfa yn derbyn gwasanaeth gwych drwy gydol y flwyddyn. A minnau'n gadael fy rôl fel Cadeirydd, hoffwn i ddymuno'n dda i'r Cynghorydd Leyshon, a fydd yn camu i rôl y Cadeirydd, gan arwain y Pwyllgor a'r Gronfa yn y dyfodol.**

Cyflawnodd y Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiynau eu priod gyfrifoldebau yn ystod y flwyddyn mewn modd effeithiol, gan roi sicrwydd priodol o ran safonau uchel parhaus llywodraethu a chydymffurfiaeth y Gronfa. Mae aelodau'n parhau i gymryd rhan mewn hyfforddiant priodol, fforymau cenedlaethol, trafodaeth ynghylch risgiau a lliniaru, a chyfleoedd i helpu i lywio gofynion strategol a pholisi'r Gronfa.

Roedd yn flwyddyn gyfnewidiol unwaith eto o ran llwyddiant buddsoddiadau. Cafodd marchnadoedd ariannol eu heffeithio gan ansicrwydd ynghylch disgwyliadau o ran chwyddiant, twf arafach, bygythiadau o ran tariffau a thensiynau byd-eang oherwydd gwrthdaro. Er gwaethaf hyn, mae'r Gronfa wedi parhau i gyflawni ei hamcanion, ac roedd lefel ariannu'r Gronfa wedi cyrraedd 113.7% erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

Mae'r Pwyllgor yn arddangos agwedd gadarnhaol o hyd o ran sicrhau bod 'Buddsoddi Cyfrifol', gan gynnwys risg amgylcheddol, yn cael ei ystyried yn rhan o bob penderfyniad buddsoddi. Mae'r Gronfa hefyd yn aelod o Gylch Trafod Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol a, thrwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru (WPP), mae'r Gronfa wedi penodi Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu. Mae'r darparwyr yma'n ymgysylltu â chwmnïau ar ein rhan i sicrhau gwelliannau o ran arferion a threfniadau adrodd, ac i'n helpu i leihau risgiau o ran ein buddsoddiadau sy'n ymwneud â materion llywodraethu corfforaethol.

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiwn wedi bod yn cadw llygad agos ar lwythi gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweithredu rhwymedi McCloud, y rhaglen Dangosfyrddau Pensiynau a heriau ehangach o ran Gweinyddu'r Gronfa, ac mae'n parhau i gael diweddariadau rheolaidd yn hyn o beth.

Mae'r Garfan Bensiynau yn parhau i ddatblygu ac annog defnydd o borth aelodaeth ar-lein y Gronfa, gwella'r adnodd hunanwasanaeth a fideos hunangymorth i gefnogi dealltwriaeth o bensiynau. Byddwn i'n annog cydweithwyr i sicrhau bod negeseuon yn parhau i annog aelodau i fanteisio i'r eithaf ar y swyddogaeth werthfawr yma.

**Diolch am ddarllen yr adroddiad yma.**

**Y Cynghorydd Mark Norris**
Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn RhCT

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymgynghoriad 'Parod at y Dyfodol', a oedd yn cynnig diwygiadau sylweddol i'r ffordd y mae buddsoddiadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael eu cronni. Ymatebodd y Gronfa i'r ymgynghoriad yma, ac mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) cyflwynodd gynllun busnes ar sut y byddai Cronfa PPC yn gweithredu'r newidiadau arfaethedig. Cafodd y cynnig mewn perthynas ag achos busnes PPC ei gymeradwyo gan Gydbwyllgor Llywodraethu PPC ar 12 Mawrth 2025 ac yna'i dderbyn gan y Llywodraeth.

Mae cydweithrediad Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn cerrig milltir allweddol. Ers adroddiad y llynedd, mae'r 'Buddsoddiadau Cyfunol' a ddarparwyd gan atebion a gynigir drwy PPC ar ran yr 8 cronfa CPLlL yng Nghymru wedi cynyddu i 75%. Ym mis Tachwedd 2024, roedd PPC yn falch iawn o dderbyn gwobr Arloesi ESG yn ystod seremoni wobrwyo LGC. Mae sesiynau hyfforddiant wedi'u trefnu gan PPC wedi'u darparu trwy gydol 2024/25 i'r rheiny sydd â chyfrifoldebau mewn perthynas â'r gronfa bensiwn.

Mae aelodaeth weithredol 'actif' y Gronfa wedi parhau'n gyson yn ystod y flwyddyn, gyda thros 23,000 o aelodau sy'n bensiynwr a dibynyddion bellach yn elwa ar y cynllun gwerthfawr yma, gyda chyfanswm o £189 miliwn o fuddion pensiwn wedi'u talu yn ystod y flwyddyn.

I gloi, er ei bod hi wedi bod yn flwyddyn anodd o ran llwyddiant buddsoddiadau yn erbyn meincnod y Gronfa, mae'r lefel ariannu gyffredinol wedi parhau i wella ac rydyn ni'n parhau i fod yn ymrwymedig i natur hirdymor y Gronfa ac mae ein strategaethau yn adlewyrchu hyn. Mae'r Garfan Bensiynau yn parhau i ragori yn ystod cyfnod heriol ac mae eu hymdrechion a'u perfformiad yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n briodol.



# Cyflwyniad

**Croeso i Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn eleni, sy'n rhoi trosolwg o gyflawniad a gweithgarwch allweddol yn ystod y flwyddyn 2024/25.**

Er gwaethaf y cyd-destun o ansicrwydd yn y marchnadoedd ariannol a pholisi ariannol sydd wedi'i dynhau, cyflawnodd y Gronfa elw cadarnhaol o 2.0% ar gyfer y flwyddyn 2024/25. Roedd hyn yn is na'n meincnod penodol ar gyfer y gronfa, sef 4.3%, gyda chwyddiant yn parhau i fod yn her sylweddol. Roedd yn gyfnod heriol yn y marchnadoedd ecwiti yn sgil cynigion yr Unol Daleithiau o ran tariffau. Roedd y rhain wedi creu tensiynau ym myd masnach, ochr yn ochr â phryderon geo-wleidyddol ehangach yn chwarter olaf y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd gwerth marchnad y Gronfa o £4.712bn i £4.7983bn erbyn 31 Mawrth 2025. Mae dull disgybliedig o ran sefydlogrwydd buddsoddi dros y tymor hir a chynnal ein safle cryf yn parhau'n flaenoriaethau ar gyfer y Gronfa. Mae enillion tymor hwy yn rhagori ar y meincnod ar gyfer cyfnodau o 10, 20 a 30 mlynedd, gan eu gosod yn y 12fed, 6ed a'r 22ain ganradd yn y drefn honno.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i esblygu, ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roedd ganddi asedau wedi'u rheoli gwerth £25.8 biliwn sy'n cynrychioli 75% o asedau buddsoddi cyfansymiol yr 8 cronfa CPLlL yng Nghymru. Roedd Cronfa RhCT wedi cyd-fuddsoddi 83% o'i hasedau ar lefel Cymru gyfan. Mae gwaith sylweddol yn parhau mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol. Mae rhagor o fanylion am waith, trefniadau llywodraethu, polisïau, adroddiad blynyddol a chynllun busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gael ar y wefan **www.partneriaethpensiwncymru.org**

**Edrych tuag at y dyfodol...**
Lansiodd y Llywodraeth ei Hymgynghoriad 'Parod at y Dyfodol'* ar 14 Tachwedd 2024, gan amlinellu ystod o gynigion i gryfhau trefniadau rheoli ar gyfer buddsoddiadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn 3 maes allweddol:

1. Diwygio cronfeydd asedau'r CPLlL,
2. Rhoi hwb i fuddsoddiad y CPLlL yn eu hardaloedd a'u rhanbarthau yn y DU, a
3. Cryfhau trefniadau llywodraethu Awdurdodau Gweithredu'r CPLlL a chronfeydd y CPLlL.

*[Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Lloegr a Chymru): Parod at y Dyfodol - GOV.UK]

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, gofynnodd y Llywodraeth i bob un o'r wyth cronfa CPLlL gyflwyno achos busnes yn nodi sut y byddai'n gweithredu'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Cychwynnodd Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) 'Brosiect yr Wyddfa' i lunio ei Hachos Busnes i fynd i'r afael â'r cwestiwn sylfaenol a godwyd yn rhan o'r ymgynghoriad.

Yn dilyn ystyriaeth drylwyr, daeth PPC i'r casgliad y byddai cynnig i ddatblygu ei Gwmni Rheoli Buddsoddiadau ei hun a chynnal annibyniaeth y Gronfa er budd gorau holl randdeiliaid uniongyrchol ac ehangach yng Nghymru, gan nodi pob un o'r 8 Awdurdod Gweinyddu CPLlL Cymru'n unig gyfranddalwyr a chleientiaid y cwmni.

Ddechrau mis Ebrill 2025, cafodd PPC wybod bod y Llywodraeth wedi cymeradwyo'r achos busnes a gyflwynwyd. Ar hyn o bryd mae'r Gronfa'n gweithio gyda chronfeydd partner PPC i weithredu'r newidiadau sydd wedi'u cynnwys yn y diwygiadau, yn benodol o ran creu Awdurdod Ymddygiad Ariannol annibynnol, cwmni rheoli buddsoddiadau awdurdodedig, a hynny wrth i'r broses Seneddol barhau mewn perthynas â'r Bil Pensiynau.

Mae Prisiad Actwaraidd 2025 yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Bydd y Prisiad yma'n pennu'r cyfraniadau Cyflogwyr diwygiedig ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2029. Byddaf yn sicrhau ein bod ni'n cynnal deialog effeithiol drwy gydol y cyfnod sydd i ddod ac rwy'n edrych ymlaen at roi gwybod am ganlyniadau'r gwaith yma maes o law.

Ochr yn ochr â'r Prisiad yma, byddwn ni'n adolygu ac yn ymgynghori ar 'Ddatganiad Strategaeth Ariannu' y Gronfa sy'n nodi'r dull a fabwysiadwyd o ran bodloni rhwymedigaethau pensiwn dros amser ar y cyd â Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa. Yn dilyn y Prisiad yma, fel sydd wedi digwydd yn ystod cylchoedd tair blynedd blaenorol, byddwn ni'n adolygu 'Dyraniad Asedau Strategol' y Gronfa i sicrhau bod ein hamcanion hirdymor o ran risg/enillion ac arallgyfeirio buddsoddiadau yn parhau i fod yn briodol.

Daeth rheoliadau rhwymedi newydd McCloud, sy'n ceisio cael gwared ar y gwahaniaethu yn y cynllun, i rym ym mis Hydref 2023. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r Garfan Gweinyddu Pensiynau a Chyflogwyr y Gronfa'n parhau i weithio'n galed i weithredu'r rhwymediau priodol ar draws yr aelodaeth. Yn ystod y flwyddyn yma, cynhaliodd swyddogion y Gronfa waith paratoi i sicrhau bod goblygiadau'r rhwymediau wedi'u hadlewyrchu yn Natganiadau Buddion Blynyddol 2024/25 lle bo'n briodol.

Mae'r gwaith o gyflwyno rhaglen Dangosfyrddau Pensiynau'r Llywodraeth, sy'n ceisio galluogi unigolion i weld eu buddion pensiwn cyfunol mewn un cyfrif ar-lein, yn mynd rhagddi. Cafodd Cronfeydd y CPLlL 'safonau data' wedi'u diweddaru ac yn dilyn cyfnod profi sylweddol, llwyddodd y Gronfa i gysylltu â'r dangosfwrdd byw ym mis Medi 2025. Does dim dyddiad wedi'i bennu hyd yma o ran pryd y bydd y dangosfwrdd ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r Gronfa'n parhau i hyrwyddo'r defnydd o Borth Fy Mhensiynau ymhlith holl aelodau'r Cynllun, ac mae hyn wedi arwain at gynnydd cyson o ran nifer y bobl sy'n cofrestru dros nifer o flynyddoedd. Llwyddodd y Gwasanaeth i symud i borth aelodau gwell yn ystod mis Gorffennaf 2025, ac mae'n gobeithio cynyddu y nifer sy'n cofrestru yn y dyfodol drwy gynnal gwaith cyfathrebu wedi'i dargedu.

Rydw i'n falch o roi gwybod bod y Gronfa, yn rhan o'n trefniadau cynllunio gweithlu, wedi parhau i elwa o'r cynlluniau prentisiaeth a graddedigion, gyda phrentis arall yn cael eu penodi yn ystod 2025. Mae'r ymrwymiad parhaus i ddatblygu Carfan Weinyddu'r Gronfa, datblygu ein staff a buddsoddi mewn technolegau newydd, wedi helpu'r Gwasanaeth i gynnal parhad busnes ac i wella'n barhaus.

Mae cyflwyno'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wir yn ymdrech ar y cyd, a hoffwn i ddiolch i bawb sy'n chwarae eu rhan wrth ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf a buddion i aelodau'r cynllun.

Hyderaf bydd yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad yma o gymorth ichi, ond os ydych chi o'r farn bod modd gwella ar yr adroddiad a'i gynnwys, bydden ni'n croesawu eich sylwadau.

**Barrie Davies, C.P.F.A**
Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Adnoddau Corfforaethol (Swyddog Adran 151)

# Crynodeb

## Cyflogwyr sy'n cymryd rhan

### AWDURDOD GWEINYDDU

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

### CYRFF DERBYNIEDIG

- Abacaredig Holdings Ltd
- Agored Cymru
- Atlas FM Ltd
- Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
- Care Cymru Services
- Cymdeithas Gyrfa Cymru
- Gyrfa Cymru - Mid Glamorgan and Powys Limited
- Cartrefi Cymru Co-Operative Ltd
- CCR Energy Ltd
- Compass Cymoedd Contract Services (Cymoedd) Ltd
- Cynefin Care Ltd
- DBW FM Ltd Finance Wales Investment Ltd gynt
- Banc Datblygu Cymru Finance Wales Plc gynt
- Drive Ltd
- Drive Ltd (RhCT)
- GP Homecare Ltd T/a Radis
- Halo Leisure
- Halo Leisure Ltd (Merthyr Tudful)
- Innovate Trust Ltd
- Little Inspirations Ltd
- Uned Ddata Llywodraeth Leol
- Sefydliad i'r Deillion Merthyr Tudful
- Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful
  wedi gadael y cynllun yn 2024/25
- Cartrefi Cymoedd Merthyr
- Mrs Bucket Commercial Cleaning
- Plan B Management Solutions Ltd
- Q Care Ltd
- Gofal Cymdeithasol Cymru Cyngor Gofal Cymru gynt
- Partneriaeth Fern
- Trivallis
- Valleys to Coast Housing
  wedi gadael y cynllun yn 2024/25
- Llywodraeth Cymru Asiantaeth Datblygu Cymru gynt
- Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)
- WSP Glamorgan Consultancy Ltd
  Capita Glamorgan Consultancy gynt

### CYRFF COFRESTREDIG A DYNODEDIG

- Amgen Cymru
- Cyngor Cymuned Bedlinog
- Cyngor Cymuned Bracla
- Coleg Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr
  Dim aelodau gweithredol ar hyn o bryd
- Consortiwm Canolbarth y De
- Prif Gwnstabl De Cymru
- Coleg y Cymoedd
- Cyngor Cymuned Coety Uchaf
- Cyngor Cymuned Corneli
- Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo
- Cyngor Cymuned Cwm Garw
- Cyngor Cymuned Gelligaer
- Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn
- Cyngor Cymuned Trelales
- Cyngor Cymuned Llanbradach
  Dim aelodau gweithredol ar hyn o bryd
- Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol
- Cyngor Cymuned Llanharan
- Cyngor Cymuned Llanhari
  Dim aelodau gweithredol ar hyn o bryd
- Cyngor Cymuned Llantrisant
- Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref
- Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed
- Cyngor Tref Maes-teg
- Coleg Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Cyngor Cymuned Pont-y-clun
- Cyngor Tref Pontypridd
- Cyngor Cymunedol y Pîl
- Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
- Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru
- Awdurdod Tân De Cymru
- Tribiwnlys Prisio De Cymru
- Cyngor Cymuned Llansanffraid ar Ogwr
- Cyngor Cymuned Tonyrefail
- Prifysgol De Cymru
- Cyngor Cymuned Ynysawdre

**Cyrff Cofrestredig:**
Mae'r rhain yn cynnwys Cynghorau Sir, Awdurdodau'r Heddlu ac Asiantaeth yr Amgylchedd ymhlith sawl un arall.

**Cyrff Dynodedig:**
Mae gofyn bod cyrff sydd â'r hawl i benderfynu, megis Cynghorau Cymuned, yn penderfynu pwy o blith y rhai hynny y maen nhw'n eu cyflogi sy'n cael ymuno â'r cynllun.

**Cyrff Derbyniedig:**
Mae modd i gyrff derbyniedig gymryd rhan yn y cynllun drwy gytundeb derbyn. Caiff y Cyrff Derbyniedig yma nodi un ai rhai o'u gweithwyr sy'n cael ymuno â'r cynllun ynteu bawb.

# Tudalen y Cyfranwyr
# Pwy yw pwy

## Cyfarwyddwr Gwasanaeth:
## Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion



### Ian Traylor

**Mae Ian wedi bod yn gwasanaethu ym myd llywodraeth leol ers 1990 gan ddechrau gyda Chyngor Sir Morgannwg Ganol a throsglwyddo i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod yr ad-drefnu ym 1996.**

Mae gan Ian gefndir cadarn ym maes rheolaeth ariannol / rheoli risgiau ac mae e wedi treulio'r rhan fwyaf o'i yrfa yn gweithio ym maes Archwilio Mewnol. Ymunodd Ian â'r Gwasanaeth Pensiynau yn 2006 ac mae e'n aelod gweithredol o Banel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.

## Blaen Gyfrifydd:
## Materion Rheoli'r Trysorlys a'r Gronfa Bensiwn



### Yvonne Keitch

**A hithau wedi gwasanaethu ym myd llywodraeth leol ers dros 30 o flynyddoedd, mae Yvonne yn gyfrifol am weinyddu buddsoddiadau'r gronfa bensiwn.**

Mae hi wedi bod yn rheoli buddsoddiadau'r gronfa ers 1995.

## Cyfrifydd:
## Trysorlys a'r Gronfa Bensiwn



### Vanessa Thomas

**Dechreuodd Vanessa weithio ym myd llywodraeth leol yn 1989, pan ymunodd â Chyngor Bwrdeistref Cwm Rhondda. Trosglwyddodd i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod yr ad-drefnu ym 1996.**

Mae hi wedi gweithio yn rhan o'r garfan buddsoddi ers 2005. Ar hyn o bryd, hi yw'r swyddog sy'n gyfrifol am gynnal a chadw, a chau cyfrifon y Gronfa Bensiwn.

## Uwch Reolwr y Garfan:
## Materion Digidol, Cyfathrebu a Llywodraethu



### Tim Jenkins

**Ymunodd Tim â Llywodraeth Leol yn 2007 ac ers hynny mae wedi ymgymryd â sawl rôl ar draws nifer o adrannau cyn ymuno â'r adran bensiynau yn 2011 yn Weinyddwr Systemau.**

Yn ystod ei amser yn yr adran bensiynau, mae Tim wedi bod yn gyfrifol am roi sawl prosiect allweddol ar waith, gan gynnwys cyflwyno ffeiliau misol I-Connect i gyflogwyr a lansio'r Gwasanaeth Fy Mhensiwn Ar-lein. Ar hyn o bryd mae Tim yn cynrychioli Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf mewn nifer o grwpiau cenedlaethol i ddefnyddwyr ac yn Gadeirydd ar grŵp cenedlaethol i ddefnyddwyr I-Connect.

# **Aelodau o Bwyllgor** y Gronfa Bensiwn

## Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn:



### Y Cynghorydd Mark Norris

**Y Cynghorydd Norris yw Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu. Mae'n aelod o Gydbwyllgor Capita Morgannwg, Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd, y Bwrdd Adfer ar ôl Digwyddiadau Mawr, Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg, Is-Gadeirydd Is-Bwyllgor Cabinet yr Eisteddfod ac yn Aelod Lleol sy'n cynrychioli ward Cwm Clydach.**

Mae'r Cynghorydd Norris wedi bod yn Gadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ers cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar 5 Gorffennaf 2016.

## Is-gadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn:



### Y Cynghorydd Martin Douglas Ashford

**Mae'r Cynghorydd Ashford yn aelod o Gyd-bwyllgor Capita Morgannwg, Pwyllgor Craffu Addysg a Chynhwysiant, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 -2027, Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ac yn Aelod Lleol yn cynrychioli ward Canol Pont-y-clun.**

Mae'r Cynghorydd Ashford wedi bod yn aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ers mis Mai 2022.

# Aelodau o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn

## Aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn:



### Y Cynghorydd Christina Leyshon

**Y Cynghorydd Leyshon yw'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfranogiad Ieuenctid a'r Hinsawdd. Mae hi hefyd yn Gadeirydd ar Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ac yn aelod o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol, Is-bwyllgor y Cabinet ar gyfer Parc Coffa Ynysangharad, Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru, Cyngor Cyswllt Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Aelod lleol sy'n cynrychioli ward Graig a Gorllewin Pontypridd.**

Mae'r Cynghorydd Leyshon wedi bod yn aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ers mis Mehefin 2024.



### Y Cynghorydd Karl Johnson

**Mae'r Cynghorydd Johnson yn aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac yn aelod Lleol sy'n cynrychioli ward Llanilltud Faerdref.**

Roedd y Cynghorydd Johnson yn aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn o fis Rhagfyr 2023 a gadawodd y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2024.



### Y Cynghorydd Gareth Jones

**Mae'r Cynghorydd Jones yn aelod o'r Pwyllgor Craffu Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant, y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymuned, y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymuned (Troseddau ac Anhrefn), Cydbwyllgor Archifdy Morgannwg, Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed ac yn Aelod Lleol sy'n cynrychioli ward Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed.**

Roedd y Cynghorydd Jones yn aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ers mis Hydref 2022 a gadawodd y Pwyllgor ym mis Mehefin 2024.



### Y Cynghorydd Norman Howell Morgan

**Mae'r Cynghorydd Morgan yn aelod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymuned, y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymuned (Troseddau ac Anhrefn) ac yn Aelod Lleol sy'n cynrychioli ward Pentre.**

Mae'r Cynghorydd Morgan wedi bod yn aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ers mis Tachwedd 2022.



### Y Cynghorydd Sam Trask

**Y Cynghorydd Trask yw'r Aelod Lleol sy'n cynrychioli ward Llanilltud Faerdref.**

Mae'r Cynghorydd Trask wedi bod yn aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ers mis Tachwedd 2024.

# Aelodau o Banel Cynghori'r Gronfa Bensiwn

## Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran:
Adnoddau Corfforaethol (Swyddog Adran 151)



### Barrie Davies C.P.F.A

**Ymunodd Barrie ag Awdurdod Lleol Cyngor Morgannwg Ganol yn 1985 gan symud i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod yr ad-drefnu ym 1996.**

Mae Barrie yn aelod gweithredol o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu. Cafodd ei benodi i'w swydd bresennol ym mis Mawrth 2019.

## Cyfarwyddwr:
Gwasanethau Cyllid, Materion Trawsnewid a Rheoli Asedau (Dirprwy Swyddog Adran 151)



### Paul Griffiths C.P.F.A

**Mae Paul wedi bod yn gwasanaethu ym maes llywodraeth leol ers 1989 gan ddechrau gyda Chyngor Sir Morgannwg Ganol a symud i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod ystod cyfnod yr ad-drefnu ym 1996.**

Mae gan Paul brofiad o weithio ym maes rheolaeth ariannol, archwilio mewnol a rheoli cyflawniad corfforaethol, ac ar hyn o bryd, Paul yw Cyfarwyddwr - Gwasanethau Cyllid, Materion Trawsnewid a Rheoli Asedau'r Cyngor. Daeth Paul hefyd yn aelod o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu ym mis Mawrth 2019.

## Cyfarwyddwr Gwasanaeth:
Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion



### Ian Traylor

**Mae Ian wedi bod yn gwasanaethu ym maes llywodraeth leol ers 1990 gan ddechrau gyda Chyngor Sir Morgannwg Ganol a throsglwyddo i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod yr ad-drefnu ym 1996.**

Mae gan Ian gefndir cadarn ym maes rheolaeth ariannol/rheoli risgiau ac mae e wedi treulio'r rhan fwyaf o'i yrfa yn gweithio ym maes archwilio mewnol. Ymunodd Ian â'r Gwasanaeth Pensiynau yn 2006 ac mae e'n aelod gweithredol o Banel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.

## Cyfarwyddwr Gwasanaeth:
Gwasanaethau Cyllid - Addysg, Cyllid ac Adrodd ar faterion Ariannol



### Stephanie Davies F.C.C.A.

**Yn dilyn gyrfa yn y sector preifat, ymunodd Stephanie â Chyngor Rhondda Cynon Taf yn 2000 fel Blaen Gyfrifydd gyda chyfrifoldeb dros baratoi cyfrifon statudol y Cyngor.**

Yn ei swydd bresennol, un o gyfrifoldebau Stephanie yw rheoli carfan fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn a daeth hi'n aelod o Banel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn yn ystod 2014.

# Aelodau o Banel
# Cynghori'r Gronfa Bensiwn

## Blaen Gyfrifydd:
## Materion Rheoli'r Trysorlys a'r Gronfa Bensiwn



### Yvonne Keitch

**A hithau wedi gwasanaethu ym myd llywodraeth leol ers dros 30 o flynyddoedd, mae Yvonne yn gyfrifol am weinyddu buddsoddiadau'r gronfa bensiwn.**

Mae hi wedi bod yn rheoli buddsoddiadau'r gronfa ers 1995.

## Cyfrifydd:
## Trysorlys a'r Gronfa Bensiwn



### Vanessa Thomas

**Dechreuodd Vanessa weithio yn y byd llywodraeth leol ym 1989, pan ymunodd â Chyngor Bwrdeistref Cwm Rhondda. Trosglwyddodd i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod yr ad-drefnu ym 1996.**

Mae hi wedi gweithio yn rhan o'r garfan fuddsoddi ers 2005. Ar hyn o bryd, hi yw'r swyddog sy'n gyfrifol am gynnal a chadw, a chau cyfrifon y Gronfa Bensiwn.

## Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol



### Carolan Dobson

**Mae Carolan Dobson yn Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol ar gyfer nifer o gronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) gan gynnwys: Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Sir Swydd Stafford, Cyngor Sir Buckingham a Bwrdeistref Enfield yn Llundain.**

Roedd hi'n Gyfarwyddwr materion buddsoddi gyda chwmni Abbey Asset Managers. Mae ganddi dros 30 mlynedd o brofiad yn rheoli cronfeydd ac yn ymgynghorydd materion buddsoddi.

## Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol




### David Cullinan

**Mae David wedi gweithio fel Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol i'r Gronfa ers dros ddeg mlynedd. Mae e'n gweithio'n hunangyflogedig bellach ar ôl gweithio am dros 30 o flynyddoedd i State Street. Roedd e'n rheoli cysylltiadau ag amrediad eang o gleientiaid – cronfeydd pensiwn, cwmnïau rheoli asedau, cwmnïau yswiriant, elusennau a sefydliadau.**

Mae ganddo gefndir ym maes cyfrifeg buddsoddiadau, gwerthuso buddsoddiadau a phrisio unedau. Treuliai ran helaeth o'i yrfa yn ymgysylltu a mesur cyflawniad cronfeydd y sector cyhoeddus ac yn benodol ar goladu ystadegau tymor hir a thueddiadau ar ran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - gan gynnwys WM Universe a gwasanaeth LAPPA PIRC.

# Aelodau o Fwrdd y Gronfa Bensiwn

## Cynrychiolydd y Cyflogwyr:
Cadeirydd



### Yr Athro Hugh Coombs

**Prifysgol De Cymru**

## Cynrychiolydd y Cyflogwyr:



### Mr David Francis

**Coleg Y Cymoedd**

## Cynrychiolydd yr Aelodau:



### Mr Rob Whiles

**Pensiynwr sy'n Aelod o Gronfa Bensiwn RhCT**


## Cynrychiolydd yr Aelodau:



### Mr Darren Griffiths

**Aelod o Gronfa Bensiwn RhCT a chynrychiolydd undeb llafur (Unsain)**

Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion
Ian Traylor



# Adroddiad **Materion Gweinyddu**

## Cyflwyniad

**Rydyn ni wedi gwneud cynnydd da ar nifer o weithgareddau allweddol drwy gydol 2024/25 a oedd yn gofyn am gasglu a dilysu data aelodaeth. Hoffwn ddiolch i Gyflogwyr y Gronfa am eu hymgysylltiad a'u cefnogaeth barhaus, sy'n galluogi'r Garfan i ddarparu data cywir ar gyfer eitemau megis y Datganiadau Buddion Blynyddol, y Prisiad Teirblwydd, rhwymedi McCloud a Rhaglen y Dangosfwrdd Cenedlaethol.**

Mae gweithredu rhwymedi cymhleth McCloud yn parhau i fod yn her sylweddol ac ychwanegol i Garfan y Gronfa Bensiwn. Er bod y cywiriadau priodol ar waith, hyd yma mae'r amrywiad ariannol yn fach ar y cyfan ar gyfer aelodau unigol sy'n cael eu heffeithio.

Mae cynnal sianeli cyfathrebu priodol gyda phob grŵp rhanddeiliaid yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Gwasanaeth Pensiynau. Mae "Fy Mhensiwn Ar-lein" yn darparu porth hunanwasanaeth i Aelodau'r Cynllun gyda swyddogaeth gyfrifiannell a storfa sy'n ein galluogi ni i rannu dogfennau. Yn ystod mis Gorffennaf 2025, symudodd y Gronfa i borth gwell sy'n darparu dulliau dilysu aml-ffactor ac sy'n cynnwys gwelliannau o ran ymarferoldeb a gwedd y porth ar gyfer Aelodau ein Cynllun. Ymgysylltu ag Aelodau'r Cynllun drwy "Fy Mhensiwn Ar-lein" yw dull cyfathrebu dewisol y Gronfa.

Er mwyn sicrhau bod gan y gwasanaeth yma adnoddau digonol i fodloni'r disgwyliadau presennol a rhai'r dyfodol, rydyn ni'n parhau i gefnogi, buddsoddi a datblygu'r Garfan Bensiynau. Mae hyfforddiant technegol mewnol ac allanol wedi'i dargedu yn cael ei hwyluso lle bo angen ac mae trefniadau cynllunio gweithlu tymor hwy y Gronfa yn parhau i helpu i danategu ein cydnerthedd busnes. Rwy'n falch o allu rhoi gwybod bod y Gronfa wedi cefnogi cyfle prentisiaeth pellach o fis Medi 2025.

## Prisiad Actiwaraidd

**Mae'n ofynnol i'r Gronfa gael adroddiad prisiad actiwaraidd mewn perthynas â'i hasedau a'i rhwymedigaethau bob tair blynedd. Mae Prisiad Teirblwydd nesaf y Gronfa wedi'i drefnu ar gyfer 31 Mawrth 2025 ac mae cynnydd da yn cael ei wneud yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Wrth bennu'r Prisiad, bydd y Gronfa yn ystyried ei hamcanion ariannol tymor hir a strategol. Mae'r gofyniad statudol ynghylch cyfraniadau'r cyflogwr wedi cael sylw dyledus. Mae'r gofyniad yn nodi y dylai cyfraniadau'r Cyflogwr gael eu gosod er mwyn "sicrhau effeithlonrwydd cost y cynllun dros y tymor hir, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gronfa bensiwn".**

Bydd y Prisiad yn darparu 'Tystysgrif Cyfraddau ac Addasu' ddiwygiedig sy'n nodi cyfraniadau Cyflogwyr am y 3 blynedd ganlynol, gyda'r cyfraddau cychwynnol yn dod i rym o 1 Ebrill 2026.

Bydd Datganiad Strategaeth Ariannu (DSA) cyfredol y Gronfa yn cael ei adolygu yn rhan o'r prisiad actiwaraidd sy'n cael ei gynnal yn 2025. Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddodd Bwrdd Cynghori'r CPLlL ganllawiau newydd ar gyfer paratoi a chynnal DSA a fydd yn disodli fersiwn 2016.

Bydd y Datganiad Strategaeth Ariannu yn destun ymgynghoriad â Chyflogwyr sy'n cymryd rhan a rhanddeiliaid allweddol eraill. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad a'r DSA sy'n deillio o'r gwaith ymgynghori hynny yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfarfod blynyddol ar y cyd rhwng Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a'r Bwrdd Pensiynau ym mis Mawrth 2026.

Yn ogystal â chanllawiau'r DSA, a chan ystyried bod disgwyl i nifer o gronfeydd y CPLlL nodi gwarged yn eu sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2025, cyhoeddodd y Bwrdd Cynghori ddatganiad ar Brisiad Actiwaraidd 2025 ym mis Mai 2025 gyda'r nod o:

- cynorthwyo'r awdurdodau gweinyddu ac actiwariaid y gronfa i reoli proses y prisiad;
- cydbwyso disgwyliadau y gwahanol randdeiliaid;
- gwella cysondeb y risgiau a ystyrir wrth bennu strategaethau ariannu; a
- chynyddu tryloywder wrth wneud penderfyniadau a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau.

Lefel ariannu gyffredinol Cronfa RhCT ar 31 Mawrth 2025 oedd 113.7%. Wrth i'r Gronfa barhau i aeddfedu bydd y sefyllfa o ran llif arian yn parhau i gael ei monitro'n agos.

## Ansawdd Data

Mae sgorau data aelodaeth y Gronfa a ddarparwyd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn Ffurflen Flynyddol y Cynllun yn rhoi llawer o sicrwydd. Serch hynny, yn ystod 2024/25, llwyddodd y garfan i barhau i weithio'n agos gydag Actiwari'r Gronfa a Chyflogwyr i wneud gwaith glanhau data pellach yn y cyfnod cyn y Prisiad.

## Llywodraethu

**Mae fforymau llywodraethu'r Gronfa wedi parhau i weithredu'n effeithiol ar ran rhanddeiliaid. Trwy gydol y flwyddyn, mae swyddogion wedi cydweithio'n agos â Bwrdd Pensiynau RhCT er mwyn ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud â risg a chydymffurfiaeth, boed hynny'n newydd neu'n bodoli eisoes. Yn ystod y cyfnod yma, cafodd Polisi Tramgwyddiadau'r Gronfa ei ddiweddaru i gynnwys materion sy'n gysylltiedig â maes 'seibr'.**

Caiff cyfarfodydd Cadeiryddion Byrddau Pensiwn Cymru eu hwyluso trwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru, sy'n cynnwys diweddariad gan yr awdurdod 'lletyol' mewn perthynas â gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru a diweddariadau gan y Gweithredwr a'r Rheolwr Buddsoddi. Mae trefniadau Cydbwyllgor Llywodraethu'r PPC hefyd yn cynnwys Cynrychiolaeth Aelodau'r Cynllun.

Ym mis Mawrth 2024, rhoddodd y Rheoleiddiwr Pensiynau ei God Ymarfer 'Cyffredinol' hir ddisgwyliedig ar waith. Mae hwn yn disodli Cod Ymarfer 14 ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ac yn dwyn ynghyd 10 o 'godau ymarfer' presennol y Rheoleiddiwr Pensiynau a rhai canllawiau cysylltiedig. Mae'r cod cyffredinol newydd yn manylu ar ddisgwyliadau'r Rheoleiddiwr o'r ymddygiad a'r arferion y dylai cyrff llywodraethu eu bodloni i gydymffurfio â'u dyletswyddau fel y'u nodir mewn deddfwriaeth pensiynau.

Yn ystod 2024/25 cynhaliodd y Gronfa 'dadansoddiad o'r bylchau', gyda chymorth Bwrdd Pensiwn y Gronfa. Roedd y gwaith yma wedi arwain at ddogfennu ei gweithgaredd cydymffurfio. Rhoddodd y gwaith yma lefel uchel o sicrwydd o ran cydymffurfiaeth y Gronfa â disgwyliadau'r Cod.

Cyhoeddodd Bwrdd Cynghori'r CPLlL ei bapur Adolygiad Blynyddol cyntaf ym mis Ionawr 2025. Rhoddodd yr adolygiad drosolwg o'r gwaith sydd wedi'i wneud gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun yn rhan o'i ffrydiau gwaith yn ystod 2024 a thynnodd y gwaith sylw at y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer 2025.

Mae'r CPLlL yn parhau i gynrychioli un o'r cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio mwyaf yn y byd ac roedd adroddiad blynyddol Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn cynnig crynodeb o aelodaeth y Cynllun a chyfanswm yr asedau ar 31 Mawrth 2024:

- 6.7 miliwn o aelodau
- 15,049 o gyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun
- asedau gwerth cyfanswm o £390 biliwn

## Rheoleiddio

### Mesur Cynlluniau Pensiwn 2025

Cafodd ymgynghoriad 'Parod at y Dyfodol' y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ei gychwyn ar 14 Tachwedd 2024.

Cyhoeddwyd ymateb manwl y Llywodraeth yn dilyn yr ymgynghoriad 'Parod at y Dyfodol' ym mis Mai 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn mynd i'r afael ag ystod eang o faterion sy'n ymwneud â chronni buddsoddiadau ac yn cynnwys sawl diwygiad yn ymwneud â thefniadau 'llywodraethu da' y cynllun. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r gofynion yma wedi'i chynnwys ym Mesur Cynlluniau Pensiwn 2025, sy'n mynd trwy'r prosesau seneddol ar hyn o bryd.

### Ymgynghoriad pellach ar y Cynllun

Roedd ymgynghoriad 'Mynediad a Thegwch' y CPLlL yn cynnwys nifer o gynigion i wella mynediad at y CPLlL, a thegwch y cynllun. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau er mwyn cynnwys deilliannau achosion cyfreithiol, gan ddileu gwahaniaethu.

Dyma brif gynigion yr ymgynghoriad:

- Pensiynau Goroeswyr a Grantiau Marwolaeth – gan gynnwys cynigion i fynd i'r afael â materion gwahaniaethu a sicrhau mynediad cyfartal i'r cynllun waeth beth fo rhywedd yr aelod a'u priod neu'r partner sy'n goroesi;
- Bwlch Pensiynau Rhywedd – gan gynnwys cynigion sy'n canolbwyntio ar fynediad menywod at fuddion y cynllun gyda'r nod o fynd i'r afael â'r bwlch pensiynau rhywedd;
- Peidio â Chymryd Rhan – gan gynnwys cynigion ar gyfer casglu data gwell mewn perthynas â faint o unigolion sy'n gymwys ar gyfer y cynllun, sy'n penderfynu dewis peidio â chymryd rhan, a pham; a
- Fforffedu - gan gynnwys cynigion ar gyfer mynd i'r afael â materion o ran rheoliadau sy'n ymwneud â gallu cyflogwyr i adennill colledion ariannol neu ddileu hawliau pensiwn ar gyfer gweithwyr sydd wedi'u heuogfarnu o droseddau sy'n dwyn anfri ar y gwasanaeth cyhoeddus.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 7 Awst 2025, ac yn amodol ar ystyried yr ymatebion, mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i weithredu newidiadau i reoliadau'r CPLlL cyn diwedd y flwyddyn.

### McCloud

Ar 8 Medi 2023, gosododd y Llywodraeth y diwygiadau i reoliadau'r CPLlL sy'n gwneud darpariaeth ôl-weithredol i unioni'r gwahaniaethu anghyfreithlon a nodwyd gan ddyfarniad McCloud ac a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2023.

Fel y diweddarwyd yn flaenorol, mae Carfan y Gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau a Chyflogwyr y Gronfa yn parhau i weithio'n galed i weithredu'r atebion ar draws yr aelodaeth. Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd swyddogion y Gronfa waith i sicrhau bod goblygiadau'r rhwymedi wedi'u hadlewyrchu yn Natganiadau Buddion Blynyddol 2024/25, lle bo'n briodol.

## Newidiadau i Drethi Pensiwn Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi

### Lwfans Oes ('Wedi'i ddisodli')

Rhoddodd y Lwfans Oes derfyn ar y cynilion pensiwn y mae modd i chi eu cronni drwy gydol eich oes sy'n elwa o ostyngiad treth y DU. O 6 Ebrill 2024, diddymwyd y Lwfans a gosodwyd dau gyfandaliad heb gyfyngiadau treth yn ei le.

- Y lwfans cyfandaliad yw £268,275. Mae'n cyfyngu ar faint o arian parod di-dreth y mae modd i chi ei dynnu o'ch pensiwn.
- Y cyfandaliad a'r lwfans budd-dal marwolaeth yw £1,073,100.

Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth a manylion am Ddiogelwch Trosiannol a'r amddiffyniad Lwfans Oes ar wefan Aelodau'r CPLlL
**www.lgpsmember.org/your-pension/the-essentials/tax**

### Lwfans Blynyddol

Ym mis Mawrth 2023, gosododd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau reoliadau i symud y dyddiad ailbrisio blynyddol, sef y dyddiad y cynyddir buddion aelodau gweithredol a gohiriedig yn unol â chwyddiant, o 1 Ebrill i 6 Ebrill. Gwnaethpwyd y newid technegol brys yma i fynd i'r afael ag effaith anfwriadol y chwyddiant uchel o fewn y fethodoleg bresennol o ailbrisio twf pensiwn i benderfynu a aethpwyd y tu hwnt i'r lwfans blynyddol.

O 6 Ebrill 2024, cynyddodd y lwfans blynyddol safonol o £40,000 i £60,000. Y lwfans blynyddol yw'r swm y gall eich cynilion pensiwn gynyddu mewn unrhyw flwyddyn heb fod rhaid i chi dalu treth ychwanegol. Os bydd eich cynilion yn cynyddu'n uwch na'r lwfans blynyddol, bydd yn rhaid i chi dalu treth ar y swm dros ben.

Yn ogystal, newidiodd y ddarpariaeth o ran culhau'r lwfans blynyddol ar 6 Ebrill 2023. O 2023/24, mae twf pensiwn aelod bellach yn cael ei fesur yn erbyn lwfans blynyddol sydd wedi'u gulhau os yw ei incwm Trothwy yn uwch na £200,000, a'i incwm sydd wedi'i Addasu yn uwch na £260,000. Mae isafswm lwfans blynyddol taprog o £10,000.

Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi lansio cyfrifiannell ar-lein er mwyn helpu aelodau i ganfod swm y lwfans blynyddol y maen nhw wedi ei ddefnyddio
**➔ www.tax.service.gov.uk/pension-annual-allowance-calculator**

Bob blwyddyn, mae Carfan Materion Cyfathrebu'r Gronfa yn cyhoeddi llythyr a ffeithlen yn ystod mis Hydref, o fewn chwe mis o ddiwedd y flwyddyn dreth, ar gyfer aelodau unigol sydd wedi cael eu heffeithio gan y Lwfans Blynyddol. Rhaid i unrhyw aelod sy'n mynd dros y lwfans blynyddol mewn blwyddyn roi gwybod i GThEF yn rhan o'ch ffurflen dreth hunanasesiad.

## Treth Etifeddiant

**Cyhoeddodd Trysorlys EF ei ymateb i'r ymgynghoriad ar newidiadau i dreth etifeddiant ym mis Gorffennaf 2025. Yn rhan o Gyllideb yr Hydref 2024, cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd y canlynol ar waith ar gyfer marwolaethau ar ôl 5 Ebrill 2027:**

- bydd y rhan fwyaf o gronfeydd pensiwn nas defnyddiwyd a budd-daliadau marwolaeth yn cael eu cynnwys yng ngwerth ystâd yr unigolyn at ddibenion Treth Etifeddiant; a
- Bydd Gweinyddwyr Cynlluniau Pensiwn yn gyfrifol am adrodd a thalu unrhyw Dreth Etifeddiant sy'n ddyledus ar bensiynau i GThEF.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori lle codwyd pryderon sylweddol gan y diwydiant pensiynau, mae Trysorlys EF wedi diwygio ei gynigion.

Mae'r newidiadau allweddol canlynol wedi'u cynnwys ym Mil Cyllid drafft 2025-26:

- bydd yr holl fuddion marwolaeth mewn gwasanaeth o gynlluniau pensiwn cofrestredig yn cael eu heithrio o werth ystâd unigolyn at ddibenion Treth Etifeddiant, p'un a yw'r cynllun yn ddewisol neu'n annewisol – ar hyn o bryd mae buddion marwolaeth mewn gwasanaeth annewisol wedi'u cynnwys yng ngwerth ystâd unigolyn at ddibenion Treth Etifeddiant;
- Cynrychiolwyr Personol sy'n gyfrifol am adrodd a thalu unrhyw Dreth Etifeddiant sy'n ddyledus ar fuddion pensiwn, nid Gweinyddwyr y Cynllun Pensiwn;
- bydd gan Weinyddwyr y Cynllun Pensiwn ddyletswyddau newydd i gefnogi Cynrychiolwyr Personol i dalu Treth Etifeddiant ar fuddion pensiwn; a
- bydd y Llywodraeth yn cynnig sawl opsiwn talu i gefnogi cynrychiolwyr personol a buddiolwyr a allai gael trafferth talu Treth Etifeddiant ar bensiynau. Mae'r rhain yn cynnwys caniatáu i fuddiolwyr pensiwn gyfarwyddo Gweinyddwyr Cynllun Pensiwn i dalu'r Treth Etifeddiant mewn perthynas â phensiynau ar eu rhan, er y byddai'r buddiolwyr pensiwn yn parhau i fod yn atebol am y Treth Etifeddiant

## Rhyddid o ran Dewis / Sgamiau

**Er nad yw'r rhyddid newydd yn berthnasol i'r CPLlL, mae rhagor o bobl wedi mynegi diddordeb i'r Gronfa yn y posibilrwydd o drosglwyddo buddion i drefniadau Cyfraniad Diffiniedig. Law yn llaw â rhyddid o'r fath, rydyn ni wedi gweld cynnydd cenedlaethol mewn sgamiau trosglwyddo pensiynau.**

### Rhyddhad Pensiwn

Mae rhai cwmnïau yn mynd at aelodau cynllun pensiwn ac yn honni eu bod nhw'n gallu eu helpu i drosglwyddo eu pensiwn yn gynnar, un ai drwy neges destun, hysbysebion ar y rhyngrwyd neu drwy'r post. Yn y rhan fwyaf o achosion does dim modd cael mynediad at eich pensiwn nes eich bod chi'n 55 oed. Os byddwch chi'n defnyddio eich pensiwn yn gynt, efallai y byddwch chi'n agored i daliadau treth uchel. Mae'r cwmnïau yma hefyd yn tueddu codi ffioedd uchel am ddelio â'r trosglwyddiad. Yn gyffredinol nid yw'r bobl sy'n trosglwyddo eu pensiwn yn cael gwybod am y taliadau treth na'r ffi yma.

Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn parhau i weithio at wella'r disgwyliadau diwydrwydd dyladwy sydd ar y Cronfeydd Pensiynau a'r Ymddiriedolwyr o ran ceisiadau trosglwyddo. Gall hyn arwain at y gronfa yn gwrthod y trosglwyddiad. Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a'r Bwrdd Pensiynau wedi cael gwybod am y cyfrifoldebau yma.

**Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi cyhoeddi strategaeth i fynd i'r afael â sgamiau sy'n ymwneud â phensiynau. Bydd yn mynd i'r afael â'r bygythiad gan dwyllwyr drwy:**

- addysgu aelodau'r cynllun am fygythiad sgamiau;
- annog safonau uwch ac atal arferion sy'n niweidiol i'r aelodau; a
- mynd i'r afael â thwyll trwy atal, tarfu a chosbi troseddwyr.

**Mae modd dod o hyd i ganllawiau defnyddiol gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ynghylch sut i osgoi sgamiau pensiwn a rhoi gwybod amdanyn nhw yma:**
**www.thepensionsregulator.gov.uk/cy/pension-scams**

Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn parhau i roi rhybuddion am sgamiau pensiynau ar ei flog, sy'n rhannu gwybodaeth am y dulliau mae'r twyllwyr yn eu defnyddio a chyngor mewn perthynas â'r bygythiad deinamig yma. Mae Cronfa Bensiwn RhCT wedi ymuno â'r ymdrech i fynd i'r afael â sgamiau pensiwn a'r gweithgareddau cysylltiedig

➔ **www.pensiynaurhct.org.uk/cy**

Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg yn rhybuddio y gall yr argyfwng costau byw gynyddu nifer y sgamiau pensiwn. Mae'r rhybudd yma'n dilyn gwaith ymchwil gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol sy'n dangos byddai chwarter o'i ddefnyddwyr yn ystyried tynnu arian o'u pensiwn yn gynt na'r disgwyl er mwyn ymdopi â chostau byw, gan eu gadael nhw'n agored i sgamiau.

➔ **www.fca.org.uk/publication/fca/pensions-scams-leaflet-screen.pdf**

Ym mis Hydref 2024, yn rhan o 'Wythnos Ymwybyddiaeth o Sgamiau 2024', rhyddhawyd fideo newydd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ar y cyd â'r Grŵp Gweithredu Twyll Pensiynau.

➔ **www.thepensionsregulator.gov.uk/cy/pension-scams/pension-scams-video-case-study**



# Atal a Chanfod Twyll

**Mae'r Gronfa Bensiwn yn rhan o'r Fenter Atal Twyll Genedlaethol sy'n canolbwyntio ar atal achosion o dwyll a llwgrwobrwyo. Yn rhan o'r fenter yma, mae asiantaethau cyhoeddus yn cael rhannu'r wybodaeth at ddibenion traws-baru, gan ymchwilio i unrhyw anghysondebau.**

Mae'r gwasanaeth 'dweud unwaith' cenedlaethol a gwasanaethau olrhain marwolaethau wedi'u sefydlu i leihau'r risg o ordaliadau a hawliadau pensiwn twyllodrus posibl. Mae gwasanaeth ardystiad bywyd blynyddol yn ei le ar gyfer pensiynwyr sy'n byw dramor, gan ddefnyddio technoleg adnabod wynebau digidol, ac ategir hyn gan drefniadau dilysu priodol.

Mae'r Gwasanaeth Pensiynau hefyd yn gweithio gyda Charfan Twyll Corfforaethol y Cyngor er mwyn cefnogi'r broses o fynd ar drywydd unrhyw anghysondebau posibl mewn pensiynau ac erlyn lle bo angen.

Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor, yn unol â'i gynllun cyflawni blynyddol, yn cynnal adolygiad annibynnol rheolaidd o amgylchedd rheolaeth fewnol y Gronfa, gan gytuno ar y cwmpas a'r ffocws risg gwirioneddol ym mhob adolygiad. Yn adolygiad diweddaraf y Gronfa Bensiwn yn 2024/25, roedd modd i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol roi 'sicrwydd sylweddol' bod system gadarn o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn bodoli, gyda rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol ac yn cael eu cymhwyso'n gyson i gefnogi cyflawni amcanion.

# Edrych Tuag at y Dyfodol

## Rhaglen Dangosfyrddau Pensiwn y DU

Mae'r Llywodraeth wrthi'n rhoi'r Dangosfyrddau Pensiwn ar waith er mwyn rhoi mynediad digidol i unigolion at eu pensiynau mewn un man diogel ar-lein. Bydd y dangosfyrddau yma'n fuddiol ar gyfer cynllunio ymddeoliad. Bydd y dangosfyrddau'n darparu gwybodaeth syml a chlir ynghylch cynilion unigolion, gan gynnwys pensiwn y wladwriaeth.

Mae'r dyddiad cysylltu ar gyfer Cronfeydd CPLlL wedi'i gadarnhau fel 31 Hydref 2025. Cwblhawyd prosiect 'Parodrwydd Data' a gwaith profi'r Gronfa yn ystod y flwyddyn a chysylltodd y Gronfa'n llwyddiannus â'r amgylchedd 'byw' ym mis Medi 2025. Nid yw dangosfyrddau ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd; bydd y Llywodraeth yn rhoi gwybod am ddyddiad lansio addas maes o law. Bydd y Gronfa yn monitro'r goblygiadau parhaus o ran adnoddau unwaith y bydd y dangosfwrdd cyhoeddus yn cael ei lansio.

➔ **www.pensionsdashboardsprogramme.org.uk**

# Cyhoeddi cyfraddau'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr – Medi 2025

**Ar 22 Hydref 2025, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol mai cyfradd chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer Medi 2025 oedd 3.8%.**

Polisi'r Llywodraeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf fu seilio cynnydd ar gyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ym mis Medi'r flwyddyn flaenorol. Cadarnheir Cynnydd Pensiwn CPLlL yn ffurfiol gan Drysorlys Ei Fawrhydi ym mis Ionawr a'i dalu o ddydd Llun cyntaf pob blwyddyn dreth newydd.

# Cynnydd yn yr Oedran Pensiwn Ieuengaf

**Cyflwynwyd yr oedran pensiwn ieuengaf presennol o 55 oed (yr oedran ieuengaf y mae modd i unigolyn gael mynediad at eu pensiwn gweithle) yn 2010. Yn dilyn newid a gyflwynwyd yn rhan o Ddeddf Cyllid 2022, mae disgwyl i'r oedran pensiwn ieuengaf gynyddu o 56 i 57 ym mis Ebrill 2028.**

Fodd bynnag, gall trefniadau diogelu pensiynau fod yn berthnasol i rai aelodau, gan sicrhau bod modd iddyn nhw gael mynediad at eu pensiynau yn 55 oed o hyd. Bydd angen i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol roi'r newidiadau ar waith yng nghyd-destun rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar neu cyn 6 Ebrill 2028 er mwyn alinio rheolau'r cynllun â'r oedran pensiwn ieuengaf newydd ac unrhyw drefniadau diogelu cysylltiedig.

# Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

**Mae'r Oedran Pensiwn Arferol a nodwyd yn y CPLlL ar gyfer buddion pensiwn a gronnwyd o fis Ebrill 2014, pan gyflwynwyd trefniadau Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio (CARE) y cynllun, yn gysylltiedig ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod.**

Mae'r Oedran Pensiwn Arferol yn cyfeirio at y cyfnod pan fydd modd i aelodau gael mynediad at eu buddion pensiwn adeg ymddeol, heb weithredu addasiad actiwari gan eu bod nhw'n manteisio ar eu pensiwn yn gynnar. Mae disgwyl i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ar gyfer pobl a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1960, gynyddu'n raddol i 67 oed rhwng 2026 a 2028. Mae disgwyl y bydd cynnydd pellach (i 68 oed) yn cael ei gyflwyno rhwng 2044 a 2046. Mae Deddf Pensiynau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth adolygu oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn rheolaidd. Lansiwyd adolygiad pellach ym mis Gorffennaf 2025 i ystyried ffactorau y mae oedran pensiwn yn seiliedig arnyn nhw, gan gynnwys disgwyliad oes.

# Gwybodaeth am Gyflawniad

**Mae canlyniadau'r dangosyddion cyflawniad allweddol a gafodd eu nodi a'u cytuno gan Banel y Gronfa Bensiwn am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2025 wedi'u rhestru yn y tabl isod:**

| CYF. | Dangosyddion Cyflawniad Allweddol Gwaith Achos | 2024/25 | | | | | 2023/24* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Achosion Agored** Ar 31 Mawrth '24 Sefyllfa cychwynnol | **Achosion Newydd** a grëwyd 1 Ebrill '24 - 30 Mawrth '25 | **CYFAN SWM** | **Wedi'u cwblhau** | **%** | **Wedi'u cwblhau** | **%** |
| A1 | **Marwolaethau a gofnodwyd gan aelodau gweithredol, buddiolwyr gohiriedig, pensiynwyr a phobl sy'n ddibynnol** | Dangosydd Cyflawniad Allweddol heb ei fesur hyd ymaa | 805 | **805** | **566** | 70.3 | Dangosydd Cyflawniad Allweddol a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2024 | |
| A2 | **Buddion aelodau dibynnol newydd** | | 237 | **237** | **234** | 98.7 | | |
| A3 | **Ymddeoliadau aelodau gohiriedig** | 201 | 1,630 | **1,831** | **1,629** | 89.0 | | |
| A4 | **Ymddeoliadau aelodau gweithredol** | 168 | 944 | **1112** | **933** | 83.9 | | |
| A5 | **Buddion Gohiriedig** | 930 | 2,482 | **3412** | **1757** | 51.5 | | |
| A6 | **Trefniadau trosglwyddo i'r cynllun,** gan gynnwys trosglwyddo rhwng cronfeydd | 96 | 452 | **548** | **218** | 39.8 | | |
| A7 | **Trosglwyddo i gynllun arall,** gan gynnwys rhwng cronfeydd | 527 | 588 | **1115** | **547** | 49.1 | | |
| A8 | **Ad-daliadau** | 9 | 326 | **335** | **315** | 94.0 | | |
| A9 | **Dyfynbrisiau ysgariad a gyhoeddwyd** | 9 | 241 | **250** | **239** | 95.6 | | |
| A10 | **Nifer gwirioneddol yr ysgariadau** | 2 | 9 | **11** | **5** | 45.5 | | |
| A11 | **Ceisiadau gan aelod o'r cynllun a'r cyflogwr ar gyfer amcangyfrifon o fuddion** | 9 | 707 | **716** | **701** | 97.9 | | |
| A12 | **Hysbysiadau aelodau newydd** | Dangosydd Cyflawniad Allweddol heb ei fesur hyd yma | 4,962 | **4962** | **4,768** | 96.1 | | |
| A13 | **Achosion cydgasglu** | 2,194 | 2,667 | **4861** | **2,064** | 42.5 | | |
| A14 | **Nifer yr aelodau sy'n trosglwyddo i gynllun arall yn dilyn 3 mis o aelodaeth** | Ddim yn destun trefniadau adrodd | | | | | | |

| CYF. | Dangosyddion Cyflawniad Allweddol Gwaith Achos | 2024/25 | | 2023/24* |
|---|---|---|---|---|
| | | **Targed y Gronfa** Diwrnodau | **Wedi'u cwblhau %** | **Wedi'u cwblhau %** |
| B1 | **Anfonwyd neges sy'n cydnabod marwolaeth aelod gweithredol, gohiriedig, pensiynwr ac aelod dibynnol** | 5 | 99.47 | Cyflwynwyd y Dangosyddion Cyflawniad Allweddol yma ym mis Ebrill 2024 |
| B2 | **Anfonwyd neges yn cadarnhau swm pensiwn aelodau dibynnol** | 10 | 97.89 | |
| B3 | **Anfonwyd neges at aelod gohiriedig sy'n nodi opsiynau pensiwn a chyfandaliad (dyfynbris)** | 10 | 99.85 | |
| B4 | **Anfonwyd neges at aelod gweithredol sy'n nodi opsiynau pensiwn a chyfandaliad (dyfynbris)** | 10 | 99.00 | |
| B5 | **Anfonwyd neges at aelod gohiriedig gyda chadarnhad o opsiynau pensiwn a chyfandaliad (gwirioneddol)** | 5 | 96.43 | |
| B6 | **Anfonwyd neges at aelod gweithredol gyda chadarnhad o opsiynau pensiwn a chyfandaliad (gwirioneddol)** | 5 | 98.87 | |
| B7 | **Talu'r Cyfandaliad (i aelodau gweithredol a gohiriedig)** | 5 | 100.00 | |
| B8 | **Anfonwyd neges sy'n nodi opsiynau o ran buddion gohiriedig** | 10 | 99.49 | |
| B9 | **Anfonwyd neges at aelod o'r cynllun sydd wedi cwblhau'r broses o drosglwyddo i'r cynllun** | 10 | 67.48 | |


*Mesur newydd a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2024, nid oes angen adrodd ar y mesur yma yn 2023/24

| CYF. | Dangosyddion Cyflawniad Allweddol Gwaith Achos | 2024/25 Targed y Gronfa Diwrnodau | 2024/25 Wedi'u cwblhau % | 2023/24 Wedi'u cwblhau % |
|---|---|---|---|---|
| B10 | Anfonwyd neges at aelod o'r cynllun sydd wedi cwblhau'r broses o drosglwyddo i gynllun arall | 10 | 88.41 | Cyflwynwyd y Dangosyddion Cyflawniad Allweddol yma ym mis Ebrill 2024 |
| B11 | Talu ad-daliad | 10 | 93.92 | |
| B12 | Dyfynbris ysgariad | 10 | 100.00 | |
| B13 | Anfonwyd neges yn dilyn achos ysgaru gwirioneddol h.y. cymhwyso Gorchymyn Rhannu Pensiwn | 15 | 100.00 | |
| B14 | Anfonwyd neges at ddechreuwyr newydd | 40 | 100.00 | |
| B15.1 | Cyflogwr wedi gofyn am amcangyfrifon yr aelod | 5 | 99.28 | |
| B15.2 | Aelod o'r cynllun wedi gofyn am amcangyfrifon yr aelod | 15 | 100.00 | |

| CYF. | Ymgysylltu â'r Porth Ar-lein | 2025 Ar 31 Mawrth |
|---|---|---|
| C1 | % yr aelodau gweithredol sydd wedi cofrestru | 55.86% |
| C2 | % yr aelodau gohiriedig sydd wedi cofrestru | 44.77% |
| C3 | % yr aelodau sy'n bensiynwyr sydd wedi cofrestru | 36.86% |
| C4 | % yr aelodau cynllun sydd wedi cofrestru ar gyfer y porth hunanwasanaeth | 44.04% |
| C5 | Nifer y defnyddwyr cofrestredig yn ôl oedran | Gweler tabl C5 |
| C6 | % y defnyddwyr cofrestredig sydd wedi mewngofnodi i'r gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf | Dd/B |
| C7 | Cyfanswm nifer y galwadau ffôn a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | 18,942 |
| C8 | Cyfanswm nifer yr e-byst ac ymholiadau ar-lein a dderbyniwyd | 26,130 |
| C9 | Nifer yr achlysuron i aelodau'r cynllun a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn (wyneb yn wyneb ac ar-lein) | 0 |
| C10 | Nifer yr achlysuron ymgysylltu â chyflogwyr a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn (wyneb yn wyneb ac ar-lein) | 4 |
| C11 | Nifer yr aelodau gweithredol a fanteisiodd ar sesiwn un i un (wyneb yn wyneb ac ar-lein) | Dd/B |
| C12 | Nifer y cyfathrebiadau a anfonwyd (h.y. cylchlythyr) at: | |
| a) | Aelodau gweithredol | 1 |
| b) | Aelodau gohiriedig | 1 |
| c) | Pensiynwyr | 1 |

## C5: Nifer y Defnyddwyr Cofrestredig yn ôl oedran

| Ystod Oedran | Wedi ymgysylltu | % | Heb ymgysylltu | % | NIFER YR AELODAU | % | Ystod Oedran | Wedi ymgysylltu | % | Heb ymgysylltu | % | NIFER YR AELODAU | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **0-20** | 107 | 12.7 | 729 | 87.3 | **835** | 0.99 | **56-60** | 6,242 | 65.4 | 3,297 | 34.6 | **9,539** | 11.24 |
| **21-25** | 619 | 27.4 | 1,640 | 72.6 | **2,259** | 2.66 | **61-65** | 5,709 | 66.1 | 2,928 | 33.9 | **8,637** | 10.18 |
| **26-30** | 1,477 | 36.8 | 2,536 | 63.2 | **4,013** | 4.73 | **66-70** | 3,285 | 52.9 | 2,920 | 47.1 | **6,205** | 7.31 |
| **31-35** | 2,556 | 39.4 | 3,925 | 60.6 | **6,481** | 7.64 | **71-75** | 1,262 | 27.2 | 3,386 | 72.8 | **4,648** | 5.48 |
| **36-40** | 3,427 | 42.6 | 4,611 | 57.4 | **8,038** | 9.47 | **76-80** | 540 | 14.1 | 3,296 | 85.9 | **3,836** | 4.52 |
| **41-45** | 4,006 | 46.7 | 4,573 | 53.3 | **8,578** | 10.11 | **81-85** | 173 | 7.8 | 2,057 | 92.2 | **2,230** | 2.63 |
| **46-50** | 3,924 | 49.5 | 4,007 | 50.5 | **7,931** | 9.35 | **86-90** | 73 | 5.7 | 1,204 | 94.3 | **1,277** | 1.51 |
| **51-55** | 5,465 | 56.3 | 4,235 | 43.7 | **9,699** | 11.43 | **Dros 90** | 22 | 3.5 | 610 | 96.5 | **632** | 0.75 |
| | | | | | | | | | | | **CYFANSWM YR AELODAU** | **84,841** | 100 |



| CYF. | Adnoddau | 2025<br>Ar 31 Mawrth |
|---|---|---|
| D1 | Cyfanswm nifer yr holl staff gweinyddol (Amser Llawn) | 28.2 |
| D2 | Hyd gwasanaeth cyfartalog yr holl staff gweinyddol | 12.04 o flynyddoedd |
| D3 | Cyfradd y swyddi gwag ar ffurf % | 9.38% |
| D4 | Cymhareb staff gweinyddol i gyfanswm nifer aelodau'r cynllun (yr holl staff gan gynnwys y rheolwyr) | 1:6707 |
| D5 | Cymhareb staff gweinyddol (ac eithrio rheolwyr) i gyfanswm nifer aelodau'r cynllun | 1:8792 |

| CYF. | Datganiadau Buddion Blynyddol | Ar 31 Mawrth |
|---|---|---|
| E1 | Canran y datganiadau buddion blynyddol a gyhoeddwyd ar 31 Awst | 100% |
| | Esboniad byr os yw'n llai na 100% | |
| E2 | Sgôr data cyffredin | 97% |
| E4 | Sgôr data sy'n benodol i'r cynllun | 98% |
| E5 | Canran yr aelodau a gofnodwyd fel rhai 'wedi mynd i ffwrdd' heb gyfeiriad cartref, neu lle gwyddys nad yw'r cyfeiriad yn gywir erbyn hyn | |
| a) | Aelodau gweithredol | 0.40% |
| b) | Aelodau gohiriedig | 10.12% |
| c) | Pensiynwyr | 0.77% |
| E6 | Canran yr aelodau sydd wedi darparu cyfeiriad e-bost | |
| a) | Aelodau gweithredol | 86.27% |
| b) | Aelodau gohiriedig | 61.16% |
| c) | Pensiynwyr | 53.19% |
| E7 | Canran y cyflogwyr sydd wedi'u sefydlu i gyflwyno data bob mis | 98.57% |
| E8 | Canran y cyflogwyr a gyflwynodd ddata misol ar amser yn ystod y flwyddyn adrodd | 69.76% |

## Safonau'r Gwasanaeth

**Mae llawer o gyflogwyr y Gronfa wedi gwneud rhywfaint o resymoli ac ailstrwythuro mewnol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi cynyddu ein llwyth gwaith ar gyfer cyfrifo costau ymddeol cynnar i gyflogwyr, ynghyd ag enghreifftiau a phecynnau ymddeol i aelodau.**

Mae darparu'r wybodaeth gymhleth yma mewn modd amserol a chywir wedi bod yn heriol ond rydyn ni wedi bodloni'r galw heb i safonau ein cyflawniad cyhoeddedig lithro, a heb achosi anfantais i waith blaenoriaeth arall.

Mae hyn wedi cael ei gyflawni trwy ailddyrannu a thargedu adnoddau yn unol â'n hamcanion

## Anghydfodau

**Yn unol â deddfwriaeth, mae gan y Gronfa Bensiwn Weithdrefn Datrys Anghydfodau yn Fewnol sy'n ymdrin â chwynion ffurfiol yn erbyn y Cynllun**


Derbyniwyd 3 chwyn o dan y weithdrefn hon yn ystod 2024/25.

| Nifer y Cyflogwyr | Gweithredol | Ddim yn weithredol bellach | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Corff Cofrestredig | 36 | 23 | 59 |
| Corff Derbyniedig | 34 | 14 | 48 |
| **CYFANSWM** | **70** | **37** | **107** |


# Nifer yr Aelodau

**Mae manylion aelodaeth y Gronfa ar 31 Mawrth fel a ganlyn:**


## Nifer yr aelodau sy'n cyfrannu





## Nifer y Buddiolwyr Gohiriedig




## Nifer y Pensiynwyr a'r Bobl sy'n Ddibynnol




## Nifer yr alldyniadau heb eu penderfynu



| Tueddiadau Aelodaeth | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | % Cynnydd/ Gostyngiad ers 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogwyr Gweithredol | 51 | 52 | 54 | 59 | 70 | 18.64% |
| Cyfranwyr | 23,931 | 24,121 | 24,027 | 25,349 | 25,395 | 0.18% |
| Pensiynwyr | 17,728 | 18,220 | 18,860 | 19,640 | 20,656 | 5.17% |
| Pobl sy'n ddibynnol | 2,786 | 2,899 | 3,018 | 3,147 | 3,209 | 1.97% |
| Buddiolwyr Gohiriedig | 28,868 | 28,921 | 30,702 | 31,943 | 31,447 | -1.55% |

| Cost y Gronfa i bob aelod | Cost fesul aelod | |
|---|---|---|
| | 2023/24 | 2024/25 |
| Costau Gweinyddu | £32.25 | £32.99 |
| Treuliau Rheoli'r Buddsoddiadau | £138.48 | £208.41 |
| Costau Goruchwylio a Llywodraethu | £4.92 | £6.62 |
| **CYFANSWM** | **£175.65** | **£248.02** |

**Ar hyn o bryd, mae'r Gronfa Bensiwn yn cyflogi:**

- 28.2 aelod o staff gweinyddol llawn amser
- 2 aelod yn adran buddsoddiadau a chyfrifon y Gronfa Bensiwn.

## Dadansoddiad o'r Aelodaeth

| Ymadawyr o statws gweithredol | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|
| Ad-dalu cyfraniadau | 272 | 257 | 135 |
| Trosglwyddo cyfraniadau i gynlluniau eraill | 0 | 0 | 0 |
| Marw yn ystod gwasanaeth | 27 | 32 | 27 |
| Ymddeol yn sgil salwch | 70 | 76 | 64 |
| Ymddeoliad cynnar/arferol | 313 | 363 | 297 |
| Ymddeoliadau yn sgil dileu swyddi /ystyriaethau effeithlonrwydd | 68 | 533 | 230 |
| Ymddeoliadau hyblyg | 28 | 47 | 40 |
| Ymddeoliad hwyr | 139 | 193 | 177 |
| Optio Allan | 132 | 131 | 92 |
| Buddion diogel | 2,929 | 1,435 | 1392 |
| Ymadawyr Eraill | 415 | 533 | 476 |
| **CYFANSWM** | **4,393** | **3,600** | **2,930** |

| Buddion Gohiriedig - rhai sy'n gadael y Cynllun | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|
| Trosglwyddo i gynlluniau eraill | 848 | 363 | 335 |
| Marw yn ystod gwasanaeth | 21 | 49 | 47 |
| Ymddeol yn sgîl salwch | 11 | 13 | 10 |
| Ymddeoliad cynnar/arferol | 631 | 612 | 571 |
| Buddion eraill | 66 | 91 | 91 |
| Nifer yr aelodau gohiriedig sydd wedi ailymuno â'r Cynllun | 27 | 15 | 71 |
| **CYFANSWM** | **1,034** | **1,143** | **1,125** |

**Blaen Gyfrifydd, Materion Rheoli'r Trysorlys a'r Gronfa Bensiwn**
Yvonne Keitch



# Adroddiad ar **Faterion Buddsoddi**

## Cyflwyniad

**Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwerth buddsoddiadau Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf oedd £4,711.8 miliwn. Erbyn 31 Mawrth 2025 roedd gwerth y Gronfa wedi cynyddu i £4,782.8 miliwn.**

Cyflawnodd Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf elw blynyddol gwerth 2.0% yn 2024/25. Ar y cyfan, dechreuodd y momentwm cadarnhaol a welwyd ar ddechrau'r flwyddyn arafu yn ail hanner y cyfnod 12 mis, a hynny o ganlyniad i ansicrwydd. Ychwanegodd bygythiadau o ran tariffau a gwendid economaidd bryderon ynghylch y rhagolygon economaidd byd-eang. Mae enillion hwy Cronfa Bensiwn RhCT yn rhagori ar y meincnod ar gyfer 10, 20 a 30 mlynedd, gan eu gosod yn yr 12fed canradd dros 10 mlynedd, y 6ed canradd dros 20 mlynedd a'r 22ain canradd dros 30 mlynedd o Fydysawd Ystadegol Cronfa Awdurdodau Lleol Blynyddol PRIC.

## Rheoli Buddsoddi

**Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yn gyfrifol am drefnau gwaith rheoli strategol Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn unol â'i gylch gorchwyl.**

Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Adnoddau Corfforaethol (ac yntau'n Swyddog Adran 151) a gaiff ei gefnogi gan Banel ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa, wedi dirprwyo cyfrifoldeb am yr holl faterion gweithredol o ddydd i ddydd.

Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen Cyngor Rhondda Cynon Taf yw Cadeirydd y Panel ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn, ac mae'r aelodau'n cynnwys dau ymgynghorydd annibynnol ac uwch swyddogion cyllid eraill.

Bydd y panel yn cwrdd bob 3 mis i ystyried materion gweinyddu a buddsoddi ac i bennu polisi yn ôl sefyllfa'r farchnad ac i holi a herio'r Rheolwyr Materion Buddsoddiadau am eu cyflawniad.

Ar hyn o bryd mae 12 mandad buddsoddi unigol:

- Ecwiti Traddodiadol Baillie Gifford
- Ecwiti Global Opportunities High Alpha (PPC)
- Cronfa Credyd Sterling (PCC)
- Seilwaith Effaith Lleol (PPC)
- Mandadau goddefol BlackRock yn cwmpasu Ecwiti Carbon Isel a Giltiau Goddefol y DU
- BlackRock Global Infrastructure Solutions 5
- Ecwiti Global Growth High Alpha (Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC))
- Ecwiti Cynaliadwy (PPC)
- Isadeiledd Pen Caeedig (PPC)
- CBRE Property
- BlackRock Global Infrastructure Solutions 4
- BlackRock Renewable Infrastructure IV

## Cyflawniad Buddsoddi

Mae'r tabl isod yn dangos cyflawniad, ar lefel dosbarth asedau, dros gyfnodau hanesyddol a fesurwyd hyd at 31 Mawrth 2025.

| | 1 Flwyddyn | | 3 Blynedd | | 5 Mlynedd | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Meincnod % | Cronfa % | Meincnod % | Cronfa % | Meincnod % | Cronfa % |
| Ecwitïau | 5.3 | 2.0 | 4.5 | 5.3 | 13.8 | 11.9 |
| Cyfanswm y Bondiau | 0.8 | 1.0 | -3.2 | -2.8 | -2.8 | -2.2 |
| Eiddo | 7.2 | 5.8 | 9.9 | -1.5 | 9.4 | 1.6 |
| Isadeiledd | 1.7 | 1.7 | 7.9 | 7.9 | - | - |
| Arian parod | 5.1 | 6.3 | 4.1 | 6.0 | 2.4 | 3.6 |
| **CYFANSWM YR ASEDAU** | **4.3** | **2.0** | **4.8** | **2.2** | **8.6** | **7.5** |

# Dyrannu Asedau a Chyflawniad

**Mae'r tabl isod yn dangos y dyraniad asedau a chyflawniad y dyraniadau asedau yma yn erbyn eu meincnodau priodol ar gyfer y flwyddyn 2024/25.**

| | Gwerth Agoriadol | | Gwerth wrth Gau | | Cyflawniad Net (blwyddyn) | Meincnod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | % | £'000 | % | % | % |
| **Ecwitïau** | 444,003 | 9.4 | 382,400 | 8.0 | 0.6 | 6.6 |
| **Buddsoddiadau wedi'u cyfuno** | | | | | | |
| Ecwitïau Twf Byd-eang | 1,763,568 | 37.4 | 1,752,556 | 36.6 | 0.9 | 4.9 |
| Ecwitïau Cyfleoedd Byd-eang | 487,186 | 10.3 | 507,679 | 10.6 | 6.0 | 4.9 |
| Ecwiti cynaliadwy | 113,382 | 2.4 | 113,894 | 2.4 | 0.2 | 4.9 |
| Credyd y DU | 707,830 | 15.0 | 726,573 | 15.2 | 2.6 | 2.5 |
| Isadeiledd (pen caeedig) | 16,897 | 0.4 | 36,218 | 0.8 | 3.5 | 3.5 |
| Buddsoddiadau lleol | 2,918 | 0.1 | 4,393 | 0.1 | 4.8 | 4.8 |
| **Buddsoddiadau eraill wedi'u cyfuno** | | | | | | |
| Giltiau Goddefol y DU | 539,630 | 11.5 | 533,740 | 11.2 | -1.1 | -1.2 |
| Ecwitïau Goddefol | 278,382 | 5.9 | 290,592 | 6.1 | 4.3 | 4.6 |
| Buddsoddiadau wedi'u cyfuno – eiddo | 288,102 | 6.1 | 298,387 | 6.2 | 5.8 | 7.2 |
| Isadeiledd | 38,507 | 0.8 | 96,776 | 2.0 | 7.1 | 7.1 |
| **Arian parod** | **31,444** | **0.7** | **39,556** | **0.8** | **6.3** | **5.1** |
| **CYFANSWM YR ASEDAU** | **4,711,849** | **100** | **4,782,764** | **100** | **2.0** | **4.3** |



# Dyraniad Asedau wedi'u cronni a heb eu cronni

**Mae'r tabl isod yn dangos dyraniad asedau'r Gronfa sydd wedi'u cronni ac sydd heb eu cronni yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer 2024/25.**

| | Gwerth Agoriadol | | Gwerth wrth Gau | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | % | £'000 | % |
| **Asedau a fuddsoddwyd drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru** | | | | |
| Ecwitïau Twf Byd-eang | 1,763,568 | 37.4 | 1,752,556 | 36.6 |
| Ecwiti Cyfleoedd Fyd-eang | 487,186 | 10.3 | 507,679 | 10.6 |
| Ecwiti cynaliadwy | 113,382 | 2.4 | 113,894 | 2.4 |
| Credyd y DU | 707,830 | 15.0 | 726,573 | 15.2 |
| Isadeiledd (pen caeedig) | 16,897 | 0.4 | 36,218 | 0.8 |
| Buddsoddiadau lleol | 2,918 | 0.1 | 4,393 | 0.1 |
| **Asedau y tu allan i drefniant cronni** | | | | |
| Ecwitïau | 444,003 | 9.4 | 382,400 | 8.0 |
| **Asedau eraill wedi'u cronni** | | | | |
| Giltiau Goddefol y DU | 539,630 | 11.5 | 533,740 | 11.2 |
| Ecwitïau Goddefol | 278,382 | 5.9 | 290,592 | 6.1 |
| Buddsoddiadau wedi'u cyfuno – eiddo | 288,102 | 6.1 | 298,387 | 6.2 |
| Isadeiledd | 38,507 | 0.8 | 96,776 | 2.0 |
| **Arian parod** | **31,444** | **0.7** | **39,556** | **0.8** |
| **CYFANSWM YR ASEDAU** | **4,711,849** | **100** | **4,782,764** | **100** |

# Dyrannu Asedau rhwng y DU ac Asedau eraill

**Mae'r tabl isod yn dangos y dyraniad o asedau'r Gronfa rhwng buddsoddiadau yn y DU a buddsoddiadau eraill ar gyfer y flwyddyn 2024/25.**

| | Gwerth Agoriadol | | Gwerth wrth Gau | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | % | £'000 | % |
| **Y DU** | | | | |
| Ecwitïau | 162,518 | 3.4 | 143,119 | 3.0 |
| Giltiau Goddefol | 539,630 | 11.5 | 533,740 | 11.2 |
| **Arall** | | | | |
| Heb ei gronni | 281,485 | 6.0 | 239,281 | 5.0 |
| **Cronfa Buddsoddiadau** | | | | |
| Ecwitïau Twf Byd-eang | 1,763,568 | 37.4 | 1,752,556 | 36.6 |
| Ecwitïau Cyfleoedd Byd-eang | 487,186 | 10.3 | 507,679 | 10.6 |
| Ecwitïau Cynaliadwy | 113,382 | 2.4 | 113,894 | 2.4 |
| Credyd y DU | 707,830 | 15.0 | 726,573 | 15.2 |
| Isadeiledd (pen caeedig) | 16,897 | 0.4 | 36,218 | 0.8 |
| Buddsoddiadau lleol | 2,918 | 0.1 | 4,393 | 0.1 |
| **Asedau eraill wedi'u cronni** | | | | |
| Ecwitiau goddefol | 278,382 | 5.9 | 290,592 | 6.1 |
| Buddsoddiadau wedi'u cronni – eiddo | 288,102 | 6.1 | 298,387 | 6.2 |
| Isadeiledd | 38,507 | 0.8 | 96,776 | 2.0 |
| **Arian parod** | **31,444** | **0.7** | **39,556** | **0.8** |
| **CYFANSWM YR ASEDAU** | **4,711,849** | **100** | **4,782,764** | **100** |

# Manylion Rheolwyr y Gronfa

**Mae manylion gwerth marchnad buddsoddiadau Rheolwyr y Gronfa i'w gweld yn y tabl canlynol:**

| | Gwerth y Farchnad | | Cyfran y Gronfa | |
|---|---|---|---|---|
| | 31/03/2024 | 31/03/2025 | 31/03/2024 | 31/03/2025 |
| | £'000 | £'000 | % | % |
| Baillie Gifford (Ecwitïau) | 446,592 | 386,345 | 9.5 | 8.1 |
| BlackRock (Ecwitïau Goddefol) | 278,382 | 290,593 | 5.9 | 6.1 |
| BlackRock (Bondiau goddefol) | 539,631 | 533,740 | 11.5 | 11.2 |
| BlackRock GIS4 (Isadeiledd) | 38,507 | 47,025 | 0.8 | 1.0 |
| BlackRock GIS5 (Isadeiledd) | 0 | 22,956 | 0.0 | 0.5 |
| BlackRock Global Renewable fund IV (Isadeiledd) | 0 | 26,795 | 0.0 | 0.6 |
| CBRE (Eiddo) | 289,990 | 307,478 | 6.2 | 6.4 |
| Waystone (Twf Byd-eang) | 1,763,568 | 1,752,556 | 37.3 | 36.4 |
| Waystone (Cyfleoedd Byd-eang) | 487,186 | 507,679 | 10.3 | 10.6 |
| Waystone (Ecwiti cynaliadwy) | 113,382 | 113,894 | 2.4 | 2.4 |
| Waystone (Credyd y DU) | 707,830 | 726,573 | 15.0 | 15.2 |
| GCM Grosvenor (Isadeiledd (pen caeedig)) | 16,897 | 36,218 | 0.4 | 0.8 |
| Capital Dynamics (Isadeiledd Buddsoddi Lleol) | 2,918 | 4,393 | 0.1 | 0.1 |
| Rheoli Mewnol | 26,966 | 26,519 | 0.6 | 0.6 |
| **CYFANSWM YR ASEDAU** | **4,711,849** | **4,782,764** | **100.0** | **100.0** |

Doedd dim buddsoddiad unigol yn gyfrifol am fwy na 5% o asedau'r gronfa.

Mae gwerth marchnad y buddsoddiadau yn y tabl yma'n cynnwys buddsoddiadau tymor byr fel gweddill arian neu adneuon arian.

Rydyn ni'n ceisio mynd i'r afael ag elfennau o risg buddsoddiadau trwy gyflogi nifer o reolwyr y gronfa mewn ymgais i reoli risg rheolwyr, a gyda mandadau sy'n cynnwys ystod o asedau gan gynnwys ecwitïau, bondiau ac eiddo. Mae disgwyl i reolwyr gynnal casgliad eang o gyfrifon buddsoddi a chydymffurfio â rheoliadau buddsoddi Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau ychwanegol sy'n rhan o'u mandadau. Mae'r sector gwladol a diwydiant yn amrywio buddsoddiadau gwaelodol ymhellach.

Caiff cyflawniad pob rheolwr ei fesur bob chwarter yn erbyn targed sydd wedi'i ddynodi yn erbyn meincnod penodol. Yn ei hanfod, mae hyn yn rhwystro rheolwyr rhag symud i ffwrdd yn rhy bell oddi wrth y nod, ond yn caniatáu peth hyblygrwydd i chwyddo elw ar fuddsoddiadau ar yr un pryd.

# Elw a Cholled y Buddsoddiadau

| | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Elw ar werthiannau | 87,134 | 35,857 |
| Colled ar werthiannau | (56,322) | (23,712) |
| **Elw net / (colled) ar werthiannau** | **30,812** | **12,145** |
| Newid yng ngwerth y farchnad | 369,803 | 18,184 |
| **Cynnydd net / (gostyngiad) mewn gwerth** | **400,615** | **30,329** |

# Trefnau Gwarchod

**Mae Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf wedi penodi State Street i weithredu'n geidwad cyfranddaliadau'r gronfa bensiwn.**

Delir cyfranddaliadau i orchymyn y gwarchodwr, er budd Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf. Mae cwmni State Street yn cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ac Awdurdod Rheoleiddio Prudential.

Mae Waystone, gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi penodi Northern Trust i weithredu fel ceidwad ar gyfer cyfranddaliadau sy'n cael eu cadw yn is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.

# Costau Rheolwyr y Gronfa ac Ymgynghorwyr

**Codir ffioedd rheolwr cronfa ar raddfa sy'n lleihau yn seiliedig ar werth marchnad y gronfa.**

Yn ogystal â ffioedd rheolwyr cronfa, mae costau anuniongyrchol buddsoddiadau ym Mhartneriaeth Pensiwn Cymru yn cael eu hadlewyrchu yng ngwerth ased net yr unedau cyfun.

Mae ymgynghorwyr y gronfa'n derbyn tâl sefydlog bob blwyddyn am eu gwasanaethau ac am fynd i gyfarfodydd bob tri mis. Mae costau ychwanegol i'w talu yn achos cyfarfodydd arbennig eraill.

# Cyfranddaliadaeth Fwyaf

**Y deg daliad mwyaf ar gyfer rheolwr y gronfa ecwitïau sef Baillie Gifford ar 31 Mawrth 2025 yw:**

| Cyfran | £ |
|---:|---:|
| Ashtead | 6,842,432 |
| RELX | 6,034,326 |
| Marks & Spencer | 5,853,254 |
| Standard Chartered | 5,769,528 |
| Unilever | 5,693,995 |
| Rio Tinto | 5,282,868 |
| Legal & General | 5,229,145 |
| Prudential | 5,116,696 |
| Bunzl | 5,029,150 |
| Just Group | 4,994,978 |

# **Partneriaeth Pensiwn Cymru** (PPC)

**Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2017 gyda'r nod o gyflawni:**

- **darbodion maint**
- **dull cadarn o lywodraethu a gwneud penderfyniadau**
- **costau is a gwerth am arian**
- **gwell gallu i fuddsoddi mewn seilwaith**

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn un o'r wyth cronfa bensiwn llywodraeth leol yn genedlaethol ac mae'n gydweithrediad o'r wyth cronfa CPLlL yng Nghymru sef Caerdydd a Bro Morgannwg, Clwyd, Dyfed, Gwent (Torfaen), Gwynedd, Powys, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Mae gan yr wyth cronfa hanes hir, llwyddiannus o gydweithio sy'n cynnwys tendr cydweithredol ar gyfer darparwr ecwiti goddefol sengl ar gyfer cronfeydd Cymru cyn menter gyfuno'r Llywodraeth.


Mae rheoli buddsoddiad ar y cyd yn cynnig y potensial ar gyfer arbedion ffioedd buddsoddi, cyfleoedd i ehangu portffolios buddsoddi, gwell brosesau pleidleisio ac ymgysylltu ynghyd â mynediad at wybodaeth ac arfer gorau a rennir. Er bod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gyfrifol am fuddsoddi ar y cyd, mae pob awdurdod cyfansoddol yn parhau i fod yn gyfrifol am bennu ei strategaeth fuddsoddi ei hun.

Mae model gweithredu Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i lunio i fod yn hyblyg a sicrhau gwerth am arian. Penododd Partneriaeth Pensiwn Cymru weithredydd cronfa allanol ac mae'n defnyddio ymgynghorwyr allanol i ddod â'r arbenigedd gorau i helpu i redeg y gronfa. Y gweithredwr yw Waystone Management (UK) Limited (Waystone) ac maen nhw wedi partneru â Russell Investments i reoli'r buddsoddiadau mewn modd effeithiol a sicrhau cyflawniad cadarn ar ôl didynnu ffioedd rheolwyr i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol.

## Llywodraethu

**Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn manylu ar sut mae'n ymdrin â phob agwedd ar lywodraethu trwy ei Gytundeb Rhyng-awdurdod (CRhA) a gymeradwywyd gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ym mis Mawrth 2017.**

Mae'r CRhA yn diffinio safonau, swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ei aelodau, pwyllgorau a swyddogion ac mae'n cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses benderfynu. Yn unol â'i gred y dylai llywodraethu da arwain at ganlyniadau gwell i randdeiliaid, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi sefydlu strwythur llywodraethu cadarn:



## Wyth Awdurdod Cyfansoddol Partneriaeth Pensiwn Cymru yw:

1. Cronfa Bensiwn Dyfed (Awdurdod Lletyol)
2. Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe
3. Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
4. Cronfa Bensiynau Clwyd
5. Cronfa Bensiwn Gwynedd
6. Cronfa Bensiwn Powys
7. Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf
8. Cynllun Pensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

**Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol ar frig strwythur llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru. Nhw sy'n cadw rheolaeth ar holl ymgymeriadau Partneriaeth Pensiwn Cymru ac yn gyfrifol am gymeradwyo Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru, sy'n amlinellu cyllideb a chynllun gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn ogystal â'i chredoau a'i hamcanion.**

Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn goruchwylio Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ac yn paratoi adroddiadau. Mae'n cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol a chynrychiolydd aelodau cynllun cyfetholedig (di-bleidlais).

Mae'r Gweithgor Swyddogion yn rhoi cymorth a chyngor i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ac mae'n cynnwys gweithwyr proffesiynol a swyddogion Adran 151 o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Cyngor Sir Gâr yw'r Awdurdod Lletyol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ac mae'n gyfrifol am ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion, a chysylltu o ddydd i ddydd â'r gweithredwr ar ran holl gronfeydd CPLlL Cymru.

Mae Waystone (Gweithredwr) yn cynnal ystod eang o wasanaethau ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, sy'n cynnwys hwyluso cyfryngau buddsoddi ac is-gronfeydd, adrodd ar gyflawniad, gweithredu trosglwyddiadau a monitro rheolwyr a thrafodaethau ffioedd. Mae Cytundeb Gweithredwr ar waith sy'n pennu dyletswyddau cytundebol y Gweithredwr ac yn llywodraethu'r berthynas rhwng y Gweithredwr a Phartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion, gyda chymorth Hymans Robertson, yn goruchwylio'r gwaith y mae Waystone yn ei wneud ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Waystone yn ymgysylltu â'r awdurdodau perthnasol drwy:

- **Ymgysylltiad uniongyrchol:**
  **mynychu cyfarfodydd pwyllgor blynyddol**
- **Ymgysylltiad anuniongyrchol**
  **gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol ar y cyd, trwy'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion**

Mewn cydweithrediad â Waystone, mae Russell Investments yn darparu gwasanaethau rheoli buddsoddi i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ac mae'n gweithio mewn ymgynghoriad ag wyth Awdurdod Cyfansoddol Partneriaeth Pensiwn Cymru i sefydlu cyfryngau buddsoddi.

Northern Trust yw'r Storfa ar gyfer cyfrwng Cynllun Contractiol Awdurdodedig Partneriaeth Pensiwn Cymru ac mae'n darparu nifer o wasanaethau gan gynnwys benthyca gwariannau, gweinyddu cronfeydd, monitro cydymffurfiaeth a llunio adroddiadau.


Hymans Robertson yw Ymgynghorydd Goruchwylio Partneriaeth Pensiwn Cymru ac mae ei swyddogaeth yn cynnwys goruchwyliaeth a chyngor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau gweithredwyr, agweddau buddsoddi strategol a chymorth rheoli prosiect.

Burges Salmon yw ymgynghorwyr cyfreithiol Partneriaeth Pensiwn Cymru ac mae'n darparu cyngor cyfreithiol mewn perthynas â chronfeydd rheoledig yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, trefniadau treth a llywodraethu, gan gynnwys cynorthwyo ynglŷn â phrosesau caffael cymhleth.

Penodwyd Robeco UK yn ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru ac mae'n gyfrifol am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio Partneriaeth Pensiwn Cymru ac ymgymryd â gwaith ymgysylltu ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru.

**Credoau Partneriaeth Pensiwn Cymru yw'r sylfaen ar gyfer fframwaith llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru ac fe'u defnyddiwyd i lywio holl weithrediadau a phenderfyniadau Partneriaeth Pensiwn Cymru, gan gynnwys ei hamcanion a'i pholisïau.**

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, wedi paratoi set o bolisïau llywodraethu. Ymhob achos, datblygwyd polisïau a gweithdrefnau Partneriaeth Pensiwn Cymru i ategu gweithdrefnau a pholisïau presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Rhestrir polisïau, cofrestrau a chynlluniau allweddol Partneriaeth Pensiwn Cymru isod ac maen nhw i'w gweld ar wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru.




Mae Buddsoddi Cyfrifol wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ers ei sefydlu yn 2017. Ymgymerwyd â nifer o weithrediadau i weithio tuag at uchelgais Partneriaeth Pensiwn Cymru o ddod yn arweinydd mewn Buddsoddi Cyfrifol. I ddechrau, canolbwyntiwyd ar lunio Polisi Buddsoddi Cyfrifol ac ers hynny mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi llunio ei Pholisi Risg Hinsawdd ei hun ac wedi gweithio gyda'i Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, Robeco, i gytuno ar Bolisi Pleidleisio. Mae Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i sefydlu i gymryd perchnogaeth o ffrydiau gwaith sy'n gysylltiedig â Buddsoddi Cyfrifol a'r camau sy'n ofynnol i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed ym Mholisïau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Mae modd gweld Cynllun Busnes, Llawlyfr Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r holl bolisïau eraill y manylir arnyn nhw yn y siart uchod ar wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru:
**www.partneriaethpensiwncymru.org**

## Risg

**Mae rheoli risg yn elfen hanfodol o ymrwymiad Partneriaeth Pensiwn Cymru i lywodraethu da. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi datblygu strategaeth risg strwythuredig, helaeth a chadarn sy'n ceisio nodi a mesur risgiau allweddol a sicrhau bod rheolaethau a gweithdrefnau llywodraethu addas ar waith i reoli'r risgiau yma.**

Mae Polisi Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i ddatblygu yn y fath fodd fel y bydd hi'n bosibl rhagweld risgiau ac ymdrin â nhw mewn modd cyflym ac effeithiol i leihau colled neu niwed posibl i Bartneriaeth Pensiwn Cymru a'i randdeiliaid.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnal Cofrestr Risg sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Is-grŵp Risg pwrpasol sy'n rhoi adborth i'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu bob chwarter.

## Hyfforddiant

**Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru ei bolisi hyfforddi ei hun ac mae'n datblygu cynllun hyfforddiant blynyddol sydd wedi'i lunio i ategu cynlluniau hyfforddiant presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol.**

Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn parhau i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi ar lefel leol tra bydd cynllun hyfforddiant Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithrediadau cronni Partneriaeth Pensiwn Cymru. Darperir hyfforddiant sefydlu hefyd i holl aelodau newydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

# Cynnydd cyfuno hyd yn hyn

**Nod Partneriaeth Pensiwn Cymru yw buddsoddi mewn modd sy'n caniatáu i'r Awdurdodau Cyfansoddol weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain gydag arbedion cost sylweddol wrth barhau i wneud elw i'w rhanddeiliaid.**

Mae PPC wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r amcan yma, o lansio'r tair is-gronfa ecwiti gweithredol gyntaf yn 2019 hyd at lansio'r rhaglenni Buddsoddi Marchnadoedd Preifat cychwynnol yn 2023. Ochr yn ochr â buddsoddiadau goddefol presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol, mae hyn yn golygu bod PPC bellach wedi cronni 75% o asedau.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru asedau gwerth £25.8 biliwn, y mae £19.4 biliwn ohono yn y gronfa. Gweler y dadansoddiad isod:

| Dosbarthiad yr Ased | Rheolir gan | Dyddiad Lansio | 31 Mawrth 2025 £'000 | % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Ecwiti Twf Byd-eang | Russell Investments | Chwefror 2019 | 3,541,082 | 13.7 |
| Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang | Russell Investments | Chwefror 2019 | 3,402,307 | 13.2 |
| Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU | Russell Investments | Medi 2019 | 765,495 | 3.0 |
| Cronfa Ecwiti Marchnadoedd sy'n Dod i'r Amlwg | Russell Investments | Hydref 2021 | 272,996 | 1.0 |
| Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy | Russell Investments | Mehefin 2023 | 1,524,322 | 5.9 |
| Cronfa Credyd Byd-eang | Russell Investments | Gorffennaf 2020 | 1,026,469 | 4.0 |
| Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang | Russell Investments | Gorffennaf 2020 | 503,406 | 2.0 |
| Cronfa Credyd y DU | Waystone Management (UK) Ltd | Gorffennaf 2020 | 726,549 | 2.8 |
| Cronfa Credyd Aml-ased | Russell Investments | Gorffennaf 2020 | 848,802 | 3.3 |
| Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt | Russell Investments | Medi 2020 | 532,806 | 2.1 |
| Isadeiledd | GCM Grosvenor, IFM, CBRE and Octopus | Mawrth 2023 | 726,427 | 2.8 |
| Credyd Preifat | Russell Investments | Ebrill 2023 | 320,921 | 1.2 |
| Ecwiti Preifat | Schroders Capital | Hydref 2023 | 124,883 | 0.5 |
| Buddsoddiadau Goddefol | BlackRock | Mawrth 2016 | 5,065,251 | 19.6 |
| **Buddsoddiadau heb eu cyfuno eto** | | | **6,424,700** | **24.9** |
| **CYFANSWM Y BUDDSODDIADAU AR DRAWS POB UN O'R 8 CRONFA BENSIWN** | | | **25,806,416** | **100** |

# Costau Cyfuno

**Cyngor Sir Gâr yw'r Awdurdod Cynnal ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ac mae'n gyfrifol am ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol a chysylltu o ddydd i ddydd â'r gweithredwr ar ran holl gronfeydd CPLlL Cymru.**

Mae cyllideb Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i chynnwys yng Nghynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru ac mae'n cael ei chymeradwyo'n flynyddol gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Mae costau'r Awdurdod Cynnal ac Ymgynghorwyr Allanol a'r costau rhedeg yn cael eu hariannu'n gyfartal (oni chytunwyd ar brosiectau penodol ar gyfer Cronfeydd unigol) gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol a'u had-dalu'n flynyddol. Mae manylion y costau yr eir iddyn nhw gan Gronfa Bensiwn RhCT mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiwn Cymru i'w gweld yn y rhestr o Dreuliau Rheoli ar dudalen 49 o'r Adroddiad ar Gyfrifon.

# Arbedion Ffïoedd Buddsoddi yn sgil Cyfuno

| Buddsoddiadau a reolir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru | Gwerth ar 31 Mawrth 2025 £'000 | 2024/25 Arbedion Gwirioneddol mewn Ffïoedd £'000 | Arbedion Cronnus £'000 |
|---|---|---|---|
| Cronfa Ecwiti Twf Byd-eang Link | 1,752,556,128 | 2,095 | 8,178 |
| Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang Link | 507,678,537 | -112 | -302 |
| Cronfa Gredyd y DU Link | 726,573 | 402 | 1,390 |
| **CYFANSWM** | | **2,385** | **9,266** |

Symudwyd asedau o'r rheolwyr ecwiti byd-eang gwahanedig yn ystod mis Ionawr 2019 i gronfeydd Ecwiti Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru. Trosglwyddwyd y rheolwr bond gwahanedig i Gronfa Credyd Partneriaeth Pensiwn Cymru a chronfa gilt goddefol y DU BlackRock yn ystod mis Gorffennaf 2020. Felly mae arbedion buddsoddiadau bond yn rhannol oherwydd penderfyniad strategol gan Gronfa Bensiwn RhCT.

Mae gwerthuso arbedion wedi'i selio ar y rhagdybiaeth bod y rheolwyr wedi cyflawni eu targed cyflawniad o 2.5%.

# Amcanion 2025/26

**Mae PPC yn parhau i esblygu ei gynigion marchnad breifat yn rhan o'r rhaglen Buddsoddi Eiddo Tirol, sy'n cael ei lansio yn 2025/26. O ganlyniad i'r rhaglenni Marchnad Breifat, mae PPC wedi gallu hwyluso buddsoddiadau mewn cyfleoedd buddsoddi lleol yng Nghymru ac mae'n awyddus i ddatblygu'r cyfleoedd yma ymhellach.**

Ym mis Tachwedd 2024, roedd PPC yn falch iawn o dderbyn gwobr Arloesi ESG yn ystod seremoni wobrwyo LGC. Mae'r wobr hon yn adlewyrchu'r pwyslais y mae PPC a'i awdurdodau cyfansoddol yn parhau i'w roi ar faterion cynaliadwyedd ac hefyd yn cydnabod llwyddiant ei Chronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy, sydd wedi tyfu i ddod yn un o'r cronfeydd buddsoddi cynaliadwy mwyaf o'i fath yn y DU. Mae'r maes yma'n parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer PPC, ac erbyn hyn mae gwaith yn cael ei gynnal i wella nodweddion cynaliadwyedd buddsoddiadau presennol, gan ystyried sut i ddatblygu is-gronfeydd Goddefol ac Incwm Sefydlog i ddod yn fwy cynaliadwy.

Yn 2024/25, cyflwynodd PPC ei phedwerydd Adroddiad Stiwardiaeth blynyddol a llwyddodd y bartneriaeth i gynnal ei statws llofnodwr yn rhan o God Stiwardiaeth y DU. Fe wnaeth PPC gwblhau ei hadroddiad hinsawdd blynyddol cyntaf ar lefel y Gronfa, yn ogystal â dadansoddiad wedi'i ddiweddaru mewn perthynas â datgoedwigo o fewn ei Is-gronfeydd ecwiti rhestredig. Yn 2024/25, bydd PPC yn cyhoeddi ei Hadroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan nesaf.

Mae PPC wedi gwneud nifer o ailbenodiadau yn ystod 2024/25, gan gynnwys ailbenodi Waystone fel gweithredwr, Hymans Robertson fel yr Ymgynghorydd Goruchwylio a Robeco UK fel y darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu. Mae Russell Investments yn parhau i weithredu'n Ddarparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau ar gyfer PPC. Cafodd pob peodiad ei wneud yn unol â'r trefniadau caffael cynhwysfawr. Daw cytundeb darparwr Gwasanaethau Cyfreithiol presennol PPC i ben ar 31 Rhagfyr 2025 ac mae gwaith ar y gweill i gynnal proses ail-dendro mewn perthynas â'r cytundeb yma.

Lansiodd y Llywodraeth ei Hymgynghoriad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - Parod at y Dyfodol ar 14 Tachwedd 2024, gan amlinellu ystod o gynigion i gryfhau trefniadau rheoli buddsoddiadau'r CPLlL. Yn rhan o'r ymgynghoriad, gofynnodd y Llywodraeth i bob cronfa ystyried a chyflwyno cynigion sy'n dangos llwybr clir er mwyn bodloni'r gofynion a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori. Cymeradwywyd cynnig achos busnes PPC gan Gydbwyllgor Llywodraethu PPC ar 12 Mawrth 2025 ac yna cafodd y cynnig ei gyflwyno i'r Llywodraeth. Mae'r cynnig yma'n nodi'r achos busnes cymhellol dros barhau gyda chronfa fuddsoddi annibynnol ar gyfer Cymru a bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu gofynion newydd arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer model gweithredu'r gronfa. Rydym wrth ein bodd bod y Llywodraeth wedi cymeradwyo achos busnes PPC a bod gwaith bellach ar y gweill i'w gyflawni, o fewn yr amserlen ofynnol.

# Benthyca Gwarannau

**Dechreuodd benthyca gwarannau ym mis Mawrth 2020. Rhennir refeniw ar sail 85:15 rhwng Partneriaeth Pensiwn Cymru a Northern Trust gyda'r holl gostau am redeg y rhaglen benthyca gwarannau yn cael eu cymryd o gyfran Northern Trust o'r rhaniad ffioedd.**

Mae lleiafswm o 5% o swm enwol pob daliad ecwiti unigol yn cael ei ddal yn ôl ac mae uchafswm o 25% o gyfanswm yr Asedau dan Reolaeth (AUM) ar fenthyg ar unrhyw un adeg. Rhoddwyd gwasanaeth galw dirprwy yn ôl ar waith ym mis Rhagfyr 2023.

Mae modd dod o hyd i wybodaeth fanylach yn Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru a gyhoeddir ar wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru
www.partneriaethpensiwncymru.org

# Datganiad Strategaeth **Fuddsoddi**

## 1. Cyfrifoldeb Cyffredinol

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw'r corff statudol dynodedig sy'n gyfrifol am weinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar ran y cyrff cyfansoddol sydd ar y rhestr a'r rhai hynny sydd wedi'u derbyn i'r Cynllun.**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu polisi buddsoddi, penodi unigolion addas i weithredu'r polisi hwnnw ac adolygu a monitro'r buddsoddiadau yn rheolaidd.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Cronfa Bensiwn sy'n gytbwys o ran gwleidyddiaeth. Mae'n cynnwys aelodau etholedig sy'n goruchwylio cyfrifoldeb y Cyngor o ran gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Mae'r Pwyllgor yma'n gyfrifol am drefnau rheoli strategol y Gronfa Bensiwn.

Mae'r Cyngor wedi penodi'r Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Adnoddau Corfforaethol yn swyddog sydd â chyfrifoldebau Adran 151 i arfer pwerau wedi'u dirprwyo wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran y Gronfa Bensiwn. Rydyn ni wedi sefydlu Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu yn gefn iddo.

Dyma aelodau'r Panel:

- **Cyfarwyddwr: Cyllid a Gwasanaethau Gwella (Dirprwy Swyddog Adran 151)**
- **Cyfarwyddwr Gwasanaeth: Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion**
- **Cyfarwyddwr Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyllid**
- **Blaen Gyfrifydd: Materion y Trysorlys a Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn**
- **Gyfrifydd: Materion y Trysorlys a Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn**
- **Ymgynghorwyr Annibynnol**

Mae'r Panel a'r Pwyllgor yn cwrdd bob 3 mis. Dydy'r Cyngor ddim yn ymddiriedolwr yng ngwir ystyr y gair (yn dechnegol, dyma'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol) ond mae'n gweithredu fel lled-ymddiriedolwr.

Yn unol â gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, mae Bwrdd Pensiwn wedi'i sefydlu er mwyn helpu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac yntau'n "Rheolwr y Cynllun", i lywodraethu a gweinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf mewn modd effeithiol ac effeithlon.

Yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, adrannau 5(1) a 5(2), swyddogaeth y Bwrdd Pensiwn yw helpu Awdurdod Gweinyddu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac yntau'n Rheolwr y Cynllun, i wneud y canlynol:

- **Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Prif Reoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;**
- **Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a gafodd eu pennu gan y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol; a**
- **Sicrhau bod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol ac effeithlon gan Reolwr y Cynllun.**

Bydd Bwrdd y Gronfa Bensiwn yn goruchwylio'r materion uchod ac oherwydd hynny, fydd e ddim yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â rheoli'r Gronfa ei hun.

- Mae manylion y ddeddfwriaeth ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol: **live-pensions2020-rctcbc-intranet.cloud.contensis.com/Cy/GovernanceAndInvestment/GovernanceDocuments.aspx**

## 2. Prif Amcan y Gronfa

Prif amcan y Gronfa yw ariannu buddion pensiwn a chyfandaliadau i'r aelodau wedi iddyn nhw ymddeol neu i'r rheiny sy'n ddibynnol arnyn nhw ar ôl i'r aelod farw, boed hynny cyn ymddeol neu wedi hynny, yn unol â rheoliadau'r Cynllun.

## 3. Amcanion Cyllido

**Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf weinyddu'r Gronfa yn y fath fodd fel bo gwerth y gronfa, o dan amgylchiadau cyffredin, yn fwy na digon i dalu'r hyn sy'n ddyledus i'r aelodau hynny sydd wedi ymddeol a bod canran cyfraniadau'r aelodau sydd heb ymddeol yn cael ei phennu yn ddigonol ar gyfer cynnal costau'r dyfodol.**

Mae'r Datganiad Strategaeth Ariannu a'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi yn rhan annatod o'i gilydd, a'u bwriad yw darparu cyfraddau cyfrannu sefydlog ar gyfer cyflogwyr.

Yr amcan buddsoddi yw sicrhau'r lefel uchaf bosibl o adenillion gyda lefel dderbyniol o risg, gan gynyddu sicrwydd y gost ar gyfer cyflogwyr a lleihau'r gost hirdymor.

Amcan y Gronfa yw sicrhau adenillion ar asedau'r Gronfa sy'n ddigonol, dros y tymor hir, i gwrdd â'r amcanion ariannu yn barhaus.

Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Adnoddau Corfforaethol ar y cyd â'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa yn sicrhau bod un neu ragor o Reolwyr Buddsoddi yn cael eu penodi, sydd wedi'u hawdurdodi o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016, i reoli asedau'r Gronfa. Bydd cytundebau/mandadau yn cael eu sefydlu i roi cyfarwyddyd i reolwyr ynghylch y ffordd bydd y portffolio o fuddsoddiadau yn cael ei rheoli.

Caiff Pwyllgor y Gronfa Bensiwn, gan ystyried cyngor y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Adnoddau Corfforaethol, roi cyfarwyddiadau penodol ynghylch dyrannu asedau strategol a bydd yn sicrhau bod yr asedau'n addas mewn perthynas ag anghenion y Gronfa. Bydd gyda Rheolwyr Buddsoddiadau feincnod a tharged sy'n adlewyrchu eu mandad ac fe gân nhw ddefnyddio eu disgresiwn llawn eu hunain i ddewis stociau unigol. Bydd disgwyl iddyn nhw gynnal portffolio amrywiol o fewn y cyfyngiadau sydd wedi'u pennu ym mhob mandad.

## 4. Polisi Amrywiaethu:
### Gofyniad i fuddsoddi arian y gronfa mewn amrywiaeth eang o fentrau

**Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn ystod o ddosbarthiadau ased i helpu i leihau risg y portffolio yn gyffredinol.**

O wneud hyn, bydd y tangyflawniad yma'n cael ei gydbwyso gan asedau sy'n cyflawni'n well ar yr adeg honno, os nad yw dosbarth ased unigol yn cyflawni'n dda. Mae'r portffolio hefyd yn cael ei amrywio i leihau anwadalrwydd mewn cyflawniad.

Mae'r Gronfa'n cynnwys y dosbarthiadau ased canlynol:

- **Ecwitïau**
- **Giltiau'r DU**
- **Bondiau Corfforaethau**
- **Eiddo**
- **Isadeiledd**
- **Arian parod**

Comisiynodd y Gronfa adolygiad o'r asedau a'r rhwymedigaethau yn 2020. Nod sylfaenol hynny oedd lleoli buddsoddiadau'r Gronfa er mwyn:

- **Lleihau risg**
- **Cynnal (cyn belled ag y bo modd) y disgwyliadau o ran adenillion**
- **Lleihau costau tymor hir**
- **Cynyddu amrywiaeth**
- **Gwneud y gorau o drosglwyddo asedau i'r Gronfa Gyfun**
- **Cyflwyno Seilwaith (alinio â dyheadau'r Gronfa gyfun)**

Cafodd Aon ei benodi i roi'i farn ar risg/enillion strategaeth fuddsoddi bresennol y Gronfa Bensiwn. Yn dilyn hyn, gofynnwyd iddo roi sylwadau ac argymell enghreifftiau eraill a allai gyflawni amcanion tymor hir y Gronfa.

Ymgymerwyd ag esiamplau ar gyfer gwahanol strategaethau portffolio asedau. Amcangyfrifodd y model y tebygolrwydd o gyflawni amrywiaeth o ganlyniadau ariannu dros gyfnodau amser gwahanol o ystyried y strategaeth dyrannu asedau gyfredol. Cyflawnodd y dyraniad mwyaf i soddgyfrannau yn y portffolio enillion a allai fod yn uchel, ond roedd y lefel uchaf o risg hefyd yn perthyn i hyn.

Cafodd strategaethau dyrannu amgen eu hystyried, yn fodd posibl o gynyddu amrywiaeth a lleihau risg. Ystyriodd y Panel, y Pwyllgor a'r Bwrdd yr opsiynau. Nodwyd nad oedd Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar risg uchel o'i chymharu â chronfeydd CPLlL eraill, a bod rhai o'r dewisiadau amgen posibl wedi arwain at fuddsoddi mewn dosbarthiadau ased drud, ac i farchnadoedd roedd hi'n anodd cael mynediad atyn nhw.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Gronfa symud tuag at y strategaeth dyrannu asedau ganlynol gyda chamau i gyflawni'r dyraniad gofynnol.

| | | CAM 1 | CAM 2 | CAM 3 |
|---|---|---|---|---|
| **Dosbarthiad yr Ased** | **Dyraniad y Gronfa Bensiwn (31/03/2024)** | **Gostyngiad mewn Ecwiti, cynnydd mewn Bondiau Llywodraeth a Chorfforaethol** | **Gostyngiad mewn Ecwiti ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith** | **Gostyngiad mewn ecwitïau ar gyfer buddsoddiad ychwanegol mewn seilwaith** |
| **Cyfanswm yr Ecwiti** | 65% | 64% | 59% | 54% |
| **Isadeiledd** | 1% | 0 | 5% | 10% |
| **Eiddo** | 6% | 7% | 7% | 7% |
| **Bondiau'r Llywodraeth (DU)** | 12% | 12% | 12% | 12% |
| **Bondiau Corfforaethol (DU)** | 15% | 15% | 15% | 15% |
| **Arian Parod** | 1% | 2% | 2% | 2% |

Yn dilyn yr uchod, dyma'r targed a'r canrannau uchaf o'r cyfanswm o'r holl fuddsoddiadau y byddwn ni'n eu buddsoddi mewn buddsoddiadau neu ddosbarthiadau ased penodol:

| Dosbarthiad yr Ased | % darged y Gronfa | % uchaf y Gronfa |
|---|---|---|
| **Ecwitïau** | 54% | 75% |
| **Llog Sefydlog Bondiau)** | 12% | 35% |
| **Bondiau Enillion Absoliwt** | 15% | 15% |
| **Eiddo** | 7% | 15% |
| **Seilwaith** | 10% | 10% |
| **Arian parod** | 2% | 5% |

Mae'r targed uchod yn ffurfio sail meincnod wedi'i addasu y mae cyflawniad y Gronfa yn cael ei fonitro yn ei erbyn. Mae'r meincnod wedi'i addasu yn symud yn unol ag ansefydlogrwydd y farchnad. Dydy dyraniad asedau'r portffolio ddim yn cael ei ail-gydbwyso'n rheolaidd, ond mae'n cael ei adolygu bob blwyddyn i sicrhau nad yw'r enillion targed yn cael eu heffeithio'n andwyol.

Chawn ni ddim caniatáu mwy na 5% o gyfanswm gwerth buddsoddiadau'r arian cronfa mewn endidau sydd yn gysylltiedig â'r Awdurdod yn unol ag Adran 212 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007.

Wrth asesu'r polisi amrywiaethu, bydd y Gronfa yn ymgynghori â Chynghorwyr Annibynnol.

## 5. Polisi Dyrannu Asedau: Asesiad o addasrwydd buddsoddiadau penodol a'r mathau o fuddsoddiadau

**Mae'r buddsoddiadau yn cael eu dewis yn ôl eu haddasrwydd i fodloni amcan cyffredinol y Gronfa, sef, bodloni'r rhwymedigaethau pensiwn wrth iddyn nhw ddod yn ddyledus. Mae lefel ofynnol yr enillion yn cael ei llywio gan y prisiad actiwaraidd teirblwydd.**

Yn y tymor hir, mae asedau anwadalrwydd isel megis buddsoddiadau gilt yn ymddwyn mewn modd tebyg i rwymedigaethau pensiwn ac felly fe fydden nhw'n "cyfateb â" phriodoleddau'r rhwymedigaethau pensiwn. Serch hynny, mae'r gofyniad i gyflawni elw uwch dros dymor hirach yn cael ei gyflawni (ar gyfartaledd) gan fathau eraill o asedau megis stociau.

Mae'r portffolio cyfredol wedi'i lunio gyda chyngor actiwaraidd ac ymgynghorydd annibynnol i gyrraedd lefel benodol o elw o fewn paramedrau risg.

Mae pob Rheolwr Buddsoddiadau wedi llofnodi cytundeb sy'n amlinellu meincnodau, targedau, ystod dyrannu asedau ac unrhyw gyfyngiadau perthnasol yn unol â chanllawiau Pwyllgor y Gronfa Bensiwn.

Mae'r canlynol yn dangos dyraniad y Gronfa ym mis Mawrth 2024:

| | % y Gronfa a Fuddsoddwyd |
|---|---|
| **Ecwitïau** | 9.5 |
| **Cronfa gyfun** | |
| **Ecwitïau Byd-eang Partneriaeth** | 47.6 |
| **Pensiwn Cymru** | 2.4 |
| **Ecwitïau Cynaliadwy PPC** | 15.0 |
| **Isadeiledd PPC** (Pen caeedig) | 0.4 |
| **Buddsoddiad Lleol PPC** | 0.1 |
| **Buddsoddiadau wedi'u cyfuno eraill** | |
| **Giltiau Goddefol y DU** | 5.9 |
| **Ecwitïau Goddefols** | 11.5 |
| **Eiddo cyfun** | 6.2 |
| **Is-adeiledd** | 0.8 |
| **Arian parod ac adneuon** | 0.6 |

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiwn wedi penderfynu peidio â buddsoddi mewn ecwitïau preifat ar hyn o bryd.

Mae'r Pwyllgor y Gronfa Bensiwn wedi cytuno i roi benthyg stoc yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- Gwarant a digolledIad priodol;
- Caiff stoc ei gadw'n ôl er mwyn cynnal y gallu i bleidleisio;
- Y gallu i alw stoc yn ôl er mwyn pleidleisio ar faterion penodol.

Mae'r Strategaeth Dyrannu Asedau yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu i sicrhau bod enillion, risg ac anwadalrwydd yn cael eu rheoli ac yn gyson â'r strategaeth fuddsoddi gyffredinol

## 6. Polisi ynglŷn â risg:
## Y dull gweithredu o ran risgiau, gan gynnwys y ffyrdd y mae risgiau'n cael eu mesur a'u rheoli

**Mae'r Gronfa yn cadw Cofrestr Risg sy'n cael ei chymeradwyo gan y Panel Cynghori ar Fuddsoddi a Gweinyddu ac mae hynny'n cael ei adrodd i Fwrdd a Phwyllgor y Gronfa Bensiwn bob tri mis.**

Mae'r Gofrestr Risg yn archwilio i faterion cyllido, buddsoddi, gweithredu a llywodraethu, yn rhestru risgiau o ran tebygolrwydd ac effaith ac yn nodi mesurau lliniaru.

### Risg Buddsoddi

Mae hyn yn cwmpasu eitemau megis cyflawniad marchnadoedd ariannol a Rheolwyr Buddsoddiadau'r Gronfa, ail-ddyrannu asedau mewn marchnadoedd anwadal, gan arwain at y risg o fuddsoddiadau sydd ddim yn cyflawni (incwm) neu gynyddu mewn gwerth (twf) yn ôl y rhagolygon.

Dyma enghreifftiau o'r risgiau penodol:

- Asedau sydd ddim yn rhoi'r enillion gofynnol (am ba reswm bynnag, gan gynnwys tangyflawniad rheolwyr)
- Risg systemig gyda'r posibilrwydd o anwadalrwydd marchnad ariannol rhyng-gysylltiedig a chydamserol
- Cyllid annigonol i gwrdd â rhwymedigaethau wrth iddyn nhw ddod yn ddyledus
- Cyngor actiwaraidd annigonol, anaddas neu anghyflawn yn cael ei roi a'i weithredu
- Methiant y parti arall.

Dyma'r risgiau penodol sy'n gysylltiedig ag asedau a dosbarthiadau ased:

- Ecwitïau – diwydiant, gwlad, maint a risgiau stoc
- Incwm sefydlog – cromlin elw, risgiau credyd, risgiau hyd a risgiau'r farchnad
- Asedau amgen – risgiau diddymu, risg eiddo, risg alffa
- Marchnad arian – risg credyd a risg diddymu
- Risg arian breiniol
- Risgiau macro economaidd

Trwy osod meincnodau ar gyfer hawliau'r rheolwyr i fuddsoddi arian y gronfa a thrwy gymharu cynnydd y buddsoddiadau â thargedau penodol, rydyn ni'n gofalu nad yw'r rheolwyr yn crwydro oddi wrth ein canllawiau cyffredinol. Eto i gyd, mae'n canllawiau ni'n ddigon ystwyth i reoli'r gronfa mewn modd a fydd yn cynyddu'r adenillion.

Yr amcan buddsoddi cyffredinol yw gwneud y gorau o adenillion buddsoddi a lleihau cyfraniadau cyflogwyr dros y tymor hir o fewn goddefiadau risg cytunedig.

Y gofyniad yw symud tuag at gyllid o 100%. Bydd y lefel ariannu yn cael ei chyfrifo bob 3 blynedd, yn dilyn proses adolygu gan yr actwari.

Mae asedau'r Gronfa yn cael eu rheoli ar sail weithredol (ac eithrio'r mandad Ecwiti Goddefol Byd-eang a mandad Gilt Goddefol y DU) ac mae disgwyl iddyn nhw gyflawni'n well na'u meincnodau dros yr hirdymor. Yn y modd yma, y disgwyl yw y bydd y cyflawniad buddsoddi sy'n cael ei gyflawni gan y Gronfa yn fwy na'r gyfradd adennill y mae'r Actiwari wedi'i rhagdybio o fewn y prisiad.

Mae Rheolwyr Buddsoddi'r Gronfa wedi cael meincnodau a thargedau pwysedig i adlewyrchu'r mandadau sydd gyda nhw. Mae gyda ni weithdrefnau monitro ar gyfer materion dyrannu asedau a dewis stoc y farchnad.

Mae'r targedau cyfredol ar gyfer pob mandad fel a ganlyn:

| Portfolio | Mynegai Meincnod y Portffolio | Targed y Portffolio |
|---|---|---|
| Rheolwr Ecwitïau Traddodiadol | Y DU – FTSE All Share<br>UD – FTSE All World<br>Ewrop – FTSE All World Europe<br>Dwyrain Pell – FTSE All World Developed Asia<br>Gwledydd Tramor Eraill – MSCI Emerging Index | Mynegai Cyfansawdd +1% y flwyddyn dros gyfnod treigl o 3 blynedd |
| Rheolwr Ecwitïau goddefol byd-eang | MSCI World Low Carbon Target Reduced Fossil Fuel Select 12 BST | Mynegai |
| Rheolwyr alpha uwch byd-eang | MSCI All Countries World Index | Index + 2% over rolling 3 year period |
| Isadeiledd | | 9% Cyfradd Adennill Fewnol (net o ffioedd gydag arenillion arian parod o 4% y flwyddyn) |
| Gilt Goddefol y DU | Holl Stoc Giltiau confensiynol FTSE y DU | Mynegai |
| Credyd y DU | ICE BofA ML Eur-Sterling | Mynegai + 0.65% |
| Rheolwr Eiddo | Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a 4.5% | |

Mae'r Panel yn adolygu gwaith y Rheolwyr yn gyson ar sail y data chwarterol a blynyddol mae'n ei gael gan asiantaethau rheoli cyflawniad allanol.

O benodi mwy nag un Rheolwr, mae'r risg yn cael ei wasgaru, fel sydd wedi'i drafod uchod.

Y disgwyl yw y bydd pob Rheolwr Buddsoddiadau yn cynnal portffolio amrywiol o fuddsoddiadau a chadw at y cyfyngiadau sydd wedi'u gosod yn rhan o'u cytundeb.

**Hefyd, mae gyda Rheolwyr Buddsoddiadau gyfyngiadau buddsoddi fel a ganlyn:**

| Portfolio | Cyfanswm 10% mewn unrhyw ddaliad unigol | Uchafswm o 10% mewn arian parod | Uchafsw m o 5% mewn arian parod | Dim un ecwiti tramor unigol yn fwy na 5% o gyfanswm gwerth y gronfa | Daliad uchaf posibl yn y cynllun ymddiriedolaeth – 25% | Uchafswm o 25% mewn Marchnadoedd Newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Baillie Gifford (ecwiti traddodiadol) | • | • | | • | • | |
| Cronfa Twf Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru | • | • | | | • | |
| Cronfa Cyfleoedd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru | • | | | | • | • |
| Credyd y DU Partneriaeth Pensiwn Cymru | Dim cyfyngiadau – cronfa gyfun | | | | | |
| BlackRock (Ecwitïau Goddefol) | Dim cyfyngiadau – cronfa gyfun | | | | | |
| BlackRock Giltiau Goddefol y DU | Dim cyfyngiadau – cronfa gyfun | | | | | |
| Datrysiadau GIS4 BlackRock | Dim cyfyngiadau – cronfa gyfun | | | | | |
| Eiddo CBRE | • | | • | | | |

Mae cyflawniad marchnadoedd a Rheolwyr Buddsoddiadau yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Panel Cynghori ar Fuddsoddi a Gweinyddu, sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant priodol sy'n ofynnol i ymgymryd â'r dasg yma. Mae'r Panel hefyd yn cael ei gefnogi gan Ymgynghorwyr Annibynnol sy'n rhoi cyngor i alluogi'r Panel i gyflawni ei swyddogaethau i'r safon orau bosibl.

## Risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu

Mae'r Gronfa o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth barhaus i ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a'u bod nhw'n rhan annatod o gyfrifoldebau'r Gronfa, ag yntau'n fuddsoddwr cynaliadwy tymor hir.

Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i bontio i economi carbon isel yn ogystal â lleihau unrhyw gysylltiad â thanwydd ffosil.

Mae ymgysylltu â chwmnïau sydd am fuddsoddi yn hanfodol o ran gwella safonau llywodraethu corfforaethol, ac yn y tymor hir mae disgwyl i hyn wella'r elw ar fuddsoddiadau.

## 7. Dull o gyfuno buddsoddiadau, gan gynnwys y defnydd o ddulliau buddsoddi ar y cyd a gwasanaethau wedi'u rhannu

**Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi penodi Waystone Management (UK) Limited (Waystone) gweithredu cyfrwng buddsoddi ar y cyd at ddefnydd cronfeydd CPLlL Cymru yn unig. Bydd hyn yn galluogi cyfuno asedau ar draws ystod o fathau o asedau.**

Mae Waystone yn cynnal Cynllun Cytundebol Awdurdodedig (cyfrwng cyd-fuddsoddi y DU sy'n effeithlon o ran trethi) ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru. Bydd gyda'r Cynllun Cytundebol Awdurdodedig is-gronfeydd mewn ystod o fathau o asedau a fydd yn diwallu anghenion cronfeydd CPLlL yng Nghymru, i'w galluogi i weithredu eu strategaethau dyrannu asedau gwahanol.

Gyda chefnogaeth Russell Investments, ac mewn ymgynghoriad â'r 8 cronfa CPLlL unigol, mae Waystone wedi penodi nifer o Reolwyr Buddsoddiadau.

Bydd pob Cronfa CPLlL yn y gronfa gyfun yn cadw rheolaeth lawn dros benderfyniadau dyrannu asedau strategol. Bydd gyda Northern Trust ddyletswyddau gwarchodol.

Drwy ddefnyddio llai o Reolwyr Buddsoddiadau a mandadau mwy o faint, y disgwyl yw y bydd modd i Bartneriaeth Pensiwn Cymru leihau'r ffioedd, sef un o brif amcanion polisi'r Llywodraeth.

Dyma grynodeb o amcanion cyfuno Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- **Cynhyrchu adenillion net cyson o ffioedd dros ben.**
- **Amrywiaethu risg rheolwyr.**
- **Gostwng ffioedd cyfartalog rheolwyr.**
- **Cyflawni effeithlonrwydd treth drwy adennill treth ataliedig ar ddifidendau (ar gyfer is-gronfeydd ecwiti y tu allan i'r DU).**
- **Rhannu costau trosglwyddo i is-gronfeydd yn deg.**

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i wneud cynnydd wrth sefydlu is-gronfeydd priodol i fodloni'r amcanion buddsoddi ar draws Cronfeydd Cymru. Lansiwyd y ddwy is-gronfa gyntaf ar gyfer buddsoddi asedau ar y cyd yn ystod Ionawr 2019 ac maen nhw'n ymwneud â ecwitïau Byd-eang Alffa Uchel. Lansiwyd yr is-gronfa ar gyfer Soddgyfrannau'r DU ac Ewrop yn ystod mis Medi 2019. Lansiwyd y trydydd cam yn ymwneud â Llog Sefydlog gyda phump is-gronfa yn ystod mis Gorffennaf 2020 (Giltiau byd-eang, corfforaethau byd-eang, corfforaethau'r DU, credyd aml-ased a bondiau enillion absoliwt). Roedd y bedwaredd is-gronfa yn ymwneud â ecwitïau marchnad sy'n dod i'r amlwg a chafodd ei lansio ym mis Hydref 2021. Lansiwyd yr is-gronfa credyd preifat ym mis Ebrill 2024, is-gronfeydd isadeiledd ym mis Mai 2023 ac Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy ym mis Mehefin 2023.

## 8. Sut y mae elfennau cymdeithasol, amgylcheddol a llywodraethol yn cael eu hystyried wrth ddewis, peidio â dewis, cadw a chyflawni buddsoddiadau

**Y brif egwyddor sy'n rhedeg trwy bolisi materion buddsoddi'r Gronfa yw cael yr adenillion mwyaf posibl trwy fanteisio ar yr ystod lawn o fuddsoddiadau yn unol â rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.**

Er mai gwneud elw yw ein prif gyfrifoldeb, lle bo hyn yn bosibl, mae'r Gronfa yn ymroi i gynnwys ffactorau Buddsoddi Cyfrifol (ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu corfforaethol) yn y broses buddsoddi. Mae'r ffactorau nad ydyn nhw'n ariannol yma'n cael eu hystyried i'r graddau nad ydyn nhw'n niweidiol i adenillion buddsoddiadau'r Gronfa. Dylid cynnwys y ffactorau yma yn rhan o benderfyniadau dewis stoc Rheolwyr Buddsoddi er mwyn gwella'r broses, yn hytrach na rhwystro'r dewis mewn unrhyw ffordd. Dydy'r Gronfa ddim yn 'hidlo' stociau sydd ar gael i'r Rheolwyr mewn modd negyddol.

Mae'r Gronfa yn mynnu bod ei Rheolwyr Buddsoddiadau yn integreiddio'r holl ffactorau ariannol a'r ffactorau nad ydyn nhw'n ariannol, i'r broses dod i benderfyniadau ar gyfer pob buddsoddiad. Ar ben hynny, mae'n disgwyl i'w rheolwyr ymgysylltu'n rhagweithiol â'r marchnadoedd y mae'r Gronfa yn agored iddyn nhw, dylanwadu arnyn nhw a hyrwyddo llywodraethu corfforaethol da ynddyn nhw. Mae Rheolwyr Buddsoddiadau'r Gronfa yn darparu diweddariadau ar eu gweithrediadau yn hyn o beth.

Mae holl Reolwyr Buddsoddiadau'r Gronfa wedi ymrwymo i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar Fuddsoddi yn Gyfrifol (UNPRI), sy'n annog perchnogion asedau a rheolwyr asedau i gynnwys materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu i ddadansoddi buddsoddiadau a dod i benderfyniadau, bod yn berchnogion gweithredol, ceisio datgelu materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a hyrwyddo'r egwyddorion yn y diwydiant.

**Dyma'r chwe egwyddor:**

1. Byddwn ni'n cynnwys materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn y prosesau dadansoddi buddsoddiadau a dod i benderfyniadau;
2. Byddwn ni'n weinyddwyr gweithredol ac yn cynnwys materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn ein polisïau a'n harferion gweinyddu;
3. Byddwn ni'n ceisio cydnabyddiaeth briodol ynglŷn â materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu gan y mentrau rydyn ni'n buddsoddi ynddyn nhw;
4. Byddwn ni'n hyrwyddo derbyn yr Egwyddorion a'u gweithredu yn y diwydiant buddsoddi;
5. Byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd i wella ein heffeithiolrwydd wrth weithredu'r Egwyddorion; a
6. Bydd pob un ohonon ni'n adrodd ar ein gweithrediadau a'n cynnydd tuag at weithredu'r Egwyddorion.

Mae'r Gronfa yn aelod o Fforwm Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol (LAPFF). Mae Fforwm Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol (LAPFF) yn bodoli er mwyn hyrwyddo buddiannau buddsoddi cronfeydd pensiwn llywodraethau lleol ac i gynyddu eu dylanwad, ac yntau'n rhanddeiliaid. Maen nhw'n hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol ymysg y cwmnïau maen nhw'n buddsoddi ynddyn nhw.

Mae'r Gronfa'n cydnabod y risgiau ariannol a'r sylw sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, tanwyddau ffosil a rheoli carbon. Mae'r Gronfa yn parhau i ymrwymo i leihau ei hallyriadau carbon, fel sydd wedi'i nodi yn Natganiad y Strategaeth Fuddsoddi. Mae'r Gronfa hefyd wedi ymrwymo i lynu wrth egwyddorion y Cod Stiwardiaeth.

## 9. Manteisio ar hawliau pleidleisio sy'n ymwneud â'r buddsoddiadau

**Caiff buddiannau buddsoddi tymor hir eu gwella gan y safonau llywodraethu corfforaethol a'r cyfrifoldebau corfforaethol uchaf. Gall llywodraethu gwael gael effaith negyddol ar werth cyfranddalwyr.**

Mae'r Gronfa yma'n cydnabod pwysigrwydd stiwardiaeth ac ymgysylltiad ac mae rheolwyr y gronfa ecwiti yn ceisio cael dylanwad cadarnhaol ar gwmnïau.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cyflogi darparwyr ymgysyllltu a phleidleisio er mwyn rhoi hawliau pleidleisio ar waith i hyrwyddo llywodraethu corfforaethol da a chyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae cyfran o'r stoc yn cael ei dal yn ôl o weithrediadau benthyca stoc i hwyluso hyn. Mae'r Rheolwyr yn darparu adroddiadau gweithrediadau pleidleisio bob chwarter.

Disgwylir i Reolwr y Gronfa Ecwitïau a gyflogir y tu allan i Bartneriaeth Pensiwn Cymru arfer ei hawliau pleidleisio. Mae'r Gronfa wedi cytuno ar batrwm pleidleisio sy'n cynnwys canllawiau ar arfer da ynghylch trefnau llywodraethu. Rydyn ni'n cyflogi asiantaeth bleidleisio annibynnol i fonitro a chymharu hanes pleidleisio y rheolwyr yng ngoleuni'r templed yma. Mae'r rheolwr yn darparu adroddiadau gweithrediadau pleidleisio bob chwarter.

## 10. Arweiniad Buddsoddi Da – Egwyddorion Myners

**Mae'r Gronfa yn asesu ac yn adolygu ei chydymffurfiaeth ei hun ag Egwyddorion Myners bob blwyddyn.**

Yn ôl ei hasesiad ei hun, mae'r Gronfa'n cydymffurfio'n llawn â'r egwyddorion isod:

- **EGWYDDOR 1:** Proses Effeithiol ar gyfer Dod i Benderfyniadau
- **EGWYDDOR 2:** Amcanion clir
- **EGWYDDOR 3:** Risg a rhwymedigaethau
- **EGWYDDOR 4:** Asesu cyflawniad
- **EGWYDDOR 5:** Cyfrifoldeb o weinyddu
- **EGWYDDOR 6:** Bod yn agored a threfnau adrodd

## ATODIAD A

## Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf
### Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol a Buddsoddi carbon

**Mae Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn gronfa bensiwn buddion diffiniedig agored yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) cenedlaethol.**

Mae natur y Gronfa a dyluniad y Cynllun yn golygu y bydd y taliadau pensiwn yn ymestyn dros y tymor hir iawn. Wrth ystyried strategaeth fuddsoddi'r Gronfa, mae'r gronfa yn ceisio gweithredu

- **strategaeth gynaliadwy, hirdymor;**
- **un sydd ddim yn dibynnu ar geisio enillion tymor byr;**
- **dyraniad buddsoddi wedi'i strwythuro'n dda sy'n edrych ar ôl asedau a'r gronfa, sy'n anelu at gyflawniad buddsoddi hirdymor, sy'n gynaliadwy ac sy'n ystyried materion cymdeithasol mewn modd cyfrifol.**

Mae'r Gronfa yn defnyddio strwythur buddsoddi cymharol syml sy'n ceisio darparu enillion ar fuddsoddiadau sydd uwchlaw lefel rhwymedigaethau pensiwn ac sy'n ceisio sicrhau cyllid o 100% dros y tymor hir.

Ac yntau'n fuddsoddwr tymor hir, rhaid i'r Gronfa fod yn gynhwysfawr wrth ystyried a lliniaru risgiau posibl i'r portffolio, ac felly caiff buddsoddiadau eu harallgyfeirio ar draws nifer o fathau o asedau.

Mae'r Gronfa'n cydnabod goblygiadau buddsoddi sydd ynghlwm â'r newid yn yr hinsawdd ac allyriadau carbon.

Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i bontio i economi di-garbon mewn modd trefnus ac mae o'r farn mai ymgysylltu'n weithredol â chwmnïau buddsoddi – yn hytrach na dadfuddsoddi – yw'r dewis gorau er mwyn sicrhau newid, a hynny wrth reoli materion risg cyffredinol sy'n gysylltiedig â buddsoddi. Yn hyn o beth, mae'r Gronfa yn ei gwneud yn ofynnol i'w rheolwyr buddsoddiadau ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi a cheisio sicrhau bod eu hamcanion busnes yn cyd-fynd â lleihau dod i gysylltiad â charbon.

Serch hynny, rydyn ni hefyd yn cydnabod y gall fod achosion lle mae dadfuddsoddi yn ddull gweithredu priodol ac rydyn ni wedi llunio egwyddorion arweiniol yn hyn o beth.

Mae'r ddogfen yma'n amlinellu sut y bydd y Gronfa yn ymdrin â dadfuddsoddi, sut y bydd y risgiau a'r ystyriaethau eraill sy'n gysylltiedig ag ymrwymiad o'r fath yn cael eu rheoli a sut y caiff y dadfuddsoddi ei ymgorffori yn y strategaeth dyrannu asedau ar gyfer y Gronfa gyda threigl amser.

Caiff dull cyffredinol y Gronfa o ymgorffori materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ehangach ei nodi'n fanylach yn y Datganiad ar y Strategaeth Fuddsoddi.

# Egwyddorion

## 1. Buddsoddwr Cyfrifol

**A ninnau'n berchnogion cyfrifol, rydyn ni'n credu'n gryf bod gyda ni lais a'r gallu i ddylanwadu ar newid strategol mewn cwmnïau buddsoddi a bod modd i hyn fod yn fwy pwerus na dadfuddsoddi yn unig.**

## 2. Dyrannu Asedau

**Byddwn ni'n ymgorffori'r holl ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu wrth ystyried dyrannu ein hasedau a'n strategaethau buddsoddi.**

## 3. Rheolwyr Buddsoddi

**Byddwn yn sicrhau bod ein holl Reolwyr Buddsoddiadau yn ymrwymo i egwyddorion y Cenhedloedd Unedig o fuddsoddi cyfrifol (UNPRI), eu bod yn ymgysylltu'n effeithiol ac yn onest wrth ddweud wrthym sut maen nhw'n gwneud gwahaniaeth. Os dydy cwmnïau buddsoddi ddim yn mynd ati'n weithredol i leihau dod i gysylltiad â charbon yn y tymor hir yna byddwn yn dadfuddsoddi mewn modd trefnus.**

Mae'r Gronfa'n mynnu bod ei holl Reolwyr Buddsoddiadau yn ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn briodol yn ogystal â risgiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu eraill wrth ddod i benderfyniadau yn rhan o'u portffolios priodol.

Pan fydd angen diwygio Rheolwyr Buddsoddiadau a dyraniadau asedau, bydd y risg o ddod i gysylltiad â thanwydd ffosil yn cael ei gynnwys yn rhan o unrhyw ddiwydrwydd dyladwy o safbwynt dod i benderfyniadau sy'n ystyried y risgiau a'r enillion.

Rheolir mandad ecwiti goddefol y Gronfa drwy gynnyrch carbon isel.

## 4. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

**Prif ddiben y Gronfa yw bod modd iddi dalu am rwymedigaethau pensiwn dros y tymor hir.**

Mae trefniadau cenedlaethol ar waith i leihau buddiannau pensiwn os does dim modd i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gynnal ei hun, a hynny os yw'n colli gwerth neu os yw ei rhwymedigaethau yn cynyddu. Mae dyletswydd arnon ni felly i sicrhau fod hawliau pensiwn aelodau yn y dyfodol ddim yn cael eu cyfaddawdu.

Serch hynny, rydyn ni o'r farn bod "byd sy'n werth byw ynddo" yn un o'n hegwyddorion arweiniol.

## 5. Y Tymor Hir a Chyd-fynd â Nodau Byd-eang

**A ninnau'n Gronfa agored, rydyn ni'n fuddsoddwyr tymor hir a ddylen ni ddim cael ein dylanwadu'n ormodol gan ffactorau a materion tymor byr.**

## 6. Gweithio Gyda'n Gilydd

**Byddwn ni'n cydweithio â Chronfeydd eraill Cymru drwy Bartneriaeth Pensiynau Cymru ac yn ceisio sicrhau bod ein nodau tymor hir yn cyd-fynd â rhai ein partneriaid.**

Mae'n bwysig bod y Gronfa'n gweithio gyda'n partneriaid i rannu gwybodaeth ac arferion gorau, yn ogystal â defnyddio asedau ar y cyd i geisio rhoi'r strategaethau lleihau defnydd tanwydd ffosil mwyaf effeithiol ac effeithlon ar waith. Byddwn ni hefyd yn gweithio gyda Chronfeydd eraill yn genedlaethol drwy ein haelodaeth o Fforwm Cronfa Bensiwn yr Awdurdodau Lleol (LAPFF), a hynny i annog cwmnïau i fabwysiadu'r safonau uchaf o ran tanwydd ffosil ac effeithlonrwydd ynni.

## 7. Lliniaru Risg

**Rhaid i Reolwyr Buddsoddiadau ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a Newid yn yr Hinsawdd / Dod i Gysylltiad â Charbon yn rhan o'u penderfyniadau buddsoddi, yn benodol mewn perthynas â lliniaru risg a bod yn glir ynghylch unrhyw oblygiadau negyddol.**

## 8.Gonestrwydd

**Byddwn yn dod i ddeall sut bydd y Gronfa yn ymdrin â materion Carbon drwy ddull systemig, gan ymgysylltu ag arbenigwyr i nodi gwaelodlin drylwyr a chadarn o ran ein sefyllfa a'i monitro yn y dyfodol.**

# Egwyddorion Buddsoddi **Myners**

## **Egwyddor 1:** Proses effeithiol ar gyfer dod i benderfyniadau

**Dylai awdurdodau sy'n gweinyddu cronfeydd:**

- Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan bobl neu sefydliadau sydd â'r sgiliau, yr wybodaeth, y cyngor a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i'w gwneud yn effeithiol a monitro eu gweithrediad; a
- Sicrhau bod gan yr unigolion neu'r sefydliadau hynny ddigon o arbenigedd i allu gwerthuso a herio'r cyngor sy'n dod i law, a rheoli achosion o wrthdaro buddiannau.

**WEDI CYDYMFFURFIO**

## **Egwyddor 2:** Amcanion clir

Dylai amcan(ion) cyffredinol ar gyfer buddsoddi fod ar gael ar gyfer y gronfa sy'n rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau'r cynllun a'r effaith bosibl ar drethdalwyr lleol, cadernid y cyfamod o ran cyflogwyr sy heb fod yn awdurdodau lleol, a'r ymagwedd tuag at risg o ran yr awdurdodau gweinyddu a chyflogwyr y cynllun. Dylai ymgynghorwyr a rheolwyr buddsoddi gael gwybod beth ydy nhw.

**WEDI CYDYMFFURFIO**

## **Egwyddor 3:** Risg a rhwymedigaethau

**Wrth lunio ac adolygu eu strategaeth fuddsoddi, dylai awdurdodau sy'n gweinyddu ystyried ffurf a strwythur rhwymedigaethau.**

Mae'r rhain yn cynnwys y goblygiadau i drethdalwyr lleol, cryfder y cyfamod i'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan, y risg o ran diffyg a'u risg o ran hirhoedledd.

**WEDI CYDYMFFURFIO**

## **Egwyddor 4:** Asesu cyflawniad

**Dylai trefniadau fod ar waith ar gyfer mesur cyflawniad y buddsoddiadau, y rheolwyr buddsoddi a'r cynghorwyr yn ffurfiol.**

Dylai awdurdodau sy'n gweinyddu hefyd wneud asesiad ffurfiol o'u heffeithiolrwydd eu hunain fel corff gwneud penderfyniadau o bryd i'w gilydd, ac adrodd ar hyn i aelodau'r cynllun.

**WEDI CYDYMFFURFIO**

## **Egwyddor 5:** Perchnogaeth gyfrifol

**Dylai awdurdodau sy'n gweinyddu:**

- Mabwysiadu, neu sicrhau bod eu rheolwyr buddsoddiadau'n mabwysiadu, Datganiad o Egwyddor Pwyllgor Cyfranddalwyr y Sefydliad ar fater cyfrifoldebau cyfranddalwyr ac asiantiaid
- Cynnwys datganiad o'u polisi yn ymwneud â chyfrifoldeb o weinyddu yn rhan o'r datganiad ynghylch egwyddorion buddsoddi
- Adrodd i aelodau'r cynllun yn rheolaidd ynglŷn â chyflawni cyfrifoldebau o'r fath.

**WEDI CYDYMFFURFIO**

## **Egwyddor 6:** Gonestrwydd a threfnau adrodd

**Dylai awdurdodau sy'n gweinyddu cronfeydd:**

- Bod yn hollol agored, cyfathrebu â rhanddeiliaid ar faterion sy'n ymwneud â rheoli buddsoddiadau, y trefnau llywodraethu a gweinyddu a'r risgiau, gan gynnwys cyflawniad yn erbyn amcanion sydd wedi'u nodi.
- Cyfathrebu ag aelodau'r cynllun yn rheolaidd yn y ffurf sydd fwyaf priodol yn eu barn nhw.

**WEDI CYDYMFFURFIO**

Cyfrifydd y Trysorlys a'r Gronfa Bensiwn
Vanessa Thomas

# Adroddiad ar y **Cyfrifon**



## Cyfrif y Gronfa

| 2023/24 | | 2024/25 | |
|---|---|---|---|
| £'000 | | £'000 | £'000 |
| | **Cyfraniadau** | | |
| (111,319) | Cyfraniadau gan y Cyflogwyr | (116,185) | |
| (36,969) | Cyfraniadau gan yr Aelodau | (38,607) | |
| **(148,288)** | | | **(154,792)** |
| | **Trosglwyddiadau a dderbyniwyd gan gronfeydd pensiwn eraill** | | |
| (7,579) | Trosglwyddiadau grŵp a dderbyniwyd gan gronfeydd pensiwn eraill | **(18,030)** | |
| (1,027) | Trosglwyddiadau unigol allan i gronfeydd pensiynau eraill | **(2,189)** | |
| | | | **(20,219)** |
| **(4,645)** | **Incwm arall** | | **(8,192)** |
| | **Buddion** | | |
| 130,805 | Pensiynau | 143,315 | |
| 30,529 | Cymudiad o bensiynau a buddion cyfandaliad adeg ymddeol | 41,170 | |
| 5,371 | Buddion Cyfandaliadau marwolaeth | 4,744 | |
| **166,705** | | | **189,229** |
| | **Ad-daliadau i weithwyr sy'n gadael y cynllun/cronfa** | | |
| 246 | Ad-daliadau i aelodau sy'n gadael cynllun neu gronfa | 380 | |
| (2) | Taliadau i aelodau sy'n ymuno â chynllun neu gronfa'r wladwriaeth | 0 | |
| 0 | Trosglwyddiadau grŵp i gynlluniau neu gronfeydd eraill | 2,782 | |
| 10,765 | Trosglwyddiadau unigol i gynlluniau eraill | 14,071 | |
| **11,009** | | | **17,233** |
| **177,714** | | | **206,462** |
| 16,175 | Ychwanegiadau Net / Alldyniadau Net o ganlyniad i ymdrin ag aelodau | | 23,259 |
| 14,645 | Treuliau rheoli | | 21,043 |
| **30,820** | **Ychwanegiadau Net/Alldyniadau Net yn cynnwys Treuliau Rheoli'r Gronfa** | | **44,302** |
| | **Incwm Buddsoddiadau** | | |
| (15,015) | Ecwitïau | (8,271) | |
| | Cronfeydd Cyfun | | |
| (45,950) | Ecwitïau Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru* | (34,684) | |
| (766) | Ecwiti Cynaliadwy PPC | (1,876) | |
| (14,930) | Cronfa Gredyd y DU Partneriaeth Pensiwn Cymru | (27,154) | |
| 0 | Isadeiledd PPC (pen caeedig) | (236) | |
| | Buddsoddiadau eraill wedi'u cyfuno | | |
| (8,974) | Buddsoddiadau wedi'u cyfuno – eiddo | (9,748) | |
| | Arall | | |
| (780) | Adneuon Arian parod | (899) | |
| **(86,415)** | | | **(82,868)** |
| **(400,615)** | **(Elw) a cholledion gwerthu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau** | | **(30,329)** |
| **110** | **Trethi ar Incwm** | | **73** |
| **(486,920)** | **Enillion Net ar Fuddsoddiadau** | | **(113,124)** |
| **(456,100)** | **Net (Cynnydd)/Gostyngiad Net ar Asedau sydd ar gael ar gyfer buddion yn y flwyddyn** | | **(68,822)** |
| **(4,260,475)** | **Asedau Net Agoriadol** | | **(4,716,575)** |
| **(4,716,575)** | **Asedau Net wrth Gau** | | **(4,785,397)** |

# Datganiad o'r Asedau Net

| 31/03/2024 £'000 | | 31/03/2025 £'000 | 31/03/2025 £'000 |
|---|---|---|---|
| | **Asedau Buddsoddi** | | |
| 444,003 | Ecwitïau | | |
| | Cronfeydd Cyfun | 382,400 | |
| 2,250,754 | Ecwitïau Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru | 2,260,235 | |
| 113,382 | Ecwiti Cynaliadwy PPC | 113,894 | |
| 707,830 | Cronfa Gredyd y DU Partneriaeth Pensiwn Cymru | 726,573 | |
| 16,897 | Isadeiledd PPC (pen caeedig) | 36,218 | |
| 2,918 | Buddsoddiad Lleol PPC | 4,393 | |
| | Buddsoddiadau eraill wedi'u cyfuno | | |
| 539,630 | Giltiau Goddefol y DU | 533,740 | |
| 278,382 | Ecwitïau Goddefol | 290,592 | |
| 288,102 | Eiddo Cyfun | 298,387 | |
| 38,507 | Isadeiledd cyfun | 96,776 | |
| **4,680,405** | | | **4,743,208** |
| **33,977** | **Adneuon Arian parod** | | **38,193** |
| | **Balansau buddsoddi eraill** | | |
| 1,335 | Dyledwyr buddsoddi | 932 | |
| 638 | Treth mae modd Adennill | 487 | |
| **1,973** | | | **1,419** |
| **4,716,355** | | | **4,782,820** |
| | **Rhwymedigaethau** | | |
| **(4,506)** | Credydwyr buddsoddi | | **(56)** |
| **4,711,849** | **Asedau Buddsoddi Net** | | **4,782,764** |
| | **Asedau Cyfredol** | | |
| 7,334 | Cyfrandaliadau sy'n ddyledus oddi wrth gyflogwyr a gweithwyr | 7,598 | |
| 1,268 | Asedau eraill | 1,465 | |
| **8,602** | | | **9,063** |
| **(3,876)** | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **(6,430)** |
| **4,716,575** | **Cyfanswm yr asedau net sydd ar gael ar ddiwedd y cyfnod** | | **4,785,397** |

# **Nodiadau ar** Gyfrifon y Gronfa Bensiwn

## Cyflwyniad

**Rydyn ni wedi paratoi'r cyfrifon yma yn unol â gofynion Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2024/25 sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ar gyfer y sector cyhoeddus yn y DU.**

## Polisïau Cyfrifon Arwyddocaol

### CRONIADAU GWARIANT AC INCWM

**Lle mae hyn yn berthnasol, mae croniadau yn cael eu gwneud ar gyfer cyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr, incwm buddsoddi, buddion a dalwyd, costau gweinyddu, ffïoedd rheoli buddsoddi a ffïoedd ymgynghorwyr.**

Rhoddir cyfrif am werthoedd trosglwyddo ar sail arian parod, ac eithrio trosglwyddiadau grŵp perthnasol, y rhoddir cyfrif amdanyn nhw yn ystod blwyddyn y dyddiad trosglwyddo neu'r flwyddyn y mae'r actiwari yn prisio'r trosglwyddiad, os yw'n hwyrach.

### PRISIO BUDDSODDIADAU OFFERYNNAU ARIANNOL

**O ran "Gwerth Teg", mae gan bob buddsoddiad amcanbrisiau mewn marchnadoedd gweithredol, ac eithrio Cyfryngau Buddsoddi Cyfun a reolir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru a Chronfeydd Eiddo Cyfun.**

Mae gwariannau rhestredig wedi'u prisio yn ôl IAS 39, gan ddefnyddio prisiau canol y farchnad o Farchnadoedd Stoc cydnabyddedig ar 31 Mawrth 2025.

Mae prisiau Sterling mewn perthynas â gwariannau sy'n cael eu henwi mewn arian tramor wedi'u seilio ar gyfraddau cyfnewid ar 31 Mawrth 2025.

Mae Cyfryngau Buddsoddi Cyfun a reolir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn cael eu prisio gan ddefnyddio gwerthoedd asedau net a ddarperir gan Waystone, gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru. Adroddir am y rhain ar y pris sengl wrth gau.

Mae cronfeydd o fuddsoddiadau eiddo yn cael eu prisio drwy dechnegau prisio dibynadwy i bennu 'Gwerth Teg'. Mae pris buddsoddiadau mewn eiddo yn seiliedig ar brisiadau annibynnol proffesiynol. Does dim angen dyfarniadau na thybiaethau sylweddol ar unrhyw ased er mwyn pennu 'Gwerth Teg'.

### COSTAU PRYNU A GWERTHU

**Mae costau trafodion buddsoddiadau wedi'u cynnwys yn rhan o gostau o brynu neu wedi'u cynnwys yn rhan o wir elw/colledion gwerthiannau, yn unol â'r hyn sy'n addas.**

Mae costau trafodion yn cynnwys ffïoedd, comisiynau a thollau. Costau'r trafodion yn 2024/25 oedd £5.96 miliwn (£1.78 miliwn yn 2023/24).

Yn ogystal â'r costau uniongyrchol sy wedi'u nodi uchod, mae costau anuniongyrchol sy'n codi trwy gynnig pris ar fuddsoddiadau sy'n rhan o gronfeydd buddsoddi yn gymwys. Dydy'r cynllun ddim yn cael gwybodaeth am gostau anuniongyrchol ar wahân.

### TRETHU

**Ac yntau'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig, mae'r gronfa bensiwn wedi'i heithrio rhag talu treth incwm a threth ar enillion cyfalaf yn unol â threfniadau'r DU. Ac eithrio'r achosion hynny lle mae caniatâd rhag talu treth wedi'i roi, mae'n rhaid talu treth sy'n cael ei chadw'n ôl ar incwm mewn gwledydd tramor yn y wlad mae'n deillio ohoni.**

Rydyn ni'n cyfri'r dreth nad oes modd ei hadennill yn wariant yng Nghyfrif y Gronfa, a chaiff unrhyw dreth y mae modd ei hadennill ei dangos fel Ased yn y Datganiad o'r Gwir Asedau.

Mae atebolrwydd bychan o ran treth incwm ar ad-daliadau cyfraniadau a phensiynau cyfwerth (pensiynau bach wedi'u trosi i gyfandaliadau). Mae'r taliadau yma'n cael eu talu i adran Cyllid a Thollau ei Fawrhydi bob 3 mis.

Mae modd adennill TAW ar bob gweithrediad, felly mae'r cyfrifon wedi'u cyflwyno heb gynnwys TAW.

# Datganiad o Gyfrifoldebau
## ar gyfer Cyfrifon y Gronfa Bensiwn

## Cyfrifoldebau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Mae'n ofynnol i'r Cyngor:**

- Wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol y Gronfa Bensiwn yn briodol a sicrhau bod un o'i Swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor, y Swyddog hwnnw yw'r Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cyfadran Adnoddau Corfforaethol.
- Rheoli materion y Gronfa Bensiwn i sicrhau defnydd economaidd effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo cyfrifon y Gronfa Bensiwn.

**Rwy'n cadarnhau bod y cyfrifon yma wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor ar:**

Llofnod:  Dyddiad: 26 Tachwedd 2025

**Y Llywydd**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Llawr 4, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf, Pontypridd CF37 4TH

## Cyfrifoldebau'r Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Cyfadran Adnoddau Corfforaethol

**Cyfrifoldebau**

Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Cyfadran Adnoddau Corfforaethol yn gyfrifol am baratoi Cyfrifon y Gronfa Bensiwn. O ran Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, mae'n ofynnol iddo gyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Gronfa Bensiwn ar ddyddiad y cyfrifyddu a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.

**Wrth baratoi Cyfrifon y Gronfa Bensiwn, mae'r Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Cyfadran Adnoddau Corfforaethol wedi:**


- Dewis a dethol polisïau cyfrifyddu addas, a'u cymhwyso'n gyson.
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth.
- Cydymffurfio â'r cod yma.

**Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Cyfadran Adnoddau Corfforaethol hefyd trwy gydol y flwyddyn ariannol wedi:**

- Cynnal a chadw cofnodion cyfrifyddu priodol, a'u diweddaru'n gyson.
- Cymryd camau rhesymol i atal twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra, neu eu darganfod.

### Tystysgrif y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cyfadran Adnoddau Corfforaethol ar gyfrifon Cronfa Bensiwn Cyngor Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2024/25

Rwy'n tystio fod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar 31 Mawrth 2025 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.

Llofnod:  Dyddiad: 26 Tachwedd 2025

**Barrie Davies**
**Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Cyfadran Adnoddau Corfforaethol**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Llawr 4, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf, Pontypridd CF37 4TH

# Cyfraniadau

## Cyfraniadau'r Cyflogwyr

**Mae cyfraddau cyfrannu cyflogwyr yn cael eu pennu gan actiwari'r Gronfa er mwyn atal y gronfa rhag mynd i ddyled, gan ystyried rhwymedigaethau presennol a darpar rwymedigaethau.**

Gwneir prisiadau o asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa at y diben yma bob tair blynedd. Cafodd y prisiad diwethaf ei gynnal ym mis Mawrth 2022 a rhoddwyd y canlyniadau ar waith o 1 Ebrill 2023.

## Cyfraniadau'r Gweithwyr

**Mae graddfeydd cyfrannu gweithwyr bellach mewn haenau. Bydd y rhai, felly, sy'n ennill mwy o incwm yn rhoi cyfran uwch o'u cyflog i'r cynllun.**

Dyma'r bandiau ar gyfer blwyddyn 2024/2025:

| Cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) | Cyfradd Cyfraniadau |
|---|---|
| Hyd at £17,600 | **5.5%** |
| £17,601, hyd at £27,600 | **5.8%** |
| £27,601, hyd at £44,900 | **6.5%** |
| £44,901, hyd at £56,800 | **6.8%** |
| £56,801, hyd at £79,700 | **8.5%** |
| £79,701, hyd at £112,900 | **9.9%** |
| £112,901, hyd at £133,100 | **10.5%** |
| £133,101, hyd at £199,700 | **11.4%** |
| £199,701 neu fwy | **12.5%** |

O 1 Ebrill 2014, mae dewis 50/50 yn caniatáu i aelodau dalu hanner y cyfraniadau a ddangosir uchod, a chronni pensiwn sydd hanner y raddfa arferol.

## Cyfraniadau i'w Derbyn a Buddion i'w Talu

Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfraniadau a dderbyniwyd a'r buddion a dalwyd:

| Math o Gorff | Cyfraniadau gan Aelodau | | Cyfraniadau gan y Cyflogwyr | | Pensiynau, Cyfandaliadau a Buddion Marwolaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 |
| Gweinyddu | 11,977 | 12,251 | 36,186 | 37,139 | 50,402 | 56,188 |
| Derbyniedig | 4,595 | 4,987 | 17,103 | 17,892 | 20,679 | 22,926 |
| Cofrestredig | 20,397 | 21,369 | 58,030 | 61,154 | 95,624 | 110,115 |
| **Cyfanswm** | **36,969** | **38,607** | **111,319** | **116,185** | **166,705** | **189,229** |

## Cyfraniadau a Dderbyniwyd gan Gyflogwyr

| Cyfraniadau a Dderbyniwyd | GWEITHIWR (£) | CYFLOGWR (£) | Graddfa Cyfraniad (%) |
|---|---|---|---|
| Abacaredig Holdings Ltd | 6,000.95 | 19,769.69 | 18.70 |
| Agored Cymru | 2,851.77 | 13,797.87 | 31.70 |
| Amgen Cymru (Cynon) | 102,248.55 | 304,783.36 | 18.70 |
| Atlas FM Ltd | 553.95 | 1,883.45 | 18.70 |
| Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen | 78,197.60 | 144,244.91 | 13.30 |
| Cyngor Cymuned Bedlinog | 634.76 | 2,300.02 | 19.90 |
| Cyngor Cymuned Bracla | 4,207.03 | 12,574.79 | 17.70 |
| Coleg Pen-y-bont ar Ogwr | 574,769.77 | 1,572,984.56 | 17.10 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 6,748,522.80 | 21,304,513.04 | 19.40 |
| Care Cymru Services | 9,524.98 | 31,560.52 | 18.70 |

Mae'r tabl yn parhau dros y dudalen...

Mae'r tabl yn parhau o'r dudalen flaenorol

| Cyfraniadau a Dderbyniwyd | GWEITHIWR (£) | CYFLOGWR (£) | Graddfa Cyfraniad (%) |
|---|---|---|---|
| Gyrfa Cymru – Morgannwg Ganol a Phowys Cyf. | 184,891.69 | 890,928.08 | 31.50 |
| Cymdeithas Gyrfa Cymru | 2,354.48 | 0.00 | 0.00 |
| Cartrefi Cymru Co-Operative Ltd | 23,559.63 | 75,961.53 | 18.70 |
| CCR Energy Ltd | 10,501.42 | 27,523.92 | 18.70 |
| Consortiwm Canolbarth y De | 389,555.20 | 356,266.28 | 7.50 |
| Prif Gwnstabl De Cymru | 6,234,306.21 | 15,799,609.94 | 16.40 |
| Cyngor Cymuned Coety Uchaf | 2,031.84 | 5,071.68 | 20.20 |
| Coleg y Cymoedd | 737,549.67 | 2,253,932.38 | 19.20 |
| Compass Contract Services (Cymoedd) Ltd | 4,237.80 | 0.00 | 0.00 |
| Cyngor Cymuned Corneli | 2,308.92 | 7,530.54 | 21.20 |
| Cydbwyllgor Amlosgfa Llangrallo | 16,588.00 | 45,228.95 | 16.80 |
| Cynefin Care Ltd | 4,053.62 | 13,564.00 | 18.70 |
| DBW FM Ltd | 233,667.93 | 740,271.54 | 31.90 |
| Banc Datblygu Cymru | 43,356.75 | 154,340.22 | 28.80 |
| Drive Ltd | 5,964.48 | 0.00 | 0.00 |
| Drive Ltd (RhCT) | 9,182.95 | 33,278.43 | 18.70 |
| Cyngor Cymuned Cwm Garw | 2,226.65 | 7,537.21 | 19.20 |
| Cyngor Cymuned Gelligaer | 1,367.53 | 2,923.71 | 12.40 |
| GP Homecare sy'n masnachu dan yr enw Radis | 6,085.58 | 20,143.44 | 18.70 |
| Halo Leisure Services Ltd | 45,594.58 | 0.00 | 0.00 |
| Halo Leisure Services Ltd (Merthyr Tudful) | 41497.29 | 152,377.80 | 21.80 |
| Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn | 2,594.09 | 8,068.52 | 19.80 |
| Innovate Trust Ltd | 24,388.42 | 72,427.61 | 18.70 |
| Cyngor Cymuned Trelales | 4,553.21 | 14,884.31 | 19.50 |
| Little Inspirations Ltd | 3,160.2 | 10,383.48 | 18.70 |
| Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol | 722.23 | 3,067.95 | 19.50 |
| Cyngor Cymuned Llanharan | 4,322.22 | 15,638.24 | 19.90 |
| Cyngor Cymuned Llantrisant | 7,728.57 | 23,451.21 | 18.20 |
| Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref | 8,421.89 | 23,555.55 | 17.20 |
| Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed | 3,125.03 | 8,081.90 | 15.00 |
| Uned Ddata Llywodraeth Leol | 69,444.68 | 56,438.03 | 5.70 |
| Cyngor Tref Maes-teg | 4,931.32 | 12,475.60 | 15.30 |
| Sefydliad i'r Deillion Merthyr Tudful | 11,345.33 | 41,333.44 | 29.80 |
| Cartrefi Cymoedd Merthyr | 187,128.58 | 506,112.44 | 17.00 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 3,163,580.34 | 11,138,068.59 | 21.80 |
| Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful | 0.00 | 0.00 | 16.60 |
| Cartrefi Cymoedd Merthyr | 564,448.36 | 943,592.06 | 11.10 |
| Mrs Bucket Commercial Cleaning | 1,473.74 | 11,628.21 | 43.40 |
| Plan B Management Solutions | 9,248.42 | 27,498.26 | 19.40 |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu | 168,143.16 | 393,361.57 | 16.40 |
| Cyngor Cymuned Pont-y-clun | 6,332.32 | 19,228.38 | 18.10 |
| Cyngor Tref Pontypridd | 25,372.77 | 73,186.28 | 17.70 |
| Cyngor Cymunedol y Pîl | 2,491.94 | 8,127.51 | 21.20 |
| Q Care Ltd | 3,589.84 | 10,762.22 | 18.70 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 12,250,531.33 | 37,138,826.78 | 18.70 |
| Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru | 165,854.48 | 389,845.65 | 17.00 |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | 665,128.59 | 2,262,283.67 | 23.50 |
| Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru | 177,150.01 | 418,021.27 | 18.70 |
| Awdurdod Tân De Cymru | 722,239.32 | 1,726,247.61 | 16.00 |
| Tribiwnlys Prisio De Cymru | 6,863.19 | 16,577.05 | 15.70 |
| Cyngor Cymuned Llansantffraid | 698.66 | 2,591.32 | 20.40 |
| Partneriaeth Fern | 719.47 | 2,765.89 | 18.70 |
| Cyngor Cymuned Tonyrefail | 10,424.72 | 28,629.47 | 16.60 |
| Trivallis | 989,943.13 | 2,387,311.54 | 16.20 |
| Prifysgol De Cymru | 1,889,087.16 | 4,678,079.50 | 17.00 |
| Valleys to Coast Housing | 34,600.31 | 124,808.77 | 22.70 |
| Llywodraeth Cymru | 697,327.36 | 3,689,765.54 | 36.30 |
| CBAC | 1,162,303.18 | 5,900,359.31 | 36.20 |
| WSP Glamorgan Consultancy Ltd | 28,310.54 | 0.00 | 0.00 |
| Cyngor Cymuned Ynysawdre | 694.28 | 2,612.90 | 20.70 |
| | **38,606,816.77** | **116,184,999.49** | |

## Cyfraniadau a Dderbyniwyd gan Gyflogwyr

Derbyniwyd llai na 0.5%, mewn termau ariannol, yn hwyr. Cafodd cyfraniadau eu derbyn yn hwyr 26 o weithiau.

Mae'r cyfraniadau a dderbynnir yn cael eu monitro'n fisol a chysylltir â chyflogwyr os na chaiff y terfynau amser statudol eu cyflawni.

# Treuliau Rheoli'r Buddsoddiadau

Dyma'r treuliau rheoli a wynebodd y Gronfa Bensiwn yn 2024/25:

| | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| **Costau Gweinyddu** | 2,689 | 2,799 |
| **Treuliau Rheoli'r Buddsoddiadau** | 11,546 | 17,682 |
| **Costau Goruchwylio a Llywodraethu** | 410 | 562 |
| **CYFANSWM** | **14,645** | **21,043** |

Mae treuliau rheoli'r buddsoddiadau yn cyfateb i 0.37% (0.25% yn 2023/24) o werth y Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2025.

Mae Ffioedd Archwilio 2024/25 sef £50,000 wedi'u cynnwys yn y Costau Goruchwylio a Llywodraethu (£54,000 yn 2023/24).

**Mae treuliau rheoli'r buddsoddiadau a wynebodd y Gronfa yn 2024/25 wedi'u nodi isod gan gynnwys nodyn cymharol ar gyfer 2022/23:**

| | 2024/25 | | | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfan-swm | Treuliau Rheoli | Costau Trafodion | Cyfan-swm | Treuliau Rheoli | Costau Trafodion |
| **2024/25** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Ecwitïau** | 962 | 829 | 133 | 1,539 | 1,179 | 360 |
| **Buddsoddiadau wedi'u cyfuno** | | | | | | |
| Ecwitïau Byd-eang PPC | 8,278 | 7,006 | 1,272 | 7,391 | 6,100 | 1,291 |
| Ecwiti Cynaliadwy PPC | 544 | 380 | 164 | 644 | 160 | 484 |
| Cronfa Gredyd y DU PPC | 764 | 605 | 159 | 602 | 460 | 142 |
| Isadeiledd PPC (pen caeedig) | 1,492 | 515 | 977 | 64 | 56 | 8 |
| Buddsoddiad Lleol PPC | 92 | 66 | 26 | 90 | 65 | 25 |
| **Buddsoddiadau eraill wedi'u cyfuno** | | 0 | 0 | | | |
| Giltiau'r DU | 27 | 27 | 0 | 23 | 23 | 0 |
| Ecwitïau Goddefol | 30 | 30 | 0 | 25 | 25 | 0 |
| Buddsoddiadau wedi'u cyfuno – eiddo | 473 | 468 | 5 | 506 | 481 | 25 |
| Isadeiledd wedi'u cyfuno | 4,540 | 654 | 3,886 | 242 | 224 | 18 |
| | **17,202** | **10,580** | **6,622** | **11,126** | **8,773** | **2,353** |
| **Ffïoedd Ceidwaid** | 480 | | | 420 | | |
| **Cyfanswm** | **17,682** | | | **11,546** | | |

Dydy'r Gronfa ddim yn talu unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig â chyflawniad.

**Mae'r treuliau rheoli sydd wedi'u nodi uchod yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â chyfraniad y Cyngor yn rhan o drefniadau cronni buddsoddiadau cyfunol PPC, yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi isod:**

| | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|
| **Costau Goruchwylio a Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru** | | |
| Costau cynnal | 171 | 343 |
| **Treuliau Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru** | | |
| Ffioedd Rheolwyr y Gronfa | 7,306 | 9,206 |
| Costau Trafodion | 1,382 | 1,963 |
| Ffïoedd Ceidwaid | 386 | 439 |
| **CYFANSWM** | **9,245** | **11,951** |

Y costau goruchwylio a llywodraethu yw costau rhedeg blynyddol y gronfa, sy'n cynnwys costau'r Awdurdod Lletyol a chostau ymgynghorwyr allanol eraill. Ariennir y costau yma'n gyfartal gan bob un o'r wyth Cronfa Bensiwn Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae'r holl gostau eraill, gan gynnwys rheoli treuliau buddsoddiadau yn ffioedd sy'n daladwy i Waystone (gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru) ac maen nhw'n cynnwys ffioedd rheoli'r gronfa, costau trafodion (sydd hefyd yn cynnwys ffi'r gweithredwr) a ffioedd ceidwaid. Mae'r costau yma'n seiliedig ar gyfran ganrannol pob Cronfa o asedau cyfun Partneriaeth Pensiwn Cymru ac fe'u tynnir o'r Gwerth Asedau Net.

## Trafodion â Phartïon Perthynol

**Wrth gyflawni'i swyddogaeth ac yntau'n Awdurdod Gweinyddu i'r Gronfa, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi darparu gwasanaethau i'r Gronfa gan godi £2 miliwn (£2 miliwn yn 2023/24). Mae'r costau yma'n ymwneud yn bennaf â'r staff hynny a gyflogir i sicrhau bod y gwasanaeth pensiwn yn cael ei ddarparu.**

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd cyfraniadau a oedd yn ddyledus oddi wrth Gyrff Cyflogi gwerth £7.6 miliwn (£7.3 miliwn yn 2023/24). Roedd £5.7 miliwn yn gyfraniadau cyflogwyr, a £1.9 miliwn yn gyfraniadau gweithwyr.

Mae rhai aelodau o Banel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn, Bwrdd y Gronfa Bensiwn a Phwyllgor y Gronfa Bensiwn hefyd yn aelodau o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf.

Mae gweinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn swyddogaeth i'r Cyngor llawn, gyda chyfrifoldeb am benderfyniadau beunyddiol yn cael ei ddirprwyo i'r Dirprwy Brifweithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran - Adnoddau Corfforaethol. Yn hyn o beth, mae'n ofynnol i ddeiliaid y swyddi ddatgan unrhyw fuddiannau gyda phartïon cysylltiedig. Mae modd gweld y datgeliad yn Natganiad Cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae gofyn i aelodau'r pwyllgor ac uwch swyddogion sy'n cynghori'r pwyllgor ddatgan eu buddiant ym mhob cyfarfod.

- **Datgelir tâl swyddogion a lwfansau Aelodau yn Natganiad Cyfrifon Rhondda Cynon Taf ac mae modd eu gweld drwy glicio ar y ddolen ganly:**
  **www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/PerformanceBudgetsandSpending/StatementofAccounts.aspx**

## Atebolrwydd Dibynnol

Mae atebolrwydd dibynnol gwerth £1.676 miliwn (£1.245 miliwn yn 2023/24) ar gyfer cyfraniadau y mae modd eu had-dalu i weithwyr sydd wedi gadael ac sydd heb hawlio ad-daliadau.

# **Barn yr** Archwilydd

## Datganiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar yr Adroddiad Blynyddol

**Rydw i wedi archwilio cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 2024-25. Rydw i wedi gwneud yr archwiliad yma er mwyn cadarnhau bod y cyfrifon yn gyson â chyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon a gafodd ei baratoi gan Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025. Cafodd cymeradwyaeth ei rhoi i'w gyhoeddi ar 26 Tachwedd 2025. Mae cyfrifon y gronfa bensiwn yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Gwir Asedau.**

## Barn

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn gyson â chyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau perthynol hynny sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon a baratôdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2025. Cafodd y dogfennau yma'u cymeradwyo ar gyfer eu cyhoeddi ar 26 Tachwedd 2025, ac fe gyflwynais farn ddiamod arnyn nhw.

Dydw i ddim wedi ystyried effeithiau unrhyw drafodion rhwng dyddiad cyhoeddi fy marn ar gyfrifon y gronfa bensiwn wedi'u cynnwys yn Natganiad Cyfrifon y gronfa bensiwn, 28 Tachwedd 2025 a dyddiad y datganiad yma.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod sy'n Gweinyddu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Yr Awdurdod Gweinyddu, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Fy nghyfrifoldeb i yw adrodd a yw cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau perthynol sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson yn fy marn i â chyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau perthynol sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn. Yn ogystal â hynny, darllenais i'r wybodaeth ategol sydd i'w chael yn yr Adroddiad Blynyddol, gan roi ystyriaeth i'r goblygiadau ar gyfer fy adroddiad innau pe bawn i'n dod ar draws unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o ran cyfrifon y gronfa bensiwn. Mae'r wybodaeth ategol yma'n cynnwys Rhagair y Cadeirydd, Cyflwyniad, Crynodeb, Adroddiad ar Faterion Gweinyddu, Adroddiad ar Faterion Buddsoddiadau, Adroddiad yr Actiwari, Adroddiad ar Faterion Cyfathrebu a Threfnau Llywodraethu Pensiynau.



**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
28 Tachwedd 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

- Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a chywirdeb gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; dydy'r gwaith sydd wedi ei wneud gan archwilwyr ddim yn cynnwys ystyried y materion yma ac yn unol â hynny dydy archwilwyr ddim yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddyn nhw gael eu cyflwyno ar y wefan i ddechrau.

Gan
Aon Solutions UK Limited

# Adroddiad yr **Actiwari**

## Cyflwyniad

**Mae'r Datganiad yma wedi cael ei baratoi yn unol â Rheoliad 57(1)(d) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (Diwygio) ('y Rheoliadau CPLlL').**

Yn unol â Rheoliadau CPLlL, mae gofyn bod prisiad llawn gan yr Actwari yn cael ei gynnal bob 3 blynedd. Diben y prisiad ydy cadarnhau bod Cronfa Bensiwn Cyngor Rhondda Cynon Taf (y 'Gronfa') yn bodloni gofynion ei gyfrifoldebau ariannol i'r cyfranwyr presennol a chyfranwyr y gorffennol ac adolygu cyfradd gyfrannu'r cyflogwyr. Cynhaliwyd yr ymchwiliad actwari llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2022 gan Aon yn unol â Rheoliad 62 o'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## Sefyllfa Actiwaraidd

1 **Yn ôl prisiad 31 Mawrth 2022, roedd lefel cyllido'r Gronfa wedi cynyddu ers y prisiad blaenorol gyda gwerth marchnad asedau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2022 (£4,512.1 miliwn) yn cwmpasu 105% o'r rhwymedigaethau.**

2 **Roedd y prisiad hefyd yn asesu sefyllfa pob cyflogwr unigol (neu grŵp o gyflogwyr) ar wahân. Penderfynwyd ar ofynion cyfraniadau yn seiliedig ar yr egwyddorion yn Natganiad Strategaeth Gyllido'r Gronfa ac maen nhw wedi'u nodi yn adroddiad Aon sy'n ddyddiedig 31 Mawrth 2023 (yr "adroddiad prisiad actiwaraidd").**

Yn ogystal â'r cyfraniadau wedi'u hardystio, bydd cyflogwyr yn gwneud taliadau i ddarparu ar gyfer ymrwymiadau ychwanegol sy'n deillio o ymddeoliadau cynnar (ac eithrio ymddeoliadau yn sgil salwch) i'r Gronfa.

Dyma amcangyfrif o gyfanswm pob cyfraniad gan bob gweithiwr dros y tair blynedd cyn 31 Mawrth 2026:

| Blwyddyn o 1 Ebrill | % y tâl pensiynadwy | Ynghyd â chyfanswm y cyfraniad (£ miliwn) |
|---|---|---|
| **2023** | 19.1% | 0.906 |
| **2024** | 19.1% | 0.938 |
| **2025** | 19.1% | 0.971 |

3 **Cafodd y cynllun ariannu ar gyfer asesu cyfraniadau cyflogwyr ei fabwysiadu'n unol â'r Datganiad Strategaeth Ariannu.**

Mabwysiadwyd gwahanol ddulliau mewn perthynas â chyfrifo'r gyfradd gyfrannu sylfaenol, newid y cyfraniadau mewn camau a chyfnodau adfer / amorteiddiad cyflogwyr unigol fel y cytunwyd gyda'r Awdurdod Gweinyddu ac a adlewyrchir yn y Datganiad Strategaeth Ariannu, gan adlewyrchu amgylchiadau'r cyflogwyr.

**4** **Cyflawnwyd y prisiad gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol actiwaraidd ar gyfer y rhan fwyaf o gyflogwyr, gan ganiatáu ar gyfer cynnydd mewn tâl pensiynadwy yn y dyfodol**

Dyma'r prif dybiaethau ariannol a gafodd eu defnyddio i asesu'r targed ariannu a'r cyfraddau cyfrannu:

| **Graddfa disgownt am gyfnodau yn gwasanaethu** | |
|---|---|
| **Targed cyllid - Corff sy wedi'i restru*** | 4.30% p.a. |
| **Targed cyllido interim** | 3.90% p.a. |
| **Cyflogwyr amddifad parhaus** | 3.90% p.a. |
| **Graddfa disgownt am gyfnodau wedi gadael gwasanaeth** | |
| **Targed cyllid - Corff sy wedi'i restru*** | 4.30% p.a |
| **Targed cyllido interim** | 3.80% p.a. |
| **Cyflogwyr amddifad parhaus** | 1.30% p.a. |
| **Graddfa cynnydd cyflog** | 3.55% p.a. |
| **Graddfa'r cynnydd mewn cyfrifon pensiynau**** | 2.30% p.a |
| **Graddfa'r cynnydd ynghylch pensiynau sy'n cael eu talu ** (yn fwy nag Isafswm Pensiwn Gwarantedig)** | 2.30% p.a. |

* Defnyddiwyd cyfradd ddisgownt y corff cofrestredig diogel ar gyfer cyflogwyr y bydd eu cyfrifoldebau ariannol yn cael eu gogynnwys ar ôl i gorff cofrestredig adael.

** Yn ogystal, mae cynnydd o 10% wedi'i gymhwyso i rwymedigaethau gwasanaeth y gorffennol ar y corff a restrwyd a thargedau ariannu canolraddol ar gyfer ildio i ganiatáu ar gyfer chwyddiant tymor byr uwchlaw'r dybiaeth hirdymor.

Tybiwyd bod y gyfradd ddisgownt a chyfradd y cynnydd mewn pensiynau ar gyfer rhwymedigaethau sydd eisoes yn amddifad (h.y. lle nad oes cyflogwr cynllun sy'n gyfrifol am ariannu'r rhwymedigaethau hynny ac mae'r cyflogwr wedi gadael y Gronfa) yn 1.7% y flwyddyn a 3.4% y flwyddyn yn y drefn honno.

Cafodd yr asedau eu prisio yn unol â gwerth y farchnad.

**5** **Y rhagdybiaeth ddemograffig allweddol oedd y lwfans a wnaed ar gyfer hirhoedledd. Roedd y rhagdybiaeth marwolaeth ar ôl ymddeol a fabwysiadwyd ar gyfer y prisiad actiwaraidd yn seiliedig ar dablau marwolaethau trwm S3 safonol y cynllun pensiwn hunan-weinyddedig gyda ffactorau graddio priodol yn seiliedig ar ddadansoddiad o brofiad marwolaeth pensiynwr y Gronfa a dadansoddiad cod post aelodaeth o'r Gronfa gan ddefnyddio model hirhoedledd demograffig HorizonsTM Aon.**

Mae'r rhagdybiaeth yn cynnwys lwfans ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol yn seiliedig ar Fodel Rhagamcaniadau wedi'i Ryddhau gan Astudiaeth Barhaus o Farwolaethau 2021, gyda chyfradd welliant blynyddol tymor hir mewn cyfraddau marwolaeth o 1.5% y flwyddyn.

**Canlyniad disgwyliadau oes cyfartalog i bobl 65 oed (sy'n ymddeol tra'u bod nhw mewn iechyd da) oedd:**

| | **Dynion** | **Menywod** |
|---|---|---|
| **Pensiynwyr presennol sy'n 65 oed ar y dyddiad prisio** | 21.5% | 24.1% |
| **Aelodau gweithredol presennol 45 oed ar y dyddiad prisio** | 22.8% | 25.6% |

Mae rhagor o fanylion am y rhagdybiaethau hynny a'u mabwysiadwyd ar gyfer y prisiad wedi'u pennu yn adroddiad prisiad yr actwari.

**6** **Mae canlyniadau'r prisiad (mae crynodeb ohonyn nhw ym mharagraffau 1 a 2 uchod) wedi'u seilio ar y sefyllfa ariannol a phrisiau ar y farchnad fel yr oedden nhw ar ddyddiad y prisiad, 31 Mawrth 2022.**

Ac felly, dydy'r canlyniadau ddim yn rhoi ystyriaeth i unrhyw newidiadau sy wedi codi ar ôl dyddiad y prisiad. Mae'r Actiwari, ar y cyd â'r Awdurdod Gweinyddu yn monitro'r sefyllfa fuddsoddi yn rheolaidd.

**7** **Cafodd adroddiad prisio ffurfiol yr Actwari a'r dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau sy'n nodi cyfraddau cyfrannu'r cyflogwyr ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2026 eu cymeradwyo ar 31 Mawrth 2023.**

Bydd cyfraddau cyfrannu cyflogwyr yn cael eu hadolygu yn rhan o brisiad actiwaraidd nesaf y Gronfa ar 31 Mawrth 2025 yn unol â Rheoliad 62 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 oni bai fod y rhain wedi'u cytuno neu'u caniatáu neu'n ofynnol gan y Rheoliadau.

---

**8** **Actiwari'r gronfa, Aon, luniodd y datganiad yma i'w gynnwys yng nghyfrifon y Gronfa. Mae'n rhoi crynodeb o ganlyniadau prisiad yr actwari ar 31 Mawrth 2022.**

Mae'r prisiad yn rhoi cipolwg ar werth y gronfa adeg y prisiad ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer asesu cyfraddau'r cyfraniadau sydd eu hangen.

Darllenwch adroddiad ffurfiol y prisiad sy'n nodi manylion ynghylch y sefyllfa a'i chyfyngiadau yn llawn ochr yn ochr â'r datganiad yma.

Dydy Aon ddim yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros gorff arall heblaw am ein client ni, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, o ran y datganiad yma.

---

**9** **Mae adroddiad y prisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2022 ar gael ar wefan y Gronfa:**

➔ www.pensiynaurhct.org.uk/Cy/GovernanceAndInvestment/AnnualReports.aspx

**Aon Solutions UK Limited**
**Mehfin 2025**

**Uwch Reolwr y Garfan – Materion Digidol, Cyfathrebu a Llywodraethu**
Tim Jenkins



# Adroddiad ar **Faterion Cyfathrebu**

## Cyfarfodydd Blynyddol

**Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar gyfer 2024 ym mis Tachwedd. Roedd cynrychiolwyr ar ran cyflogwyr mwyaf y gronfa i gyd yn bresennol.**

Roedd y cyflwyniadau'n cynnwys diweddariad ar Gyflawniad y Gronfa Bensiwn a diweddariad Actiwaraidd.

## Desg Gymorth

**Mae'n desg gymorth ni yn parhau i roi cymorth ac ateb eich cwestiynau ar faterion pensiynau rhwng 9am a 5pm ddydd Llun i ddydd Gwener.**

Ffoniwch y Ddesg Gymorth ar

➔ 01443 680 611

## Gwefan

**Mae gwefan y Gronfa Bensiwn yn adnodd defnyddiol o ran ein strategaeth cyfathrebu ac yn rhoi'r modd i ni ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r Gronfa a'r CPLl ar gyfer ein haelodau presennol a rheiny'r dyfodol.**

Mae'n cynnwys gwybodaeth i aelodau presennol a blaenorol yn ogystal â phensiynwyr. Mae holl daflenni ffeithiau Cymru Gyfan, taflenni ffeithiau CLlL, ffurflenni a ddefnyddir yn aml a'n dogfennau llywodraethu wedi'u lanlwytho i'r wefan, yn ogystal â chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn Lleol.

Mae tudalen Rheoliad Cyffredinol ar Diogelu Data bwrpasol bellach ar y wefan. Mae'n cynnwys Datganiad Preifatrwydd a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y Gronfa.

Mae'r wefan yn cael ei hadolygu a'i diweddaru, pan gaiff newidiadau mewn deddfwriaeth eu rhoi ar waith.

Mae'r Ddesg Gymorth yn cyfeirio aelodau at y wefan yn rheolaidd i lawrlwytho ffurflenni neu i gael gwybodaeth.

Ar wefan RhCT, mae adran benodol ar gyfer Cyflogwyr y Gronfa ac mae gan aelodau perthnasol o staff eu manylion mewngofnodi unigryw eu hunain. Mae'r adran yma'n cynnwys yr holl ffurfleni a dogfennau perthnasol y mae eu hangen i weinyddu buddion aelodau, e.e. ffurflenni dechreuwyr newydd, ffurflenni terfynu ac ati.

Ewch i:

➔ www.pensiynaurhct.org.uk

Erbyn hyn, mae modd i aelodau wylio fideos cymorth ar y wefan (www.lgpsmember.org), ar yr ap symudol, ac ar wefan Cronfa Bensiwn RhCT. Mae wyth fideo i gyd gyda fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael.

## Cyflwyniadau

**Mae'r Garfan Materion Cyfathrebu'n fodlon trefnu seminarau lle bo angen.**

Dyma gyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y cynllun a buddion, neu i addysgu gweithwyr am ofynion gweinyddu'r cynllun.

## Datganiadau Buddion Blynyddol

**Yn unol â'r rheoliadau, mae'r Gronfa'n anfon datganiadau buddion blynyddol at yr holl aelodau gweithredol a gohiriedig.**

Cafodd datganiadau 2024/25 eu cyflwyno o fewn y terfyn amser sy'n ofynnol yn unol â rheoliadau'r cynllun gan gydymffurfio â Chanllawiau Bwrdd Cynghori'r Cynllun.

## Ymweliadau â Chartrefi

Yn achos salwch difrifol, ac os yw'n briodol, bydd cynrychiolydd ar ran y Gwasanaeth Pensiynau yn dod i'ch gweld chi ar y cyd â chynrychiolydd o'r adran Adnoddau Dynol.

## Trefnau Cyfathrebu Electronig

**Mae Hunanwasanaeth Aelodau (Fy Mhensiwn Ar-lein) ar gael i holl aelodau gweithredol a gohiriedig a phensiynwr y Gronfa.**

Mae'r cyfleuster yn caniatáu i aelodau weld a newid rhai o'u manylion personol a gall aelodau gohiriedig a gweithredol redeg amcangyfrifon o fuddion pensiwn yn y dyfodol.

Byddwn ni'n parhau i annog aelodau i gyfathrebu â'r Adran Bensiynau yn electronig. Rydyn ni'n gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y data a gaiff eu hanfon a'u derbyn yn ddiogel.

Mae'r Gronfa bellach yn derbyn data misol yn electronig gan y rhan fwyaf o gyflogwyr sy'n golygu bod modd i aelodau uwchlwytho data a gwybodaeth yn uniongyrchol i'r meddalwedd bensiynau. Yn y dyfodol, bydd y cyfleuster yma ar gael i'r holl gyflogwyr.

## Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014

**Mae'r Garfan yn adolygu Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 yn barhaus. Cafodd y rheoliadau yma eu dwyn gerbron Senedd San Steffan ar 19 Medi 2013. Roedd y Rheoliadau'n rhoi manylion am strwythuro'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o 1 Ebrill 2014.**

- Mae'r buddion yn seiliedig ar Gyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio (CARE)
- Cyfradd gronni o 1/49
- Bydd diffiniad cyflog pensiynadwy yn cynnwys gwaith goramser nad yw'n rhan o gontract
- Cyflwyno opsiwn 50/50 lle caiff aelodau dalu llai o bensiwn am gyfnodau byr, a chronni hanner eu pensiwn arferol
- Bydd y sawl sy'n ennill cyflogau uwch yn cyfrannu mwy
- Bydd yr Oedran Pensiwn Arferol wedi'i gysylltu ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Bydd buddion aelodaeth o'r cynllun cyn mis Ebrill 2014 yn cadw'r cyswllt cyflog terfynol, a bydd cyflog terfynol (yn seiliedig ar ddiffiniad cyflog pensiynadwy cyn mis Ebrill 2014) yn cael ei bennu pan fydd aelodau'n gadael y cynllun.

Mae gwefan Cronfa Bensiwn RhCT yn cynnwys dolen i www.lgpsmember.org sydd wedi'i sefydlu a'i chynnal gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Ffynhonnell wybodaeth ganolog yw hi sy'n cynnwys amryw o gyfrifianellau mae modd i aelodau eu defnyddio.

Mae'r Garfan yn adolygu ein prosesau a'n gohebiaeth yn barhaus i sicrhau bod y Gronfa yn cydymffurfio â'r rheoliadau, bod y manylion a dderbyniwn gan gyflogwyr pan fydd aelodau'n ymuno â'r gronfa neu'n ei gadael yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen a bod ein haelodau'n deall yn llawn sut mae eu buddion yn cael eu cyfrifo. Rydyn ni'n parhau i gyfathrebu â'n cyflogwyr sy'n cyfrannu er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i'r CPLlL ac unrhyw newidiadau technegol perthnasol eraill.

## Cynnydd Costau Byw

**Caiff pensiynau sy'n daladwy i aelodau sy'n ymddeol ar sail salwch ac i wŷr/gwragedd/plant aelodau, eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), o 30 Medi y flwyddyn flaenorol.**

Cadarnheir y Cynnydd Pensiwn CPLlL yn ffurfiol gan Drysorlys Ei Fawrhydi ym mis Ionawr a'i dalu o ddydd Llun cyntaf pob blwyddyn dreth newydd.

Mae pensiynau sy'n daladwy i aelodau eraill sy'n 55 oed neu'n hŷn hefyd yn elwa ar brawfesur chwyddiant blynyddol.

Mae terfynu trefnau contractio allan wedi arwain at newidiadau o ran pwy sy'n gyfrifol am gynyddu pensiwn sy'n cynnwys Isafswm Pensiwn Gwarantedig (yn ymwneud ag aelodaeth hyd at 5 Ebrill 1997). Cyn 2016, yr Adran Gwaith a Phensiynau oedd yn darparu profion chwyddiant statudol (boed yn rhannol neu'n gyfan gwbl). Ers Ebrill 2016, mae'r Gronfa'n gyfrifol am y cynnydd pensiwn llawn ar unrhyw fuddion Isafswm Pensiwn Gwarantedig.

Y cynnydd yn 2024/25 oedd 1.7%.

# Llywodraethu'r **Gronfa Bensiwn**

**Rhaid i awdurdodau gweinyddu sicrhau bod trefniadau llywodraethu presennol yn cael eu cynnal a'u datblygu er mwyn helpu i ategu'r broses o ddod i benderfyniad.**

Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf wedi'u crynhoi a'u hegluro mewn sawl dogfen allweddol sy'n ymwneud â stiwardiaeth effeithiol y Gronfa.

- Datganiad Cydymffurfio Llywodraethu cyffredinol sy'n nodi safle'r Gronfa yn erbyn safonau arfer gorau'r Llywodraeth.
- Datganiad Polisi Llywodraethu sy'n cynnig trosolwg o'r strwythur llywodraethu, o'r broses dod i benderfyniad ac o ymrwymiadau cyflogwyr y cynllun.
- Ein bwriad yw sicrhau gwasanaeth cyfathrebu a gwybodaeth gynhwysfawr i'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan ac aelodau o'r cynllun pensiwn. Bwriwch olwg ar ein Datganiad Polisi Cyfathrebu i gael gwybod am y gwasanaethau.
- Strategaeth Gweinyddu Pensiynau sy'n bwriadu gwella effeithlonrwydd darpariaeth y safonau ansawdd cytûn a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol.
- Y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi sy'n dangos yn fanwl sut rydyn ni'n rheoli buddsoddiadau'r Gronfa.
- Datganiad Strategaeth Cyllido sy'n rhoi crynodeb o sut y byddwn ni'n ariannu ein rhwymedigaethau pensiwn a throsolwg o sut mae nodi, rheoli ac adolygu unrhyw risgiau i'r gronfa.

Mae'r dogfennau yma'n cael eu diweddaru'n flynyddol, ar wahân i'r Datganiad Strategaeth Cyllido sy'n cael ei adolygu bob tair blynedd. Mae'r fersiynau diweddaraf ar gael yn yr adran Llywodraethu a Buddsoddi ar y wefan bensiynau, neu, ffoniwch ein Desg Gymorth Pensiynau i ofyn am gopi.

Mae Adroddiad Prisio 2022 yn esbonio tybiaethau, data a chanlyniadau'r ymarfer prisio diwethaf. Mae'r ddogfen yma ar gael yn yr adran i weithwyr ar ein gwefan bensiynau.

# Bwrdd Pensiwn **Lleol**

**Yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, mae'n ofynnol i'r Gronfa Bensiwn (erbyn 1 Ebrill 2015) benodi Bwrdd Pensiwn Lleol i gynorthwyo Awdurdod Gweinyddu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yntau'n 'rheolwr cynllun' o ran:**

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Prif Reoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion sy'n cael eu pennu mewn perthynas â'r CPLlL gan y Rheoleiddiwr Pensiynau; a
- Sicrhau llywodraethu a gweinyddu effeithiol ac effeithlon o'r CPLlL gan y Rheolwr Cynllun.

## Aelodau o'r Bwrdd Pensiwn Lleol

**Mae'r Bwrdd Pensiynau yn cynnwys 4 aelod, sef dau gynrychiolydd sy'n gyflogwyr a dau gynrychiolydd sy'n aelodau:**

### Cynrychiolwyr sy'n gyflogwyr:

Sy'n gyfrifol am gynrychioli holl Gyflogwyr y Cynllun (Cyrff cofrestredig, dynodedig a derbyniedig)

- **Yr Athro Hugh Coombs (Cadeirydd)** Prifysgol De Cymru
- **Mr David Francis** Coleg Y Cymoedd

### Cynrychiolwyr sy'n aelodau:

Sy'n gyfrifol am gynrychioli holl Aelodau'r Cynllun (Aelodau Gweithredol, Gohiriedig a Phensiynwr)

- **Mr Rob Whiles** Pensiynwr
- **Mr Darren Griffiths**
  Aelod Gweithredol a chynrychiolydd undeb llafur Unsain

## Swyddogaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol

**Swyddogaeth graidd gyntaf y Bwrdd yw cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau, unrhyw ddeddfwriaeth eraill sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun, a'r gofynion sy'n cael eu gosod gan y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â'r Cynllun.**


O fewn y swyddogaethau yma, bydd y Bwrdd yn ystyried meysydd sy'n cynnwys y canlynol:

- Adolygu adroddiadau monitro cydymffurfiaeth yn rheolaidd a fydd yn cynnwys adroddiadau i'r Pwyllgor yn ogystal â phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud o dan y Rheoliadau gan y Pwyllgor.
- Adolygu prosesau a gweithdrefnau rheoli, gweinyddu a llywodraethu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r Rheoliadau, y ddeddfwriaeth berthnasol ac yn arbennig Cod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Ail swyddogaeth graidd y Bwrdd yw sicrhau llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun yn effeithiol ac yn effeithlon. O fewn y swyddogaeth yma, bydd y Bwrdd yn ystyried meysydd sy'n cynnwys y canlynol:

- Cynorthwyo ynghylch datblygu gwasanaethau gwell i gwsmeriaid.
- Monitro cyflawniad y gwaith gweinyddu, trefniadau llywodraethu a buddsoddi yn erbyn targedau a dangosyddion cyflawniad allweddol.
- Monitro adroddiadau archwilio mewnol ac allanol.
- Adolygu canlyniad adroddiadau a phrisiadau actiwaraidd.

# Newyddion gan y **Cadeirydd**



**Mae'r datganiad yma'n cynrychioli adolygiad o weithrediadau'r Bwrdd Pensiwn Lleol sy'n ymdrin â chyfnod yr Adroddiad Blynyddol yma. Yn unol â gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, swyddogaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddol i:**

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Prif Reoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL);
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a osodir mewn perthynas â'r CPLlL gan y Rheoleiddiwr Pensiwn; a
- Sicrhau bod y CPLlL yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol ac effeithlon gan Reolwr y Cynllun.

Does gan y Bwrdd Pensiwn Lleol ddim pwerau gwneud penderfyniadau.

Parhaodd y Bwrdd i gyfarfod yn rheolaidd yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Rhoddodd y cyfarfodydd yma gyfle i aelodau i ddefnyddio naill ai fformat hybrid neu i fynychu'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb traddodiadol. Roedd nifer o aelodau'r Bwrdd hefyd yn bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (ar-lein).

Fel mewn blynyddoedd ariannol blaenorol roedd holl gyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn yn cael eu cynnal ar sail cworwm. Cynhaliwyd y pedwar cyfarfod arferol o'r Bwrdd Pensiwn dros y flwyddyn ariannol berthnasol. Yn ogystal, fel sydd wedi dod yn arfer safonol, daeth y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn at ei gilydd ym mis Mawrth i drafod eitem bwysig ar yr agenda honno, sef adolygiad blynyddol o ddogfennau polisi strategol y Gronfa Bensiwn. Manteisiodd aelodau'r Bwrdd Pensiwn ar y cyfle i gyfrannu eu sylwadau mewn perthynas â'r dogfennau yma cyn cyfarfod y Pwyllgor Pensiynau. Drwy'r cyfarfod yma, mae'r Bwrdd felly'n gallu cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu ac adolygu nifer o ddogfennau strategaeth hanfodol ar gyfer y Gronfa.

Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar am y ffaith bod perthynas gadarnhaol yn parhau i fodoli rhwng Bwrdd a Phwyllgor y Gronfa Bensiwn.

Wrth gyflawni ei gylch gorchwyl o weithredu ei rolau goruchwylio a chraffu, mae'r Bwrdd Pensiwn yn adolygu ystod eang o weithgareddau'r Gronfa Bensiwn.

**Roedd yr eitemau rheolaidd ar yr agendâu yn cynnwys:**

- monitro ac adolygu llwyddiant buddsoddiadau, strategaethau a chostau cysylltiedig yng nghyd-destun rhwymedigaethau posibl y Gronfa o ran pensiynau yn y dyfodol;
- ystyried unrhyw achosion o dorri rheoliadau o dan y polisi torri rheolau yng nghyd-destun yr angen posibl i adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas ag achosion o'r fath (gan gynnwys materion seibr);
- archwiliad rheolaidd o'r gofrestr risg gyda'r Bwrdd yn gwneud awgrymiadau ar gyfer unrhyw ddiwygiadau y credir eu bod nhw'n angenrheidiol;
- trafodaeth am gyflawniad y swyddogaeth gweinyddu pensiynau gan gynnwys archwilio llif gwaith, ansawdd data, adnoddau ac ystadegau cyflawniad cysylltiedig;
- derbyn y newyddion diweddaraf ar gyflawniad, llywodraethu a mentrau newydd sy'n gysylltiedig â Phartneriaeth Pensiwn Cymru;
- trafodaeth am ddatblygiadau sy'n effeithio ar y CPLlL;
- cynnydd a wnaed ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLl) ;
- adolygiad o gynlluniau hyfforddi a datblygu a chyflawniadau'r Bwrdd Pensiwn a'r Pwyllgor Pensiynau mewn perthynas â'r mater yma, ac
- adolygiad o unrhyw adroddiadau archwilio mewnol ac allanol sy'n berthnasol i'r gronfa.

Mae'r Bwrdd yn talu sylw yn arbennig i fonitro cadw at derfynau amser perthnasol (e.e. dosbarthu'r Datganiadau Buddion Blynyddol erbyn y terfyn amser). Rhoddwyd gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau am un achos materol o dorri rheolau yn ystod y flwyddyn ond ni chymerodd y Rheoleiddiwr unrhyw gamau gweithredu o ganlyniad i ymateb a chamau gweithredu'r awdurdod gweinyddu. Yma, hoffai'r Bwrdd dalu teyrnged i'r ffordd y mae'r Gronfa yn cael ei gweinyddu. Yn ystod y flwyddyn nodwyd bod momentwm parhaus a ddangoswyd mewn blynyddoedd blaenorol o ran datblygu gweithdrefnau gweinyddol a llywodraethu wrth i'r amgylchedd pensiynau newid a datblygu'n gyflym o amgylch y Gronfa.

## Newyddion gan y **Cadeirydd**

Mae agendâu, enwau a rolau aelodau'r Bwrdd ynghyd â chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd ar gael ar wefan y Gronfa er tryloywder.

Fel yr amlinellir uchod, parhaodd agenda eleni ag arfer blynyddoedd blaenorol o fonitro cynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru. Roedd y gweithgaredd yma, yn ogystal â chymharu cynnydd y Bartneriaeth ag amcanion a therfynau amser diffiniedig, yn cynnwys eitemau pwysig fel monitro datblygiad y trefniadau llywodraethu. Mae'r trefniadau llywodraethu yma'n parhau i esblygu (a byddan nhw'n parhau i esblygu yn y dyfodol). Bu nifer o ddatblygiadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn hyn o beth. Bydd y trefniadau yma'n bendant yn parhau i ddatblygu.

Parhaodd holl gadeiryddion byrddau pensiwn Cymru i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn gyda chynrychiolwyr swyddogion PPC a'i chynghorwyr allanol yn ystod 2024/25. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnig persbectif Cymru gyfan o ran llywodraethu cronfeydd pensiwn a llwyddiant buddsoddiadau'r Gronfa.

Yn ogystal, mae cynrychiolydd aelodau PPC, sy'n mynychu'r Cydbwyllgor Llywodraethu, yn adrodd yn ôl ar y materion yma yn ystod cyfarfodydd y Cadeiryddion gan roi cyfle i gael adborth uniongyrchol ar weithrediad y Cydbwyllgor Llywodraethu. Mae'r fforwm yma'n helpu i feithrin cydberthnasau gwaith da rhwng cadeiryddion byrddau, yr awdurdod lletyol a'r Gronfa gan helpu i gryfhau trefniadau llywodraethu cronfeydd pensiwn Cymru yn gyffredinol. Rhoddir adborth i Fwrdd Pensiwn RhCT ar ganlyniadau'r cyfarfodydd yma, sy'n cael eu cynnal bob chwe mis.

Mynychodd aelodau'r Bwrdd Pensiwn hyfforddiant rheolaidd yn fewnol ac yn allanol. Mae hyfforddiant ar-lein Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cael derbyniad arbennig o dda ledled Cymru gyda nifer o bobl yn eu mynychu. Bwriad pob sesiwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cynadleddwyr am ddatblygiadau yn yr hyn sy'n dod yn faes cynyddol gymhleth a heriol. Ymgymerir â hyfforddiant ad hoc arall gyda darparwyr allanol yn ôl yr angen. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn amlwg yn bwysig, ac mae disgwyl i'r gofynion yma gynyddu â threigl amser wrth i'r Rheoleiddiwr Pensiynau ddatblygu gofynion llywodraethu'r cronfeydd ymhellach. Cedwir cofnod cyflawn o'r holl hyfforddiant ar gyfer pob aelod a chaiff ei drafod ym mhob cyfarfod Bwrdd Pensiwn. Yn ogystal â hyn, mae gweithdrefnau hyfforddi yn eu lle i raeadru deilliannau hyfforddiant o'r fath i holl aelodau'r Bwrdd ac, os yw'n briodol, o fewn yr Awdurdod Gweinyddu.


Cynhaliwyd nifer o fentrau arwyddocaol sy'n berthnasol i'r Bwrdd, sydd hefyd yn effeithio ar weinyddiaeth y cynllun, yn 2024/25, neu fe'u parhawyd o flynyddoedd blaenorol. Er mwyn rhoi rhywfaint o gyd-destun ar waith y Bwrdd, mae rhai manylion am y mentrau yma wedi'u nodi isod:-

- Cyhoeddoedd y Rheoleiddiwr Pensiynau'r cod ymarfer cyffredinol (sengl) terfynol diwygiedig sy'n ymdrin â threfniadau llywodraethu a gweinyddu o ran cronfeydd pensiwn. Daeth y Cod yma i rym ym mis Mawrth 2024. Sefydlwyd proses asesu risg fanwl ar gyfer llywodraethu'r gronfa yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi yn y cod yn 2024/25. Bydd y dadansoddiad helaeth yma'n cael ei gwblhau yn 2025/26;
- Mae rhwymedi McCloud wedi creu llawer o waith ar gyfer y garfan weinyddu, a hynny gan ystyried cymhlethdod y dasg. Bydd hyn hefyd yn parhau yn 2025/26. Mae adroddiad archwilio mewnol ar y gwaith a wnaed hyd yma wedi rhoi sicrwydd sylweddol ynghylch y prosesau sy'n cael eu dilyn;
- Mae'r Rhaglen Dangosfwrdd Pensiynau, sydd â'r nod o roi mynediad i unigolion at wybodaeth am eu pensiynau er mwyn rheoli'r pensiynau hynny'n well, wedi rhoi pwysau ar adnoddau gweinyddol. Fodd bynnag, hyd yn hyn, mae digwyl y bydd y rhaglen yn bodloni'r targedau angenrheidiol yn 2025 a thu hwnt; ac yn olaf,
- Aeth y Bwrdd ati i ystyried ymgynghoriad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Lloegr a Chymru) - Parod at y Dyfodol. Mae ganddo oblygiadau sylweddol iawn ar gyfer rheoli gweithgareddau buddsoddi holl gronfeydd pensiwn Cymru a bydd yn arwain at newidiadau mawr i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'n bleser nodi bod yr ymateb i'r ymgynghoriad a'r camau gweithredu a ddeilliodd ohono wedi bod yn dryloyw, yn unol â phrosesau llywodraethu da. Mae'r Pwyllgor Pensiynau, cadeiryddion y Bwrdd Pensiynau ac aelodau'r Bwrdd Pensiynau wedi derbyn y newyddion diweddaraf am yr ymateb gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn rheolaidd. Maen nhw hefyd wedi cael cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad a'r camau gweithredu sy'n deillio o hynny.

Yn olaf, rydw i'n ddiolchgar i'm cyd-aelodau ar y bwrdd pensiwn a'r swyddogion a'r staff sy'n cefnogi'r Bwrdd am eu gwaith, eu cyfraniadau a'u cefnogaeth barhaus.

**Yr Athro Hugh Coombs**
**Cadeirydd, Bwrdd Cronfa Bensiwn RhCT**

# Strwythur Llywodraethu




## Presenoldeb mewn cyfarfodydd Llywodraethu Pensiynau 2024/2025

**Mae'r tabl isod yn dangos pwy oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn.**

| | Panel Buddsoddi a Gweinyddu | Gweithgor y Gronfa Bensiwn | Fforwm Cyfathrebu'r Gronfa Bensiwn | Panel Disgresiynau'r Gronfa Bensiwn |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd: **4** | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd: **4** | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd: **2** | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd: **3** |
| **Barrie Davies** | 2 | 1 | 1 | - |
| **Paul Griffiths** | 4 | 3 | - | - |
| **Ian Traylor** | 3 | 4 | 2 | 3 |
| **Stephanie Davies** | 1 | 1 | - | - |
| **Yvonne Keitch** | 4 | 4 | 2 | - |
| **Vanessa Thomas** | 3 | 4 | - | - |
| **Catherine Black** | 1 | 4 | 1 | 3 |
| **Gemma Penning** | - | 4 | - | 3 |
| **Tim Jenkins** | - | - | 2 | - |

## Manylion Presenoldeb Pwyllgor a Bwrdd y Gronfa Bensiwn 2024/2025

| | Cyfarfodydd y Bwrdd |
|---|---|
| | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd: **5** |
| **Yr Athro Huw Coombs** Cadeirydd | 5 |
| **Rob Whiles** Cynrychiolydd yr Aelodau | 5 |
| **David Francis** Cynrychiolydd y Cyflogwyr | 3 |
| **Darren Griffiths** Cynrychiolydd yr Aelodau | 4 |

| | Cyfarfodydd y Pwyllgor |
|---|---|
| | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd: **4** |
| Y Cynghorydd **M Norris** (Cadeirydd) | 4 |
| Y Cynghorydd **C Leyshon** | 4 |
| Y Cynghorydd **K Johnson** | 1 |
| Y Cynghorydd **M Ashford** | 4 |
| Y Cynghorydd **N Morgan** | 4 |
| Y Cynghorydd **S Trask** | - |

# Gwybodaeth a Sgiliau

**Er mwyn nodi'r sgiliau sydd eu hangen ar y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wedi datblygu fframwaith gwybodaeth a sgiliau y mae'r Gronfa wedi'i fabwysiadu er mwyn sicrhau bod gan holl aelodau'r panel a'r gweithgor y lefelau angenrheidiol o wybodaeth.**

Y gofynion craidd:

- Cyd-destun deddfu a llywodraethu pensiynau
- Safonau cyfrifo ac archwilio pensiynau
- Gwasanaethau Ariannol — Rheoli caffael a pherthynas
- Cyflawniad Buddsoddiadau a Rheoli Risg
- Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol
- Dulliau, safonau ac arfer yr Actiwari

Mae aelodau o baneli a gweithgorau Cyngor Rhondda Cynon Taf yn mynychu sesiynau hyfforddiant yn rheolaidd er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan gynnwys deddfwriaeth, buddion y cynllun, strategaethau buddsoddi, dulliau'r actiwari a dulliau cyfrifeg pensiynau.

| Cynulleidfa | Maes y Fframwaith | Wedi'i hwyluso gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion, Rheolwr Gwasanaeth - Pensiynau, Materion Digideiddio a Chyfathrebu, Prif Gyfrifydd - Pensiynau, Rheoli Cronfeydd a'r Trysorlys, Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Rheolwr Materion Digideiddio a Chyfathrebu, Uwch Arweinydd y Garfan (Pensiynau) | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Gweminar Byw CPLlL | 10 Ebrill 2024 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Rheolwr Materion Digideiddio a Chyfathrebu | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Heywood | 11 Ebrill 2024 |
| Blaen Gyfrifydd - Y Gronfa Bensiwn a Rheoli'r Trysorlys | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | PPC a Baillie Glifford | 11 Ebrill 2024 |
| Y Cynghorydd Norris a Blaen Gyfrifydd y Gronfa Bensiwn a Rheoli'r Trysorlys | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | FfCPALl (LAPFF) | 17 Ebrill 2024 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Rheolwr Materion Digideiddio a Chyfathrebu | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Heywood | 17 Ebrill 2024 |
| Blaen Gyfrifydd - Y Gronfa Bensiwn a Rheoli'r Trysorlys | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | Gweithgor Buddsoddi sy'n gyfrifol am gyswllt rhwng cronfeydd | 24 Ebrill 2024 |
| Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion, Rheolwr Gwasanaeth - Pensiynau, Materion Digideiddio a Chyfathrebu, Prif Gyfrifydd - Pensiynau, Rheoli Cronfeydd a'r Trysorlys, Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Rheolwr Materion Digideiddio a Chyfathrebu, Uwch Arweinydd y Garfan (Pensiynau) | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Aon | 14 Mai 2024 |
| Cyfarwyddwr - Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion, Rheolwr Gwasanaeth - Pensiynau, Rheolwr Materion Digideiddio a Chyfathrebu, Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) | 24 Mai 2024 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Rheolwr Materion Digideiddio a Chyfathrebu, Uwch Arweinydd y Garfan (Pensiynau) | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Heywood | 31 Mai 2024 |
| Rheolwr Materion Digideiddio a Chyfathrebu | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Heywood | 14 Mehefin 2024 |
| Aelodau o Banel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu a'r Pwyllgor Pensiynau | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) | 18 Mehefin 2024 |
| Aelodau o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Rheolwyr y Gronfa | 27 Mehefin 2024 |
| Aelodau o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | Rheolwyr y Gronfa | 27 Mehefin 2024 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Rheolwr Materion Digideiddio a Chyfathrebu, Uwch Arweinydd y Garfan (Pensiynau) | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Grŵp y Swyddogion Pensiwn | 28 Mehefin 2024 |

| Cynulleidfa | Maes y Fframwaith | Wedi'i hwyluso gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Rheolwr Materion Digideiddio a Chyfathrebu | Cyd-destun Ddeddfu a Llywodraethu Pensiynau | Heywood | 10 a 11 Gorffennaf 2024 |
| Y Cynghorydd Norris, Blaen Gyfrifydd y Gronfa Bensiwn a Rheoli'r Trysorlys | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | FfCPALL (LAPFF) | 12 Gorffennaf 2024 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau ac Uwch Reolwyr | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Cymdeithas Llywodraeth Leol | 22 Gorffennaf 2024 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Rheolwr Materion Digideiddio a Chyfathrebu, Uwch Arweinydd y Garfan (Pensiynau) | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Heywood | 8 Awst 2024 |
| Y Cynghorydd Norris a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) | 18 Medi 2024 |
| Y Cynghorydd Norris a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) | 18 Medi 2024 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Heywood | 25 Medi 2024 |
| Aelodau o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Rheolwyr y Gronfa | 30 Medi 2024 |
| Aelodau o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | Rheolwyr y Gronfa | 30 Medi 2024 |
| Y Cynghorydd Christina Leyshon | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Cymdeithas Llywodraeth Leol | Dyddiadau amrywiol rhwng Hydref 2024 a Rhagfyr 2024 |
| Y Cynghorydd Christina Leyshon | Safonau Cyfrifo ac Archwilio Pensiynau | Cymdeithas Llywodraeth Leol | Dyddiadau amrywiol rhwng Hydref 2024 a Rhagfyr 2024 |
| Y Cynghorydd Christina Leyshon | Gwasanaethau Ariannol - Caffael a Rheoli Perthynas | Cymdeithas Llywodraeth Leol | Dyddiadau amrywiol rhwng Hydref 2024 a Rhagfyr 2024 |
| Y Cynghorydd Christina Leyshon | Cyflawniad Buddsoddiadau a Rheoli Risg | Cymdeithas Llywodraeth Leol | Dyddiadau amrywiol rhwng Hydref 2024 a Rhagfyr 2024 |
| Y Cynghorydd Christina Leyshon | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | Cymdeithas Llywodraeth Leol | Dyddiadau amrywiol rhwng Hydref 2024 a Rhagfyr 2024 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Gweminar Byw CPLlL | 2 Hydref 2024 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Cymdeithas Llywodraeth Leol | 8 Hydref 2024 |
| Uwch Arweinydd y Garfan (Pensiynau), Rheolwr Materion Digideiddio a Chyfathrebu, Uwch Arweinydd y Garfan (Pensiynau) | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Heywood User Group | 8 Hydref 2024 |
| Cynghorwyr y Pwyllgorau Pensiynau | Rheoli Risgiau (Seibrddiogelwch) | Pennaeth TGCh | 9 Hydref 2024 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Uwch Arweinydd y Garfan (Pensiynau) | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Grŵp y Swyddogion Pensiwn | 18 Hydref 2024 |
| Cynghorwyr y Pwyllgor Pensiynau, Aelodau o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn, Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Uwch Reolwr Carfan (Pensiynau) | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol | 12 Tachwedd 2024 |
| Cynghorwyr y Pwyllgor Pensiynau, Aelodau o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn, Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Uwch Reolwr Carfan (Pensiynau) | Cyflawniad Buddsoddiadau a Rheoli Risg | Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol | 12 Tachwedd 2024 |

| Cynulleidfa | Maes y Fframwaith | Wedi'i hwyluso gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr y Pwyllgor Pensiynau, Aelodau o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu, Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Uwch Reolwr y Garfan (Pensiynau) | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau Cyd-destun | Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol | 12 Tachwedd 2024 |
| Y Cynghorydd Norris a Blaen Gyfrifydd y Gronfa Bensiwn a Rheoli'r Trysorlys | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | Waystone | 15 a 16 Hydref 2024 |
| Aelodau o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn a'r Pwyllgor Pensiynau | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) | 18 Hydref 2024 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Uwch Arweinydd y Garfan (Pensiynau) | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Pensions Managers Conference | 19 a 20 Tachwedd 2024 |
| Aelodau o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Rheolwyr y Gronfa | 25 Tachwedd 2024 |
| Aelodau o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | Rheolwyr y Gronfa | 25 Tachwedd 2024 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Prudential | 25 Tachwedd 2024 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau | Dulliau, safonau ac arfer yr Actiwari | Prudential | 25 Tachwedd 2024 |
| Aelodau o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn a'r Pwyllgor Pensiynau | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) | 28 Tachwedd 2024 |
| Rheolwr Materion Digideiddio a Chyfathrebu | Dulliau, safonau ac arfer yr Actiwari | Heywood | 4 Rhagfyr 2024 |
| Y Cynghorydd Norris | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | FfCPALl (LAPFF) | 4 tan 6 Rhagfyr 2024 |
| Y Cynghorydd Norris | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | FfCPALl (LAPFF) | 4 tan 6 Rhagfyr 2024 |
| Cynghorwyr sy'n rhan o'r Pwyllgor Pensiynau | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | FfCPALl (LAPFF) | 11 Rhagfyr 2024 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Uwch Arweinydd y Garfan (Pensiynau) | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Grŵp y Swyddogion Pensiwn | 13 Rhagfyr 2024 |
| Blaen Gyfrifydd y Gronfa Bensiwn a Rheoli'r Trysorlys | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Gweithgor Buddsoddi sy'n gyfrifol am gyswllt rhwng cronfeydd | 14 Ionawr 2025 |
| Y Cynghorydd Norris a Blaen Gyfrifydd y Gronfa Bensiwn a Rheoli'r Trysorlys | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | FfCPALl (LAPFF) | 29 Ionawr 2025 |
| Y Cynghorydd Norris, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Cymdeithas Llywodraeth Leol | 30 a 31 Ionawr 2025 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Uwch Arweinydd y Garfan (Pensiynau) | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Aon | 10 Chwefror 2025 |
| Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion, Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Gweminar Byw CPLlL | 12 Chwefror 2025 |
| Y Cynghorydd Trask | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion | Chwefror a Mawrth 2025 |
| Y Cynghorydd Trask | Safonau Cyfrifo ac Archwilio Pensiynau | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion | Chwefror a Mawrth 2025 |

| Cynulleidfa | Maes y Fframwaith | Wedi'i hwyluso gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Y Cynghorydd Trask | Gwasanaethau Cyllid, Caffael a Rheoli Perthynas | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion | Chwefror a Mawrth 2025 |
| Y Cynghorydd Trask | Cyflawniad Buddsoddiadau a Rheoli Risg | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion | Chwefror a Mawrth 2025 |
| Y Cynghorydd Trask | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion | Chwefror a Mawrth 2025 |
| Aelodau o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Rheolwyr y Gronfa | 3 Mawrth 2025 |
| Aelodau o'r Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | Rheolwyr y Gronfa | 3 Mawrth 2025 |
| Uwch Arweinydd y Garfan (Pensiynau), Rheolwr Materion Digideiddio a Chyfathrebur | Dulliau, safonau ac arfer yr Actiwari | Heywood | 12 Mawrth 2025 |
| Rheolwr y Gwasanaeth Pensiynau, Uwch Arweinydd y Garfan (Pensiynau) | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Grŵp y Swyddogion Pensiwn | 14 Mawrth 2025 |
| Aelodau Amrywiol o Banel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn a'r Pwyllgor Pensiynau | Cyd-destun Deddfu a Llywodraethu Pensiynau | Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) | 24 Mawrth 2025 |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | Waystone and Russell Investments | 26 Mawrth 2025 |
| Y Cynghorydd Norris a Chyfarwyddwr Gwasanaeth – Cyllid a Gwasanaethau Gwella | Gwybodaeth am farchnadoedd a chynhyrchion ariannol | LGC | 26 Mawrth 2025 |

# Partneriaid

## Actiwari'r Cynllun:

### Aon Hewitt Limited

**Prif swyddogaeth yr actiwari yw rhoi gwybodaeth i'r gronfa ynghylch ei hymrwymiadau a'r ffordd orau o gyflawni'r ymrwymiadau hynny.**

Mae prisiad o'r gronfa yn cael ei gynnal bob 3 blynedd ac mae hynny'n galluogi'r actiwari i gyfrifo'r ymrwymiadau o'u cymharu ag asedau'r gronfa. Yn sgil hynny, bydd yr actiwari'n argymell cyfraddau cyfrannu i'r cyflogwyr er mwyn osgoi unrhyw ddiffyg yn y dyfodol.

Cafodd cwmni Aon ei benodi yn actiwari i'r cynllun ym mis Hydref 2003.

## Archwilydd y Gronfa:

### Archwilio Cymru

**Mae Archwilio Cymru yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn gyfrifol am waith archwilio oddeutu £21 biliwn o wariant arian cyhoeddus bob blwyddyn.**

Ei nod yw hyrwyddo gwelliannau, fel bod pobl yng Nghymru yn cael manteisio ar wasanaethau cyhoeddus atebol, sy'n cael eu rheoli'n dda ac sy'n cynnig y gwerth gorau am arian.

## Darparwr Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol (AVC):

### Prudential

**Cafodd cwmni Prudential ei benodi yn ddarparwr Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol y gronfa yn 2002.**

Ac yntau'n ddarparwr AVC blaengar ym maes llywodraeth leol, bydd e'n cydweithio'n agos â'n Hadran Materion Pensiynau i ofalu bod ein haelodau ni'n gwybod am y dewis sydd gyda nhw i ychwanegu at eu darpariaeth bresennol.

## Ymgynghorwyr Materion Cyfreithiol y Gronfa:

### Eversheds

# Partneriaid

## Rheolwyr y Gronfa:

**Rheolwyr Cronfa allanol, wedi'u penodi gan y gronfa, sy'n gyfrifol am fuddsoddi asedau'r Gronfa Bensiwn.**

Bydd y Rheolwyr Cronfa yma'n cael cyfarwyddiadau a thargedau cyflawniad penodol. Bydd Panel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu Rhondda Cynon Taf yn cadw llygad ar y rhain, ac yn cynnal cyfarfod bob 3 mis i wneud hynny.

### Baillie Gifford Asset Management

**Partneriaeth rheoli buddsoddiadau a sefydlwyd ym 1908 yw Baillie Gifford y mae ei swyddfeydd yng Nghaeredin.**

Yn 2005, cafodd y bartneriaeth ei phenodi gan y gronfa i reoli ecwitïau byd-eang. Bellach, mae gan y cwmni ddau o fandadau ecwitïau ar wahân.

### BlackRock Investment Management

**Cwmni rheoli buddsoddiadau BlackRock yw un o gwmnïau rheoli asedau mwyaf y byd, sy'n cynnwys ystod eang o asedau buddsoddi.**

Penodwyd y cwmni i fandad ecwiti y DU gan y gronfa yn 2010, i fandad llog sefydlog yn 2020 ac i fandad isadeiledd yn 2022.

### CBRE

**CBRE yw un o gwmnïau eiddo tirol masnachol mwyaf y byd.**

Mae wedi rheoli portffolio eiddo'r gronfa ers cymryd drosodd o gwmni ING, un o gyn-reolwyr y gronfa, ym mis Hydref 2011.

### State Street

**Ac yntau'n gwmni o'r Unol Daleithiau, mae State Street yn darparu gwasanaethau ariannol ar gyfer buddsoddwyr sefydliadol.**

Mae State Street yn darparu gwasanaeth gwarchodaeth a mesur cyflawniad ar gyfer Cronfa Bensiwn RhCT.

### Waystone

**Gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru a awdurdodwyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.** Link oedd y cyn weithredwr.

### GCM Grosvenor

**Mae GCM Grosvenor yn rheolwr isadeiledd pen caeedig i PPC.**

### Capital Dynamics

**Capital Dynamics yw Rheolwr Buddsoddi lleol PPC.**

# Rhagor **o wybodaeth**

**Mae rhagor o wybodaeth am y Cynllun ar gael yn y Canllaw i Aelodau sydd ar gael yma:**
➔ www.pensiynaurhct.org.uk

# Manylion Cyswllt y **Cyfranwyr**

**I gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a materion pensiwn cyffredinol:**

**Desg Gymorth yr Adran Bensiynau**
☎ **01443 680611**
✉ **pensiynau@rctcbc.gov.uk**
neu ysgrifennu at:
**Adran Bensiynau**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Tŷ Oldway, Porth
CF39 9ST

**Polisi Gweinyddu Pensiynau**
**Mr Ian Traylor**
Cyfarwyddwr Gwasanaeth –
Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion
☎ **01443 680611**
✉ **ian.d.traylor@rctcbc.gov.uk**

**Buddsoddiadau'r Gronfa**
**Miss Yvonne Keitch**
Blaen Gyfrifydd, Rheoli'r Trysorlys a'r Gronfa Bensiwn
☎ **01443 680611**
✉ **yvonne.keitch@rctcbc.gov.uk**

**Cyfrifon Cronfa Bensiwn**
**Mrs Vanessa Thomas**
Cyfrifydd y Trysorlys a'r Gronfa Bensiwn
☎ **01443 680611**
✉ **vanessa.g.thomas@rctcbc.gov.uk**

**Cyflwyniadau neu Sesiynau Hyfforddi ar faterion Pensiynau**
**Mr Tim Jenkins**
Uwch Reolwr y Garfan –
Materion Digidol, Cyfathrebu a Llywodraethu
☎ **01443 680611**
✉ **tim.jenkins@rctcbc.gov.uk**

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg